ECO'R WYDDFA

Rhif 168 EBRILL 1991 Pris 25c.

Karate, tenis, sgïo, pysgota. Nid y math o chwaraeon i ddisodli, ar hyn o bryd, teyrnasiad y frenhines bêl-droed fel prif gêm yr ardal hon. Ond, onid peth braf yw gweld mwy a mwy o'n pobl ifanc yn ymddiddori, yn llwyddo ac yn aml yn cyrraedd safonau uchel iawn yn y campau 'lleiafrifol' hyn. Pob clod iddynt am eu dyfalbarhad. Diolch hefyd i'r trefnwyr a'r hyfforddwyr ac i'r rhieni hynny sy'n aberthu llawer er sicrhau bod eu plant yn cael y cyfleoedd gorau.

Dewi Jones o Fethel gyda Harry Lloyd, y gŵr gwadd.

CLOD I'R CHWARAEWYR

Arfon yn Anrhydeddu Colin



Maer Arfon yn cyflwyno Tlws Chwaraewr y Flwyddyn i Colin Jones.

Roedd nos Lun, Mawrth 25, yn noson arbennig yng nghalendr chwaraeon y cylch gyda neuadd Theatr Seilo yn llawn o chwaraewyr, hyfforddwyr, trefnwyr, rhieni a charedigion pob math ar gamp. Trefnwyd 'Noson Gwobrwyo Chwaraewyr y Flwyddyn yn Arfon 1990' gan Gyngor Bwrdeistref Arfon a dyma'r gyntaf o'i bath. Yn ôl Maer Arfon, y Cynghorydd Betty Williams, 'Bwriedir i'r achlysur hwn fod yn uchafwynt cymdeithasol y flwyddyn yng nghalendr chwaraeon y dyfodol'.

Uchafwynt y noson oedd cyflwyno Tlws Chwaraewr y Flwyddyn i Colin Jones yr athletwr ifanc o Bontrug sydd wedi ennill llu o anrhydeddau yn ystod 1990 ac sy'n mynd ymlaen o nerth i nerth. Yn ail iddo roedd Michael Wroe o'r Waunfawr sy'n prysur gwneud enw iddo'i hun yn y byd sgïo.

Cyflwynwyd tri thlws arbennig i chwaraewyr sy'n dioddef anabledd. Un o'r rhai a anrhydeddwyd oedd y pysgotwr pluen, Dewi Jones, o Fethel. Paul Lewis a Kevin Evans o Antur Waunfawr oedd y ddau arall.

Daeth Caitlin Wroe o'r Waunfawr, am ei medr arbennig fel sgiwraig, yn ail yn y categori 'geneth fwyaf addawol 1990'. Enwebwyd Gavin Allen, Deiniolen am ei ddoniau pêl-droed yn y categori 'bachgen mwyaf addawol'.

Cyflwynwyd tair tystysgrif i unigolion sydd wedi gwneud cyfraniad arbennig i chwaraeon — fel chwaraewyr, hyfforddwyr neu fel trefnwyr — yn Arfon. Un derbynnydd poblogaidd iawn oedd Ieuan Owen y codwr pwysau sy'n ymarfer ac yn hyfforddi yn Llanrug.

Llwyddiant Ysgubol Karate Llanrug

Prin bod Clwb Karate Llanrug yn flwydd oed eto, ond eisoes maent wedi profi mai nhw yw prif glwb Karate gogledd Cymru. Daeth cryn lwyddiant i'w rhan ym mis Rhagfyr y llynedd, ond ar ddydd Sadwrn, Mawrth 16, dangosodd aelodau'r clwb nad oes neb yng ngogledd Cymru i'w curo. Cynhaliwyd y gornestau graddio yn Nhalybont, ger Dolgarrog, ac yn ychwanegol at y tîm lleol, roedd Llanrug yn wynebu her o glybiau ym Mlaenau Ffestiniog a Llandudno. Daeth yr aelodau i'r brig gyda'r marciau uchaf yn y gwahanol adrannau.

Yn yr Adran Iau, daeth pedwar yn gyfartal gyntaf, ac yr oedd tri ohonynt o Glwb Llanrug: Christopher Pritchard a gafodd ganmoliaeth uchel yn yr adran ddyrnu, a Gethin Jones a Gareth Hughes a ddaeth yn amlwg yn adran Kata. Unwaith eto, Meriel Wood o Glwb Llanrug a enillodd y brif wobr yn yr Adran Hŷn, camp a gyflawnodd ym mis Rhagfyr hefyd.

I gofio'r achlysur, cyflwynwyd bathodynnau arbennig i'r holl enillwyr.

Ond i goroni'r achlysur, cafodd Kevin Siddall, hyfforddwr hŷn y Clwb, ei gyflwyno a phedwerydd Belt Du Dan, mae hyn yn golygu ei fod bellach yn un o'r rhai blaenaf yng Nghymru ar raddfa'r Belt Du. Derbyniodd yr anrhydedd gan Sensei John Lynn, pumed Dan, a Phrif Hyfforddwr Cymdeithas Karate Kokoro.

Dywedodd Gareth Edwards, ysgrifennydd y Clwb ei fod yn hynod o falch o lwyddiant yr aelodau, a hynny mor gynnar ar ôl sefydlu'r Clwb. Ychwanegodd fod fideos personol o'r graddio wedi eu gwneud, a byddant ar gael yn fuan. Mae'r Clwb yn awyddus i ddenu mwy o aelodau, ac y mae croeso i unrhyw un sydd a diddordeb gysylltu â Gareth Edwards, dim ond ffonio Caernarfon 77219.

Pencampwyr Ifanc

Pryd y cafodd yr Eco gyfle o'r blaen, dudwch, i roi sylw i'r gêm denis? Pleser yw cael gwneud hynny y tro hwn, yn enwedig pan fod gennym yn y fro rai mor ifanc yn gwneud eu marc.

Llongyfarchiadau i holl blant y fro fu'n cystadlu yn y Pencampwriaethau Tenis Fer yn y Ganolfan Hamdden yn ddiweddar. Ac yn arbennig i Hefin Roberts a Siân Green (llun), y ddau o Lanrug, ar ddod i'r brig yn adran y bechgyn ac adran y genethod dan 8 oed.

Da iawn hefyd y canlynol, i gyd dan 10 oed: Meilyr Jones, Llanrug (colli yn y ffeinal); Alison Jones, Deiniolen a Tom Hastings, Llanrug (y ddau yn y rowndiau cyn-derfynol yn eu hadrannau.

ECO'R WYDDFA

RHIF 168
EBRILL 1991

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd Cibyn, Caernarfon.

Cyhoeddwyd gyda chymorth Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

GOLYGYDD NEWYDDION CYFFREDINOL: Twrog Jones, Pros Kairon, Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU: Dafydd Whiteside Thomas, Bron-y-Nant, Pontrhythallt, Llanrug (C'fon 3515)

GOLYGYDD NEWYDDION PENTREFI: Nant Roberts, Arwel, Pontrhythallt (870760)

GOLYGYDD CHWARAEON: Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun (Llanberis 872407)

ECO'R IFANC: Mrs Nan Humphreys, Pant Bryngwyn, Tanycoed (C'fon 5668)

DYDDIADUR Y MIS: Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach, Llanrug (Waunfawr 200)

FFOTOGRAFFWYR: Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4669)
Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug (C'fon 77263)

TREFNYDD HYSBYSEBION: John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug (C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIANT: Arwyn Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf, Llanrug (C'fon 5510)

TREFNYDD ARIANNOL: Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (C'fon 4839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST: Mrs E Whiteside Thomas, Dolwar, Llanrug (C'fon 4778)

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r bobl i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd.

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran, (Portdinorwig 670726)

BRYNREFAIL: Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Mrs Beryl Roberts, Gerallt, Erw Wen (C'fon 3536)

CEUNANT: Gwenno Parri, Morwel (Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (Llanberis 872275)

DEINIOLEN: W O Williams, 6 Rhydfadog, Deiniolen (Llanberis 871259)

DINORWIG: Mr D J Thomas, 8 Maes Eilian (870773)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri, 870491.

LLANRUG: Mrs Dyfi Jones, Tyddyn Rhuddallt (Caernarfon 76733)

NANT PERIS: Mrs Ann Pleming, Dolwen, 8 Nant Ffynnon (871457)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth (Llanberis 872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry, Ael y Bryn. (872 276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr (Waunfawr 570).

Y RHIFYN NESAF
Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, MAI 2
Deunydd i law'r golygyddion perthnasol
NOS FAWRTH, EBRILL 23
os gwelwch yn dda.

Llafar

Cariad at Fro, Synnwyr Cyffredin — a Chroen Eliffant

O fewn y mis bydd trigolion y fro yn cyrchu'r orsaf bleidleisio i ddewis eu cynrychiolwyr am y pedair blynedd nesaf ar eu cynghorau cymdeithas ac ar Gyngor Bwrdeistref Arfon — hynny yw, os bydd ymgeiswyr am bob sedd. Eisoes clywsom fod rhai o gynghorwyr y fro yn pendroni ynglŷn â rhoi eu henwau ymlaen i sefyll yr etholiad nesaf. Collwyd rhai eraill trwy farwolaeth. Tybed a ddaw rhai i gymryd eu lle?

Cafodd y cynghorau cymdeithas gryn sylw yn ystod y flwyddyn a aeth heibio oherwydd i etholwyr rhai cymunedau benderfynu dileu eu cynghorau lleol. Cyngor Tref Rhydaman yn ne Cymru oedd y diweddaraf i wneud hynny. Hyd yma, ni fu unrhyw argoel fod trigolion bro'r 'Eco' yn bwriadu dilyn esiampl eu cefndryd o'r de.

Mae dwsin neu ragor o gynghorwyr i bob cyngor cymdeithas, a'r rheini yn cynrychioli ardal weddol gyfyng o ran maint ac o ran poblogaeth. Maent felly mewn gwell sefyllfa yn aml i ddod ag unrhyw broblem sy'n bodoli o fewn eu hardal i'r amlwg — a'i throsglwyddo'n 'swyddogol' i'r cyrff statudol megis cyngor dosbarth neu sir, neu gwmnïau yn delio â nwy, trydan neu ddŵr. Mae iddynt hefyd ddyletswyddau fel awdurdod claddu a gofalu am feysydd chwarae (mewn rhai achosion), llwybrau cyhoeddus a mynegi barn ar geisiadau cynllunio. Yn bwysicach, efallai, mae iddynt yr hawl i ymdrin ag unrhyw agwedd sy'n berthnasol i fywyd beunyddiol eu cymdeithas. Oherwydd hynny, mae'n bwysig i aelodau cynghorau cymdeithas fod yn gynrychioladol o amryw agweddau o fywyd pentrefol eu hardal — ac y mae yr un mor bwysig cael aelodau ifanc, brwdfrydig ac aelodau hŷn, profiadol.

Ail haen llywodraeth leol yw'r cyngor bwrdeistref (neu ddosbarth). Fel rheol, mae un neu ddau gynghorydd yn cynrychioli ardal a wasanaethir gan gyngor cymdeithas. Mae i'r cyngor bwrdeistref hefyd fwy o bŵer statudol, gan gynnwys iechyd yr amgylchedd, adloniant a mwynderau, tai cyngor, hawliau cynllunio a rheolaeth adeiladu.

I'r rhai sydd â diddordeb mewn llywodraeth leol, neu yn bwysicach fyth, i'r rhai sydd a diddordeb yn y sut a'r paham y mae eu bro yn datblygu, yna cynigiwch eich hunain fel aelod o'ch cyngor lleol. Mae gwybodaeth am sut i gael eich enwebu ar gael o swyddfeydd Cyngor Arfon neu gan Glerc eich cyngor cymdeithas lleol.

Os oes dogn go dda o synnwyr cyffredin gennych; os oes cariad gennych at eich bro, yna ystyriwch o ddifrif gynnig eich gwasanaeth i'r fro honno. Fe ddaw'r croen eliffant gydag amser!

Llythyrau

Antur Padarn

Annwyl Olygydd,

Yn dilyn y cyhoeddiad hanesyddol bod dros ddau gant o swyddi newydd i'w creu ar safle Glyn Rhonwy, Llanberis, hoffwn fanteisio ar y cyfle i atgoffa pawb na fyddai y newydd yma wedi bod yn bosibl pe byddai cefnogwyr Cynllun Leading Leisure wedi cael eu ffordd. Felly tybiaf bod yr amser yn addas i ni ddiolch i'r cannoedd hynny o bobl yr ardal a tu allan a frwydrodd yn ddewr dros y blynyddoedd diwethaf yn erbyn y datblygiad anghyfrifol hwnnw. Chwi gofiwch, fel minnau, pwy oedd y cefnogwyr hynny a bydd gan rhai ohonoch gyfle yn yr etholiadau lleol sydd i'w cynnal ym mis Mai i wneud rhywbeth ynglŷn â hynny. Hefyd diddorol yw gweld sut mae rhai o brif swyddogion Cyngor Dosbarth Arfon yn ymddwyn fel canlyniad i'r cyhoeddiad diweddaraf yma. Chwi gofiwch mai eu neges hwy pryd hynny oedd mai yr UNIG ddewis oedd yr hyn oedd y Cwmni o Southampton i'w gynnig.

Beth bynag, mae'n rhaid edrych i'r dyfodol yn awr a gweithio tuag at greu sefyllfa pryd y byddwn yn gweld mwy o swyddi newydd yn cael eu creu yn yr ardal. Creu yr awyrgylch priodol tuag at sicrhau hynny yw nôd ANTUR PADARN ac mae'r gefnogaeth 'r cyd-weithrediad parod yr ydym wedi ei dderbyn wrth ddosbarthu ein holiadur yn ystod yr wythnosau diwethaf, yn dangos i ni eich bod fel cymuned yn gefnogol iawn i'r hyn yr ydym yn ceisio ei wneud. Felly cofiwch os ydych yn dymuno ymuno â ni yn y gwaith pwysig hwn yna mae croeso i chwi gysylltu â mi (ffôn: Llanberis 870576), neu unrhyw swyddog arall o'r Antur.

Llawer o ddiolch.

Yn gywir iawn,
Glyn Tomos (Cadeirydd),
Pen-y-bwlch, Dinorwig.

Celfyddydau Gweledol yn y Llyfrgell

Annwyl Olygydd,

Y mae gan Wasanaeth Llyfrgell Sir Gwynedd raglen ddiddorol o arddangosfeydd celfyddydol mewn amryw o'u llyfrgelloedd. Newidir yr arddangosfeydd bob rhyw dair wythnos ac fe sicrheir rhaglen o weithiau gan arlunwyr lleol a chenedlaethol. Yn ychwanegol dangosir gweithiau cain crefftwyr Cymru yn rheolaidd yn Llyfrgelloedd Caernarfon a Llangefni.

Y mae pob Oriel yn y Llyfrgell yn le cyhoeddus ple y gellir mynd iddo yn ddi-dâl a chael llawer o fwyniant a phleser. Beth am droi i mewn fel unigolyn neu yn wir beth am i grŵp drefnu taith ymweld; bydd croeso i chi bob amser a chyfleusterau addas i rai mewn cadair olwyn.

Cwm-y-Glo i Tunisia

Annwyl Olygydd,

Ar ôl clywed y newyddion da o'r Gwlff, fod y rhyfel a'r colli bywyd ar ben, mi gofiais am stori. Cafodd y stori ei dweud wrthyf gan Nellie Pritchard o Frynrefail sydd yn byw erbyn hyn yn Llundain.

Collwyd tri o hogiau Cwm-y-Glo yn y Rhyfel Mawr 1939-45. Eu henwau oedd Dafydd Pearce Owen, Bryn Crwn; Meirion Evans, Tan y Rhiw a Siôn Parry (tad Nellie). Fe gaoff Siôn ei ladd a'i gladdu yn Tunisia.

'Roedd Nellie a Huw, ei brawd, wedi bwriadu mynd i weld bedd eu tad ers llawer blwyddyn ond bu'n rhaid iddynt aros hyd ddwy flynedd yn ôl cyn cael y cyfle.

Penderfynodd Nellie fynd ag ychydig o gerrig oddi ar fedd ei mam ym Mhenisarwaun a'u rhoi ar fedd ei thad yn Tunisia a'r un modd roedd am roi cerrig o'r bedd yn Tunisia ar fedd ei mam.

Gwelodd Nelli fedd ei thad ac ar y garred roedd y pennill yma wedi ei dorri:

Gwladgarwr gwerth i'w gofio
Dewr galon gŵr di-ildio
Cymro glân o Gwm-y-Glo.

Ysgrifennwyd gan y diweddar Huw Parry Williams, Bodiestyn, Cwm-y-Glo (Huw Parry Barbar), sef tad Cecil Williams sydd yn byw yn Hafan Elan, Llanrug.

Maldwyn Hughes,
Bryn Gro, Cwm-y-Glo.

CABS LLANRUG

C'fon 5951

Prisiau cystadleuol
Gwaith contract
pell ac agos

Fforwm laith

Annwyl Olygydd,

Diddorol yw cymharu datblygiad y Bwrdd laith a'r Fforwm laith Genedlaethol, a hoffwn dynnu sylw eich darllenwyr at rai cymhariaethau.

Yr oedd y Bwrdd laith mor aradeg yn datgelu manylion ei ail gynnig o Fesur Drafft ar Ddeddf laith fel bod llawer yn dechrau meddwl fod y Bwrdd wedi chwythu ei blwc. O ystyried yr holl amser y bu'r Bwrdd yn ail-lunio'r Drafft, siomedig yw'r gwelliannau, ond diolch am yr ychydig a gawsom.

Nid yw ymgyrch y Bwrdd laith — laith Gwaith — yn ddim ond ail bobiad o ymgyrch Cymdeithas yr laith ddeuddeng mlynedd yn ôl. Hefyd, cyn preifateiddio y gwasanaeth dŵr yr oedd cadeirydd rhan-amser y Bwrdd laith, Mr John Elfed Jones, yn gadeirydd rhan-amser o'r Bwrdd Dŵr ond bellach y mae'n gadeirydd ***llawn****-amser o Dŵr Cymru. Oes gan y Bwrdd laith gadeirydd o gwbl bellach?*

Mewn cymhariaeth, mae'r Fforwm laith Genedlaethol yn mynd o nerth i nerth. Mae mwy o fudiadau wedi ymuno â'r Fforwm, a bellach mae dros dau ddwsin o fudiadau a chymdeithasau yn perthyn i'r Fforwm. Golyga hyn waith cynyddol, a chyda Strategaeth y Fforwm ar fin cael ei gyhoeddi, y mae'r Fforwm am ehangu ei staff trwy benodi Trefnydd /Cyd-gysylltydd llawn amser — diolch i haelioni a chefnogaeth cylch o gwmnïau preifat. Bydd y swydd ar y cychwyn am 12 mis, yn dechrau ym mis Gorffennaf eleni, a thelir cyflog hyd at £12,000 a chostau teithio. Bydd y swyddfa yng Nghaernarfon, ac os oes un o'ch darllenwyr gyda'r profiad a'r brwdfrydedd i sicrhau dyfodol cadarn a theilwng i'r iaith Gymraeg, trwy ddatblygu a gweinyddu gweithgarwch y Fforwm laith Cenedlaethol, cysylltwch â mi am fanylion pellach.

Yn gywir iawn,
ARIAL M. THOMAS
Bron Wylfa, Llanwnda, Caernarfon.

Cerdyn Yswiriant Cenedlaethol Cymraeg

Annwyl Olygydd,

Does dim rhaid i'r rhai ohonom sy'n gweithio i gyflogwr boeni am gerdyn Yswiriant Cenedlaethol ond mae rhaid i'r rhai sy'n hunan-gyflogedig gael un newydd bob blwyddyn.

Am y tro cyntaf mae'r Adran wedi darparu cerdyn Yswiriant Cenedlaethol uniaith Gymraeg.

Dechrau mis Ebrill bydd eith darllenwyr sy'n hunan gyflogedig yn newid yr hen gerdyn a derbyn un newydd. Gan fod y rhan fwyaf ohonynt yn gwneud hyn trwy'r post ni fydd cyfle i ni ofyn iddynt os ydynt yn dymuno cael y cerdyn Cymraeg newydd.

Gai apelio arnynt i roi nodyn gyda'r hen gerdyn i ofyn am y cerdyn Cymraeg. Unwaith mae hyn wedi'i wneud ni fydd rhaid gofyn eto yn y dyfodol.

Yr eiddoch yn ddiffuant,
Richard Thomas,
Swyddog Gwybodaeth,
Adran Nawdd Cymdeithasol.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

Cefn Gwlad Cymru dan Adain y Ddraig

Mae logo newydd wedi'i greu ar gyfer y corff newydd, Cyngor Cefn Gwlad Cymru. Mae'r logo'n dangos draig yn ymestyn ei hadain yn amddiffynnol dros gefn gwlad Cymru.

Eirwyn Morris yn arddangos cynllun y logo ar fwrdd du ei ystafell yn Ysgol Brynrefail.

Roedd nifer o arbenigwyr wedi cyflwyno'u cynlluniau a syniadau ond y person a wahoddwyd i ddatblygu'i gynllun oedd Mr Eirwyn Morris, athro bioleg yn Ysgol Brynrefail. Mae Eirwyn Morris yn arbenigo mewn cynllunio logos yn ei amser hamdden ac ymhlith ei lwyddiannau diweddar y mae'i gynlluniau ar gyfer logos Archifdy Ffilm a Fideo Cymru; Clwb i'r Campau (cymdeithas ar gyfer ysgrifenwyr a darlledwyr ym maes y campau) a Gŵyl Cerdd Dant 1990.

Daw Eirwyn yn enedigol o Ddinorwig a derbyniodd ei addysg ym Mhrifysgolion Bangor a Kansas, UDA. Yn Kansas y cyfarfu â'i wraig, Nancy.

Mae'n rhaid iddo rannu ei stiwdio ym Mangor â phedwar aelod arall o'r teulu gan gynnwys Nancy sy'n artist broffesiynol. Mae'r hynaf o'u tri phlentyn, Siôn, yn astudio celfyddyd graffeg ym Mholytechnig Lerpwl. Mae Dafydd yn ei flwyddyn gyntaf ym Mholytechnig Humerside yn dilyn cwrs Cefl a Dylunio. Nid yw Megan, yr ieuengaf o'r tri, yn dilyn trywydd celfyddydol fel y lleill, ond pan roedd hi'n 10 oed, fe gynhyrchodd logo buddugol ar gyfer un o gystadlaethau'r Urdd yn y gogledd.

Cynrychiolir Cymru yn y logo, sydd mewn tri lliw, gan y ddraig ac atgyfnerthir y naws Geltaidd gan y plethwaith o glymau cymhleth sy'n gwau trwy'r cynllun.

Mae'r logo wedi'i osod o fewn amlinell hecsagon dwbl — mae'r hecsagon yn siâp cyffredin ym myd natur. Mae'r ddraig yn sefyll ar yr ochr chwith, ac ar yr ochr dde mae

cefn gwlad Cymru, o'r môr i'r awyr, yn ddiogel o dan ei hadain.

Daw Cyngor Cefn Gwlad Cymru i rym yn swyddogol ar 1 Ebrill 1991. Bydd yn cymryd drosodd ddyletswyddau presennol y Cyngor Gwarchod Natur a'r Comisiwn Cefn Gwlad. Fe fydd y Cyngor newydd yn ceisio gwarchod natur a thirlun Cymru yn ogystal a hwyluso mynediad y cyhoedd i gefn gwlad i'w fwynhau. Fe fydd yn rhoi cyngor ar faterion yn ymwneud â chefn gwlad i weinidogion ac adrannau'r llywodraeth, ac yn annog a galluogi awdurdodau lleol, cymdeithasau gwirfoddol ac unigolion perthnasol eraill i fwrw 'mlaen â phrosiectau rheoli cefn gwlad. Mae'r Cyngor yn atebol i Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

Ewrosgol Cymru dipyn o hwyl yr ŵyl

Un o brif ddigwyddiadau Ewrosgol Cymru fydd cystadlaethau Rygbi'r Ddraig a gynhelir ar gaeau Bodegroes gan Glwb Rygbi Pwllheli. Bydd 30 o dimau o bob rhan o'r Gymuned Ewropeaidd ynghyd â thimau o Gymru yn ymryson am deitl 'Draig Ewrosgol'.

Cynhelir y cystadlaethau dros ddau ddiwrnod — dydd Iau, Ebrill 4, rhwng 1.30 a 5 o'r goch; a dydd Gwener, Ebrill 5, rhwng 9 a 5 o'r gloch. Mae'r chwaraewyr rhwng 10 a 15 oed a rhai ohonynt — siaradwyr Slofeneg a Ladin o ogledd yr Eidal, er enghraifft, yn hen gyfarwydd â'r gêm, tra bo eraill o Ynysoedd y Ffaro a Llydaw yn chwarae'r gêm am y tro cyntaf. Bydd yn gyfle arbennig i fwynhau gŵyl o gampau rhyngwladol mewn awyrgylch unigryw. Yn ogystal â'r ornest rygbi bydd nifer o ddigwyddiadau eraill ar y safle gan gynnwys arddangosfa gan gŵn yr heddlu; castell aer; arddangosfa gan y Frigâd Dân. Bydd lluniaeth ysgafn ar gael drwy'r dydd.

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL A RHAD YM MHRYDAIN A THRAMOR ...

BYSIAU ARFON
LLANRUG
(Eric Morris)
Ffôn: Caernarfon 5175 77858

OSMOND SHAW DEINIOLEN

GWERTHU – TRWSIO
★ Teledu
★ Fideo
★ Offer Trydan
Gwasanaeth Ffôn 24 awr
LLANBERIS 870545

ANTUR PADARN

— Ymateb da i'r Holiadur —

Pan gyfarfu Pwyllgor yr Antur yn Angorfa, Stryd y Ffynnon, Llanberis, ar nos Fercher, 6 Mawrth, adroddodd dosbarthwyr yr holiadur eu bod yn cael croeso ac ymateb arbennig o dda gan bawb wrth iddynt fynd o gwmpas tai gwahanol bentrefi yr ardal. Mae'n edrych yn obeithiol y bydd yr holl waith o ddosbarthu a derbyn yr holiaduron yn ôl wedi ei gwblhau erbyn y Pasg. Yn naturiol, hoffen fanteisio ar y cyfle yma i ddiolch i bob un o'r dosbarthwyr am eu gwaith ac i bobl yr ardal am ymateb mor dda.

Hefyd yn yr un cyfarfod darllenwyd llythyr oddi wrth Menter Gwynedd sydd a'u pencadlys yn Llangefni, Ynys Môn, oedd yn mynegi eu dymuniad i gyd-weithredu â'r Antur mewn cynnal Gweithdy Creu Syniadau Busnes yn yr ardal. Mynegwyd diddordeb mawr yn yr hyn oedd gan Menter Gwynedd i'w gynnig a chytunwyd bod gwahoddiad yn cael ei estyn i swyddogion y Menter ddod i drafod eu bwriadau pan fydd y gwaith gyda'r holiadur wedi ei gwblhau.

Bellach mae'n dda gallu adrodd bod Cynghorau Cymuned wedi ymateb yn hynod o ffafriol i gais yr Antur am gymorth ariannol tuag at dalu costau argraffu'r holiadur. Eisoes mae Cyngorhau Cymuned Llanddeiniolen a Llanrug wedi estyn cymorth o'r fath a'r gobaith yw y gwêl Cynghorwyr Cynghorau Cymuned Waunfawr a Llanberis yn dda i gyfrannu yr un modd. Mae ein diolch yn fawr i'r Cynghorau hyn.

Cynhelir y cyafarfod nesaf o'r Antur ar **nos Fercher, 3 Ebrill, am 7 yn yr Angorfa, Stryd y Ffynnon, Llanberis.**

Taith i Berlin

Mrs Millie Williams, Tremyfoel, Leighton, Y Trallwm, oedd enillydd y penwythnos i ddau yn Berlin yn y gystadleuaeth a drefnwyd gan y Cyngor Llyfrau Cymraeg cyn y Nadolig. Ymddangosodd y gystadleuaeth yn yr atodiad *Gwledd y Nadolig* a ddosbarthwyd gyda 53 o bapurau bro Cymru.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

Dysgwch yrru'r car gydag

Y.Y.O.

YSGOL YRRU OFALUS

* **Gwasanaeth 7 diwrnod**
* **O ddrws i ddrws**
* **Control Deuol**

D L

PRITCHARD

43 Glanffynnon

LLANRUG

CAERNARFON 5112

Cymeradwyir gan yr Adran Drafnidiaeth

Trombôn Newydd i Alan

a'r Wobr Gyntaf i Fand Ieuenctid Deiniolen

Ychydig ddyddiau cyn Cystadleuaeth Bandiau Pres Gogledd Cymru yn Llandudno ar Fawrth 16, cynhaliwyd seremoni bur anghyffredin yn Neiniolen. Cyflwynwyd trombôn newydd sbon i Alan Pritchard gan Roy Sparkes, un o gyfarwyddwyr cwmni offerynnau cerdd o Burton-on-Trent, a chyfarwyddwr Band y Crewe United Co-operative.

Defnyddiodd Alan y trombôn, gwerth £600, yn Llandudno ddydd Sadwrn, a helpu Band Ieuenctid Deiniolen i gipio'r wobr gyntaf yn eu dosbarth. Roedd aelodau Band Crewe wedi gwneud casgliad i brynu cwpannau mud a stand cerddoriaeth iddo hefyd, ac fe'u cyflwynwyd i Alan ar ran y band gan Roy Sparkes.

Cred ysgrifennydd Band Deiniolen, Meirion Jones, mai Alan yw'r unig fanjar sy'n parhau i chwarae mewn band ar ôl derbyn trawsblaniad calon. Er mai eiddo band Deiniolen yn swyddogol yw'r trombôn newydd, Alan yn unig fydd yn cael ei ddefnyddio. Ar Sadwrn y Pasg, bydd Alan yn dilyn y band i Southport yng nghystadleuaeth Bandiau Pres Pontins.

Y Sefydliad Coffa ar ei newydd wedd

Dros y blynyddoedd bu'r Sefydliad Coffa yn Llanrug yn gyrchfan i nifer o gymdeithasau ac unigolion, yn enwedig felly ar ôl i estyniad gael ei ychwanegu i'w gefn oedd yn ddigon eang i gynnwys dau fwrdd snwcer. Ond fel llawer i adeilad cyhoeddus arall, aeth y gôst o gynnal a chadw hen adeilad yn drech na'r pwyllgor bychan. Yn sicr, mae'n wir dweud y byddai'r adeilad wedi mynd a'i ben iddo ers talwm onibai am ymdrechion brwdfrydig aelodau'r Clwb Snwcer. Rhyw ddwy flynedd yn ôl, galwyd Cyfarfod Cyhoeddus i drafod dyfodol yr adeilad, a phenderfynwyd y byddai'n rhaid ei adnewyddu os oedd i fod o unrhyw fudd i'r gymdeithas leol yn Llanrug.

Bellach, mae'r gwaith mawr wedi ei gwblhau. Mae sustem gwres canolog drwyddo draw, a thoiledau wedi eu gosod i mewn yn yr adeilad am y tro cyntaf erioed. Roedd costau'r gwelliannau ymhell dros £5,000 — ond gyda help gwirfoddolwyr, a grantiau gan wahanol gynghorau a chyrff eraill, mae'r gost honno wedi ei chlirio. Bellach y 'manion' yn unig sy'n aros, gan gynnwys cost cynnal a chadw.

Ar nos Lun, 22 Ebrill, am 7.15, cynhelir Cyfarfod Blynyddol y Sefydliad Coffa. Mae angen mwy o aelodau ar bwyllgor rheoli y Sefydliad, a thaer erfynnir ar i wahanol gymdeithasau a mudiadau'r pentref anfon cynrychiolwyr i'r cyfarfod. Mae croeso wrth gwrs i unrhyw unigolyn ddod yno hefyd, er mwyn i bawb gael golwg dros yr adeilad a gwerthfawrogi'r gwaith sydd eisoes wedi ei wneud i wella'r lle. Mae rhai cymdeithasau a mudiadau eisoes yn gwneud defnydd rheolaidd ohono, gan gynnwys y Cyngor Cymdeithas a Changen Llanrug o Blaid Cymru — ac wrth gwrs mae'r Clwb Snwcer yn parhau yn eu rhan hwy o'r adeilad.

Mae dwy ystafell eang y gellir eu defnyddio ar gyfer cyfarfodydd neu foreuau/nosweithiau coffi, ac ystafell bwyllgor; a'r cyfan ar gael am brisiau rhesymol. Apêl felly ar i drigolion Llanrug ddod draw i'r Sefydliad ar noson y Cyfarfod Blynyddol i weld pa ddarpariaeth sydd ar gael i'w cymdeithasau, ac i gynnig eu cymorth mewn unrhyw fodd.

CARPEDI GLÂN!

Mynnwch driniaeth

STIMVAK

gyda'r offer mwyaf modern, diweddaraf, sydd ar gael. Am fanylion cysylltwch â

TEGID PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR 291

Hefyd ail-osod carpedi

Pencadlys Ewrop yng Nglyn Rhonwy

Datblygiad Meddygol-Dechnegol Cyffrous

Cafodd penderfyniad cwmni Euro-DPC i sefydlu eu pencadlys Ewropeaidd yng Nglyn Rhonwy groeso brwdfrydig gan bawb fu'n ymgyrchu i ddenu diwydiant i'r ardal. Mae fframwaith yr adeilad newydd tri llawr eisoes ar ei draed, a bydd y gwaith o gyflogi gweithwyr lleol yn cychwyn yn gynnar yn 1992. Dywedodd Dr Andrew Moore, Rheolwr-Gyfarwyddwr Euro-DPC mai'r safle yng Nglyn Rhonwy fyddai sylfaen eu holl weithgareddau Ewropeaidd am o leiaf yr ugain mlynedd nesaf. Gyda'r newydd calonogol hwn, dyna gladdu unwaith ac am byth, gobeithio, y syniadau mai datblygiad twristaidd yn unig fyddai'n gweddu i'r hen chwarel.

Mae cysylltiadau agos â'r fro eisoes gan y cwmni. Maent yn cydweithio'n agos iawn â chwmni ADC, Y Felinheli, ac yn defnyddio technegau'r cwmni hwnnw i baratoi eu pecynnau meddygol. Mae cysylltiadau ADC Y Felinheli â chwmni DPC wedi galluogi'r cwmni lleol i farchnata eu cynnyrch mewn 140 o wledydd, ac y mae Mr Osborn Jones eisoes wedi ymweld â phencadlys DPC yn Los Angeles.

Dafydd Wigley A.S. biau'r clod am ddenu'r cwmni hwn i'r fro. Roedd yn adnabod Dr Andrew Moore ers nifer o flynyddoedd, ac aeth â gwybodaeth am safle Glyn Rhonwy gydag ef i Los Angeles pan ddeallodd fod y cwmni yn chwilio am safle i'w bencadlys Ewropeaidd. Yna, mewn cydweithrediad clòs â swyddogion Cyngor Arfon ac â Dafydd Hughes o Awdurdod Datblygu Cymru, buan y daeth Euro-DPC i'r penderfyniad mai dyma'r safle delfrydol iddynt.

Rhai o'r ffactorau allweddol ynglŷn â'r safle oedd cost isel y tir, dim problemau ynglŷn â chyflenwad dŵr, cysylltiadau cyflym a hwylus â maes awyr Manceinion ar hyd ffordd ddeuol yr A55 (mae'r cwmni'n allforio 5 tunnell o becynnau meddygol bob mis), a chadarnhad y gellid hyfforddi gweithlu lleol o fewn i Wynedd.

O'r chwith i'r dde: Dafydd Hughes (Awdurdod Datblygu Cymru); Elwyn Jones (Cadeirydd C.C. Llanberis); Osborn Jones (Cwmni ADC); Dr Andrew Moore (Euro-DPC) gyda darlun o'r adeilad gorffenedig. D. L. Jones (Cyngor Arfon); Rol Williams (Cadeirydd C.C. Waunfawr); Gwyn Hefin Jones (Is-gadeirydd C.C. Llanrug) a Selwyn Griffith (Clerc C.C. Llanddeiniolen).

Mewn cyfarfod arbennig a drefnwyd yn Seiont Manor, Llanrug, ar nos Lun, 25ain o Fawrth, gwahoddwyd holl gynghorwyr cymuned Llanddeiniolen, Llanberis, Llanrug a'r Waunfawr i wrando anerchiad gan Dr Moore ar benderfyniad y cwmni i sefydlu yn yr ardal. Dr Moore ei hun oedd yn awyddus i gynnal cyfarfod o'r fath. Mae Dr Moore yn aelod o gyngor cymuned yn ardal Witney, Oxford, ac yn sylweddoli fod aelodau cynghorau cymuned yn aml iawn yn nes at y bobl, ac yn gwybod am eu pryderon a'u gobeithion pan fydd unrhyw ddatblygiad newydd yn cyrraedd eu trothwy. Croesawyd y datblygiad gan y rhai oedd yn bresennol. Pwysleisiwyd hefyd yr angen i gyfeirio ieuenctid ein hysgolion lleol i gyfeiriadau technegol er mwyn iddynt fedru manteisio ar y datblygiadau newydd a fydd yn cynnig swyddi parhaol iddynt yn eu bro enedigol. Y mae'r cwmni newydd yn awyddus i greu cysylltiadau agos â'r ysgolion lleol.

Yn sicr, mae yma botensial, a gyda chydweithrediad rhwng yr Awdurdod Addysg Lleol, y Coleg Technegol ym Mangor, ac o bosib, y Brifysgol, mae gobaith fod cyfnod newydd o ddiwydiant technolegol, glân ar fin gwawrio yn ein bro.

DRAENOG

Oes gwir yn y si fod cwmni a breifateiddiwyd yn ddiweddar wedi prynu un o westai mwyaf adnabyddus y fro, ac mai DŴR fydd y brif ddiod ar gael yno?

CWMNI EURO-DPC

Cangen o Gwmni Rhyngwladol Diagnostic Products Corporation wedi ei sefydlu yn Los Angeles yw Euro-DPC. Dr Andrew Moore fu'n gyfrifol am sefydlu Euro-DPC yn Witney, ger Oxford, yn 1986. Maent bellach yn cyflogi tua 50 o bobl yno, ond roeddent yn wynebu trafferthion i ehangu yn yr ardal oherwydd prisiau aruthrol tir adeiladu. Bydd y pencadlys a'r gwaith yn cael ei drosglwyddo i Glyn Rhonwy, a bydd tua 20 o weithwyr hanfodol yn symud yno. Mae nifer o'r gweithwyr, fel Dr Moore ei hun, yn Gymry, neu a chysylltiadau agos â Chymru.

Gwaith y cwmni yw cynhyrchu pecynnau deiagnostig sy'n cael eu defnyddio ym maes meddygaeth a mil-feddygaeth. Ymysg eu cynnyrch mae profion am ffrwythlondeb, problemau thyroid a gwahanol fathau o alergedd. Maent hefyd yn cynhyrchu pecynnau i brofi defnydd a cham-ddefnydd cyffuriau, ac y maent hefyd yn datblygu pecynnau i brofi cancr mewn dynion a merched.

Yn ogystal â chynhyrchu'r gwahanol becynnau meddygol hyn yn Llanberis, maent hefyd yn gobeithio sefydlu uned ymchwil a datblygu.

Bydd y cwmni ei hun yn gyfrifol am roi hyfforddiant yn y sgiliau angenrheidiol ynglŷn â'r dechnoleg newydd, ond bydd gwaith hefyd i arbenigwyr yn eu maes, ac i rai eraill ym maes arlwyo er enghraifft.

ERYRI ORGANIG
LLANFAGLAN
Ffôn: C'fon 76905
Rhwng 5 a 7 yr hwyr
CYFLENWYR CYNNYRCH GARDDIO ORGANIG
★ Gwrtaiith ★ Bwydydd Hylif
★ Offer atal Pla a Chwyn ★Compost a mwy
Archebion Post 'Garddio llaw yn llaw â Natur'

GERAINT OWEN
Gosodwr carpedi a phob math o loriau
Cil-y-Mynydd
WAUNFAWR
Ffôn: Waunfawr 552



Y SGWÂR, LLANRUG
Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol, Cerrig o bob math ar gael.
Ffôn: Caernarfon 2898 (dydd) Caernarfon 76285 (nos)

W. H. JONES
TRYDANWR
Green Bank
Stryd Fawr
LLANBERIS
Ffôn: Llanberis 871470
Cotractau Weirio Tai
Cawodydd Trydan ac ati

LLANRUG

Mrs Dyfi Jones, Tyddyn Rhyddallt. Ffôn: C'fon. 76733

Y Gymdeithas Undebol: I derfynu'r tymor, dathlwyd Dydd Gŵyl Dewi, gyda swper yng Ngwesty Gwynedd, Llanberis. Y llywydd oedd Miss Megan Humphreys. Mynegodd siom o ddeall fod ein gwraig wadd Miss Mary Williams, Tregarth, yn analluog i ddod i'n hanerch oherwydd anhwylder.

Dewiswyd swyddogion ar gyfer tymor 1991-92. Llywydd: Mr Merfyn Jones; Trysorydd: Mrs J. Ll. Williams; Ysgrifenyddion: Mrs Mair Humphreys a Mrs E. Whiteside Thomas.

Bedydd: Yn ystod yr oedfa fore Sul y 17eg yng Nghapel Pontrhythallt, gyda'r Parchg John Morris yn gweinyddu, bedyddiwyd Stephanie Louise, plentyn Paul a Mandy Owen, 25 Bro Rhyddallt.

Diolch: Ar 3 Mawrth dathlodd Ian Wyn Parry, Gwynant, ei benblwydd yn 18 oed. Carai Ian ddiolch yn fawr i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniodd.

Dymuna Mair Jones, Ogwen, Llanrug, ddiolch i'w pherthnasau, cymdogion a'i chyfeillion am bob caredigrwydd a'r llu cardiau a dderbyniodd tra yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

Dymuna Hefina, Dick a'r hogiau, 8 Rhosrug, ddiolch i'w ffrindiau oll am y cydymdeimlad a'r caredigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn dilyn eu profedigaeth drist o golli brawd ac ewythr annwyl, sef Glyn G. Jones o Ddeiniolen ar 14 Chwefror.

Plaid Cymru: Daeth aelodau o ganghennau Waunfawr, Llanberis a Deiniolen atom i ddathlu Gŵyl Ddewi yng Ngwesty Fictoria, Llanberis. Bu dawnsio gwerin bywiog o dan arweiniad Elfed Roberts, Trefnydd y Blaid, a chafwyd noson hwyliog iawn. Rhoddwyd gwobrau'r raffl gan Phyllis Ellis, Rhos Fair; Margaret Parry, Bro Dawel, ac Olwen Huws, Eithinog, a'u henillwyr oedd: 1, Meirwen Lloyd; 2, Sioned Jones; 3, Elin Dafydd; 4, Meryl Green.

Cofiwch am y Noson Gwis gyda Waunfawr a Bethel yn y Sefydliad Coffa am 7.30 o'r gloch, nos Fercher, 17 Ebrill. Phyllis Ellis a Gwyn Jones fydd yn trefnu. Beth am roi dyddiad yr Helfa Drysor i lawr yn eich dyddlyfr mewn digon o bryd — nos Fercher, 15 Mai — ac fe gewch fwy o fanylion y tro nesaf.

Ysgol Gynradd: Uchafbwynt gweithgareddau'r ysgol y mis yma oedd Noson Goffi a gynhaliwyd gan Gymdeithas Ffrindiau'r Ysgol. Wedi gwario ar y stondinau ac yfed coffi eisteddodd pawb i fwynhau fersiwn Llanrug o'r gêm deledu boblogai d y *Generation Game*. Mr Dafydd Arfon Jones oedd yn arwain gyda Mr Pyrs Jones yn ei gynorthwyo; a del iawn oedd o'n edrych hefyd!!

Yr wyth lwcus a fu'n cystadlu oedd Mrs Lynda Schudlak, Mrs Gwyneth Thomas, Mrs Maureen Williams, Mrs Mair Jones ynghyd â Mr Wyn Davies, Mrs W. Hastings, Mr Rolant Wynne a Mr Ieuan Wyn. Bu'n rhaid iddynt brofi eu doniau yn arlunio fel Frank Green, rhoi cymorth cyntaf fel Iona Jones ac Avril Jones, clymu selsig fel Wavell Roberts a chlocsio fel Bethanne Williams. Aeth mwy nag un gweithgaredd yn drech nag ambell i gystadleuydd ond ymddengys bod dyfodol disglair ym myd dawnsio gwerin i'r ddau a ddaeth yn fuddugol Mrs Lynda Schudlak a Mr Wyn Davies. Diolch i'r pwyllgor am sicrhau noson ddifyr a hwyliog ac i bawb am eu cefnogaeth. Yn ogystal â'r mwynhad gwnaethpwyd dros £200 o elw.

Fel rhan o'n them ar 'Y Caffi' daeth Mrs Antoinette Hughes at Babanod Canol ac Uchaf i ddangos sut i wneud Pizza. Mwynhaodd pawb yr arddangosfa a'r tamaid blasus ar y diwedd.

Daeth yr awdur Mr T. Llew Jones at Safon 4 yn ddiweddar. Bu'n siarad yn helaeth am ei waith a chafodd y plant gyfle i'w holi am ei nofelau.

Bu Safon 2 yng Ngorsaf Drydan Dinorwig i geisio profi peth o naws y gwaith tanddaearol. Profiad cyffrous oedd gorfod gwisgo helmed a mynd i mewn i'r mynydd.

Llongyfarchiadau i Siân Green a Hefin Roberts, Safon 1. Bu'r ddau yn cystadlu yn nhwrnament Tenis Byr Gwynedd a daeth Siân yn fuddugol yng nghystadleuaeth y genethod a Hefin yng nghystadleuaeth y bechgyn.

Llongyfarchiadau hefyd i Michelle Roberts, Safon 2. Bu'n cystadlu'n ddiweddar yn eisteddfod Talsarnau a daeth yn gyntaf mewn tair cystadleuaeth.

Chwaraeodd y tîm pêl-droed gêm gynghrair yn erbyn Deiniolen ac ennill o 5-2.

HWYL YNG NGHYMDEITHAS FFRINDIAU'R YSGOL



Y gêm blethu sosej.

Tynnu llun Dafydd 'Bruce Forsyth' Arfon.

Cymdeithas Lenyddol y Capel Mawr: Cynhaliwyd cyfarfod nos Fercher, 20 Chwefror, gyda Mr J. W. Owen yn llywyddu. Y siaradwr gwadd y noson oedd y Parchg Iorwerth Jones Owen, a chafwyd sgwrs ddifyr ganddo ar 'Hiwmor'. Diolchwyd gan Mrs Beryl Thomas. Paratowyd paned gan Miss M. G. Roberts, ac aelod arall o'r gymdeithas, a diolchwyd iddynt gan Mrs Mai Parri.

Nos Fercher, 27 Chwefror, daeth yr aelodau at ei gilydd unwaith yn rhagor i ddathlu ein nawdd sant Dewi. Roedd y merched wedi darparu lluniaeth. Llywydd y noson oedd Mrs Eileen Williams a chafwyd sgwrs gan Mrs N. Lovatt am Alawon Gwerin, ac ambell i gân. Diolchwyd gan Mrs I. Butler. Methodd y wraig wadd, Mrs Myfanwy Williams, Llanfaelog, a bod yn bresennol ond cafwyd rhodd haelionus ganddi.

Merched y Wawr: Noson i ddathlu Gŵyl Ddewi fu gan y gangen, ar 12 Mawrth, yn yr Ysgol Gynradd. Agorwyd y noson gan y llywydd, Mary Roberts, Estynnodd groeso i Mrs W. A. Jones yn ôl i'n plith. Diolchodd i bawb a gynorthwyodd gyda'r bwyd yn Eisteddfod yr Urdd ar 2 Mawrth. Cafwyd bwffe, gan gwmni 'Galw' yn dilyn gydag adloniant gan yr aelodau canlynol: Nansi Lovatt, Ann Ifans, Phyllis Ellis, Mary Roberts, Ann Thomas, Margaret Parry, Menna Williams ac aelodau o gôr Clychau'r Grug. Diolchwyd gan Menna Williams. Ennillydd y raffl oedd Pat Jones.

Bydd y cyfarfod nesaf ar 9 Ebrill pryd y disgwylir Eira Pari-Huws i roi arddangosfa o waith llaw.

Gofynir i'r aelodau ddod a'i llyfrau raffls a'r arian i'r cyfarfod nesaf.

Yr ail safle i Meilyr

Meilyr Jones a ddaeth yn ail mewn cystadleuaeth Tenis Fer i fechgyn dan 10 oed yng Nghanolfan Hamdden Arfon yn ddiweddar.

CRIB COCH

Y Sgwâr, Llanrug
Ffôn: Caernarfon 76772

TRIN GWALLT I BAWB O'R TEULU GAN JEN

Ffoniwch neu galwch i drefnu amser

FFENESTRI UPVC DRYSAU MEWN GWYN NEU MAHOGANI



Esiampl o bris a gosod

Crefftwyr profiadol yn eu gosod

Ffoniwch am bris i

J R PRITCHARD, 14 Glanrafon, Bontnewydd

Ffôn: Caernarfon 3507 (dydd neu gyda'r nos)

Croesawn ymholiadau gan fasnachwyr

T. Llew Jones ymysg plant

T. Llew Jones yn sgwrsio â phlant Safon 4, Ysgol Gynradd Llanrug, ac yn dangos y llun fydd yn ymddangos ar glawr yr argraffiad newydd o'i lyfr 'Corn, Pistol a Chwip'.

Dyma sylwadau rhai o'r plant yn dilyn ymweliad T. Llew Jones:

CYFARFOD AG AWDUR ENWOG

Un o awduron enwocaf Cymru yw T. Llew Jones. Enillodd y gadair Genedlaethol ddwywaith — yng Nglyn Ebwy yn 1958 ac yng Nghaernarfon yn 1959.

Daeth Mr Jones atom yn Safon 4 i sgwrsio am ei lyfrau ac am ei yrfa fel awdur. Cawsom gyfle i'w holi ac fe ofynnodd yntau nifer o gwestiynau i ninnau.

Gofynnais i iddo pa lyfr oedd y gorau o'i waith ef. Ni fedrodd ateb y cwestiwn achos mae o yn leicio pob llyfr a sgwennodd. Mae'n meddwl am ei lyfrau fel plant iddo ac mae mam yn caru pob un o'i phlant a does ganddi ddim ffefryn.

Ei enw llawn yw Tomos Llewelyn Jones. Ysgrifennodd tua tri deg o lyfrau. Y cyntaf oedd 'Trysor Plasywernen' yn 1958. Bu'n siarad am ei nofel 'Corn, Pistol a Chwip'. Mae hwnnw yn cael ei ail argraffu ar hyn o bryd. Hanes y goets fawr yn cario y Post Brenhinol sydd ynddo. Dywedodd ei fod yn hoff iawn o sgwennu am y cyfnod yma. Mae'n hoff iawn o geffylau.

Mae'n well gan T. Llew Jones ysgrifennu nofelau na barddoniaeth. Dywedodd fod ganddo lawer mwy o syniadau ar gyfer mwy o nofelau. Cyn gadael fe lofnododd ei lyfr 'Arswyd y Byd'.

Gareth Wyn Roberts

YMWELIAD T. LLEW JONES

Fe gafodd ein dosbarth ymweliad gan yr awdur enwog T. Llew Jones. Roedd yn anrhydedd cael bod yn yr un ystafell a dyn oedd yn mynd yn ôl i fywyd plant a byd lladron, hyn oll rhwng dau glawr.

Eglurodd Mr Jones mai ei hoff faes oedd cyfnod y goets fawr. Fe gawsom gyfle i gael holi cwestiynau. Fe atebodd gwestiwn oedd yn gofyn a'i barddoniaeth neu nofelau oedd yn rhoi y pleser mwyaf iddo ac atebodd mai nofelau oedd y gorau ganddo.

Adroddodd un neu ddwy o storiau bychain a gwir.

Mae T. Llew Jones fel tad i lawer o lyfrau roedd yn meddwl am ei nofelau fel ei blant.

Fe enillodd y gadair yng Nglyn Ebwy yn 1958 a'r flwyddyn ddilynol hefyd yng Nghaernarfon yn 1959.

Dyna pryd argraffwyd ei lyfr cyntaf, 'Trysor Plasywernen' yn 1958.

Gobeithio bydd ganddo lawer o lyfrau eto i ni gael pleser o'i darllen.

Delyth Wyn Humphreys

YMYSG Y PLANT

Ar Fawr 6ed cafodd Safon 4 ymweliad gan un o awduron gorau Cymru sef T. Llew Jones.

Y llyfr cyntaf a sgwennodd oedd 'Trysor Plasywerned' yn 1958. Enillodd Gadair Eisteddfod Genedlaethol Glyn Ebwy yr un flwyddyn.

Dywedodd ei fod yn hoff iawn o ysgrifennu am gyfnod y goets fawr a'r ceffylau. mae ganddo lyfr o'r enw 'Corn, pistol a chwip'.

Mi gefais i y fraint fawr o gyflwyno llyfryn Llanrug 'Rasbri Ripl' iddo ac ysgwyd llaw gydag ef.

Owain Machno Lloyd

Anrhydeddu Hyfforddwr



Kevin Siddall, hyfforddwr Clwb Karate Llanrug yn cael ei gyflwyno â thancard gan Gareth Edwards, yr ysgrifennydd, ar achlysur ei anrhydeddu â'r pedwerydd Dan belt du. (Gweler stori'r Clwb ar y dudalen flaen.)

CEUNANT

Gohebydd: Gwenno Parri, Morwel (Waunfawr 321)

Cydymdeimlo: Ar ôl gwaeledd byr bu farw Mrs Jennie Jones ym Mhlas Pengwaith ar 13 Chwefror, yn 87 mlwydd oed. Fe'i ganed ac fe'i magwyd yn Llanberis, ond treuliodd y rhan helaeth o'i hoes gyda'i diweddar ŵr, Henry Thomas, a'i diweddar fab, John Henry, yn Tŷ Uchaf, Ceunant. Er iddi symud yn niwedydd ei hoes i Maes Padarn yn y Ceunant yr oedd calon Anti Jennie. Fe'i cofir yn trigo fel brenhines yn yr hen dyddyn bach gwyngalchog ar lethr Cefn Du, yn hapus a bodlon ei byd. Aelwyd gynnes a diddig oedd aelwyd Tŷ Uchaf.

Wynebodd stormydd chwerw iawn yn ystod ei bywyd, ond er hyn i gyd parhaodd yn llon a charedig hyd y diwedd. Mwynhai gwmni ei theulu a'i ffrindiau bob amser.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Raymond a Wenna yn eu profedigaeth o golli nain annwyl a chariadus, ac â Fflur a Siôn o golli hen nain.

DRAENOG

Pwy oedd y fam garedig o Lanrug a aeth a'i merch i'r ysgol, a phan ddaeth yn ôl adref, darganfod ei bod wedi ei chloi allan a hithau yn dal i fod yn ei choban!

AR WERTH
DRWS ALWMINIWM A FFRAM, mesurau cyffredin.
Panel gwydr 'deep Flemish'.
Pris i'w drafod.
Ffôn: LLANBERIS 872571

CEIR ELIDIR

LLANBERIS 870449

Cerbydau preifat i'w llogi
Gwaith Contract
Pell ac Agos
Maes Awyr a Phorthladd

CARTREF NYRSIO PENISARWAUN

★28 Stafell Wely Sengl gyda thy bach a lle ymolchi
★2 Stafell Wely Ddwbl gyda "en suite" (delfrydol i barau priod)
★Gwres canolog llawn
★Sustem ddiogelu rhag tân
★Eisteddfa fawr gyfforddus efo teledu lliw
★Sustem alw nyrs
★Yn Cwrdd â phob angen personol
★Lle bwyta mawr
★Aros cyfnod hir/byr
★Gofal 24 awr y dydd gan staff proffesiynol
★Croesawir rhai gyda cymorth D.H.S.S.
★Ymwelwyr yn cael galw unrhyw adeg
★Coginio cartefol
★Metron a staff sy'n siarad Cymraeg
★Ar lwybrau bws o Fangor a Chaernarfon

Am fanylion pellach cysylltwch â'r
Metron Cheryl Williams, Ffôn 872038.

DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: 871259

Clwb Elidir: Cafwyd cyfarfod o'r Clwb ar 19 Chwefror dan lywyddiaeth Mrs Jennie E. Williams. Gwesteion y te oedd Mrs Jennie Williams, Mrs Jennie E. Williams a Mrs Jennie Cashman. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Jennie E. Williams ac fe'i henillwyd gan Mrs Laura Williams. Dymunwyd penblwydd hapus i mrs Jane C. Hughes a chydymdeimlwyd â Mrs Aileeen M. Jones a'r teulu yn eu profedigaeth o golli priod a thad.

Cafwyd cyfarfod arall ar 5 Mawrth dan lywyddiaeth Mrs Eirlys Ll. Jones. Cafwyd prynhawn difyr yng nghwmni Mrs Megan P. Morris yn adrodd tipyn o hanes bywyd Dewi Sant i ni. Gwesteion y te oedd Mrs Alwen Jones, Mrs Megan P. Morris a Mrs Eirlys Ll. Jones. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Megan P. Morris a'r enillydd oedd Mrs Eirlys Ll. Jones. Croesawyd aelod newydd i'r Clwb, sef Mrs Glenys Williams, Tyn y Clwt, a da oedd gweld Mrs Annie M. Morris yn ein plith ar ôl ei gwaeledd. Cydymdeimlwyd â Mrs Jane C. Hughes yn ei phrofedigaeth o golli ei brawd.

Cyfarfod Gweddi'r Chwiorydd: Yng Nghapel Ebeneser, 1 Mawrth, cynhaliwyd gwasanaeth Dydd Gweddi Byd Eang y Chwiorydd. Y thema eleni oedd 'Ar y daith gyda'n gilydd', a llywyddwyd gan Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cefn y Waun. Cymerwyd rhan gan Mrs Eurwen Robers, Mrs Beryl Hughes, Mrs Mary Catherine Jones, Mrs Jane Thorman Jones, Mrs Beti Wyn Davies, Mrs Ruth Jones, Mrs Jennie Williams, Mrs Marian Wynne Williams, Mrs Eirlys Williams. Traddodwyd yr anerchiad gan Mrs Jane Jones, Ebeneser. Yr organydd oedd Mrs Gwen Griffith.

Undeb y Mamau: Cynhaliwyd cyfarfod 5 Mawrth yn Neuadd yr Eglwys dan lywyddiaeth y Parch Tegid Roberts. Darllenwyd y gohebiaeth gan Mrs Glenys Williams. Cafwyd noson ddifyr yng nghwmni Miss Jean Moeller yn dangos sleidiau o'i gwyliau yn Rumania. Diolchwyd iddi gan Mrs Beti Roberts. Rhoddwyd y te gan Mrs Gwen Griffith a Mrs Rosina Worth. Enillydd y raffl oedd Miss Jean Moeller.

Sefydliad y Merched: Nos Lun, 4 Mawrth, bu'r aelodau yn Oriel Llanberis yn geld Arddangosfa 75 mlynedd o waith y Sefydliad yng Nghymru. Cafwyd lluniaeth i ddilyn yng Ngwesty Gwynedd. Enillwyd y raffl gan Mrs Glenys Williams. Bydd y cyfarfod nesaf 2 Ebrill, pryd y disgwylir aelod o Ambiwlans Gwynedd i siarad am Gymorth Cyntaf a damweiniau yn y cartref. Bydd y noson hefyd yn Noson Moes a Phryn. Bydd y cyfarfod yn dechrau am 7.30 o'r gloch.

Clwb Pêl-droed Deiniolen: Tynnwyd y Clwb 200 yn nhafarn y Wellington. 1, £80: Dafyd Twins (175); 2, £40: Malcolm Lloyd (60).

Diolch:

Dymuna Alun Wyn Evans ddiolch am y llu cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar ddathlu ei benblwydd yn 65. Diolch arbennig i Dîm Pêl-droed Deiniolen ac aelodau'r pwyllgor am eu rhodd.

Dymuna Alun Roberts, Maes Gwylfa, Deiniolen, ddiolch o galon i'r gwŷr ambiwlans a fu mor garedig tuag ato yn ddiweddar; hefyd y meddygon a'r gweinyddesau yn y Ward Gofal Arbennig a Ward Tryfan. Diolch i'r teulu, cyfeillion a chymdogion am y cardiau a'r rhoddion. Diolch i bob un ohonoch.

Ysgol Gwaun Gynfi:

Bu'r cyfnod hwn yn un prysur iawn yn hanes yr ysgol.

Ar ddiwedd Chwefror daeth Swyddog Tân i drafod diogelwch a gwnaeth hynny gyda phob dosbarth.

Dydd Mercher, 27 Chwefror, aeth Dosbarth 2 gyda'u hathrawes Miss Iona Williams, ynghyd â Mrs Margaret Roberts, i ymweld â Glynllifon. 'Roedd yr ymweliad yn ymwneud â'r gwaith dosbarth ar anifeiliaid.

Trefnodd Mrs Betty Parry, Nyrs Ysgol Leol, sgyrsiau amrywiol a dioddorol i'r gwahanol ddosbarthiadau. Yn ei doethineb galwodd ar gymorth Miss Marian Hughes, Ymwelydd Iechyd Penygroes i drafod 'Cadw'n Heini' a'r Chwaer Betty Brimecomb o Ysbyty Gwynedd i ddangos fidio ar y pwnc.

Ar y 4 Mawrth cynhaliwyd Cyfarfod Rhieni yn yr ysgol a thrafodwyd 'Y Ffair Iechyd', hefyd cafwyd cyfle i dynnu'r Clwb 100. Dyma'r canlyniadau — Chwefror: 1, Hilda Griffiths; 2, Barry Jones; 3, Rhianwen Jones. Mawrth: 1, Hilda Parry; 2, Shirley Jeffs; 3, Tecwyn Jones.

Ar 12 Mawrth daeth Nyrs Tom Jones, Nyrs y Gymuned, i'r ysgol i sôn am ei waith wrth blant Adran y Babanod, ac fel dilyniant i'r sgwrs ymwelodd y plant â Chlinic y Babanod, Deiniolen.

Mawrth 14 a 15 cafwyd ymweliad gan yr Heddlu. Rhoes y plismyn gyfle i'r plant oll wylio fidio, a rhoddwyd cyfle iddynt eistedd yng nghar yr heddlu i gyfeiliant y seiren. Hynny'n plesio'n fawr.

Dydd Gwener, y 15fed, aeth y tîm pêl-droed i ysgol Llanrug. Colli o 5 gôl i 2 wnaeth y tîm ond tystiodd pawb iddynt gael hwyl a phleser yn y chwarae.

Hysbyseb: Mae gwahoddiad cynnes i'r cyhoedd ddod i Ffair Iechyd Ysgol Gwaun Gynfi ar y 15, 16 a 17 o Ebrill o 3.30 p.m. hyd at 6.30 p.m. pryd y ceir arddangosfa gan wahanol wasanaethau.

Nos Lun, 15, a nos Fercher, 17: Dosbarth 'aerobics' o 7—8 p.m.

Nos Fawr, 16: cynhelir arddangosfa 'Achub Bywyd' gan y Gwasanaeth Ambiwlans. Dewch yn llu.

Carnifal Deiniolen: Cafodd Mair Olwen Jones, Pentre Helen ei dewis yn Frenhines y Carnifal mewn disgo yn Neuadd yr Ysgol, nos Wener, 15 Chwefror. Fiona Clarke, Swyddfa'r Post, fydd yn gweinyddu a Helen Jane Carless, Dinworwig yw'r dywysoges a Gavin Wyn Powell yn was. Erfynir ar i bawb fynd ati i wneud y Carnifal yn llwyddiannus. Mae cyfle i bob mudiad gael 'stall' ar y maes ar y diwrnod. Cysylltwch â Mrs Jinny Jones, Maes Gwylfa, neu unrhyw aelod o bwyllgor y Carnifal.

Urdd: Llongyfarchiadau i'r canlynol ar eu llwyddiant yn Eisteddfodau Sirol yr Urdd yn ystod y mis: Euros Williams, unawd prês 12-15 oed; Eilir Williams, unawd prês 15-19 oed; Grŵp offerynnol dan 25 oed; Seindorf Ieuenctid. Byddant yn awr yn cystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol Taf Elai ym mis Mai.

Seindorf: Bu dydd Sadwrn, 16 Mawrth, yn ddiwrnod hanesyddol i bentref Deiniolen oherwydd llwyddiant ysgubol y ddau fand yng nghystadleuaeth cyn-derfynol Bandiau Prês Prydain Fawr yn Llandudno.

Enillodd y Band Ieuenctid, dan arweiniad Mr Dafydd Wyn Williams, eu hadran gyda 188 o bwyntiau a chanmoliaeth uchel iawn gan Mr William Relton o Swydd Efrog, ac awgrymodd y dylai'r gynulleidfa fod yn ymfalchio bod band ieuenctid o safon yn cynrychioli gogledd Cymru yn y rownd derfynol.

Yna enillodd y Band Hŷn eu hadran hwy, dan arweiniad Mr Graham Sanders, allan o bedwar o fandiau, gyda chanmoliaeth uchel unwaith eto.

Bydd y ddau fant yn awr yn cystadlu yn y rownd derfynol yn Llundain ym mis Hydref. Dyma'r ail waith i'r band hŷn gystadlu yn Llundain; buont yno o'r blaen ym 1989. Ond dyma'r tro cyntaf i'r band ieuenctid gystadlu yn y bencampwriaeth.

Mae hyn yn glôd mawr i'r ddau fand ac i'r ddau arweinydd. Dymunwn pob llwyddiant iddynt yn Llundain.

Enillwyr Clwb 200 mis Mawrth — £20: David Lambert, Victoria Terr. (147); £15: Joan Parry, Gwyrfai Terr. (140); £10: G. O. Jones, Bwthyn Gwyn (114).

CYFARCHION PENBLWYDD

Mae pawb a phopeth yn mynd yn hen
Boed o'n gythral blin, neu'n hen foi clên;
Daw'r fegin i wichian, a'r cam i fyrhau
A daw clymau chwithig i'r coesau.

Newidia'r gwallt ei liw a'i le
Ac yn rhengau'r danedd mae gwagle
Ond cewch bryd-ar-glyd dydd Llun a dydd Gwener
A hanner *fare* ar y buses unrhyw amser.

Ac os oes gennych gar a cherdyn anabl
Ni fydd problem i barcio o gwbwl
Petae chi'n dewis o flaen Tesco
Ni ddaw Warden o gwbl i'ch styrbio.

Dyna fydd chwithdod cyrraedd oed pension,
I'm cyfaill — gwrthrych y penillion
Diolchwn iddo am ei garedigrwydd di-atal
I mi, ac i lu o drigolion yr ardal.

A dymuno iddo iechyd a phob hapusrwydd
I fwynhau ei ddiddordebau, fel cadeirydd
Y Clwb Pêl-droed, swyddog undeb, gwerinwr
Ymarferol, garddwr a chyd-gerddwr
Siawns na wyddoch pwy ydio erbyn hyn
Yr ydych yn iawn, ia, Alun Wyn.

Kevin John Jones (capten Tîm Pêl-droed Deiniolen) yn cyflwyno anrheg ar ran y Clwb i Mr Alun Wyn Evans (Cadeirydd) ar ei benblwydd yn 65 oed am ei waith diflino dros y Clwb.

E.W. Pritchard
CENTRAL GARAGE
Llanberis

Ffôn: 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

Gwaith Proffesiynol Prisiau Rhesymol
Am holl anghenion eich offer nwy

FFLAM ERYRI

Rhowch alwad i arbenigwr wedi'i hyfforddi'n llawn gan Nwy Prydain

Gwasanaeth 24 awr

Geraint Fôn Williams **Penmaenmawr 622422**

Capel Disgwylfa

Teimlwn yn drist iawn wrth ddarllen hanes cau Capel Disgwylfa. Yr oedd gan deulu fy ngŵr, William A. Jones, gysylltiad a'r achos o'r cychwyn cyntaf. Yn naturiol troais i lyfr y Parchg William Hobley 'Hanes Methodistiaeth Arfon' am hanes yr achos o'r cychwyn. Y mae'n werth darllen hanes y capeli yn yr ardal a'r gwaith mawr a wnaed a'r aberth i'w codi (haws cau nag agor) gan bobol gyffredin. Gellir deall yn iawn pam y mae'n rhaid cau, a 'does dim ond cydymdeimlad a'r aelodau sy'n gorfod gwneud.

Hen daid fy ngŵr, sef William Jones, Tŷ Mawr, oedd un o'r ddau flaenor cyntaf, a'r llall oedd Dafydd Pritchard, Bethen Gron. Rhif yr aelodau ar y cychwyn oedd 120.

Dewiswyd mab William Jones yn 1865 (sef taid W. A. Jones) Coed Helen gyda John Pryce Davies. Dywedwyd am William Jones, Tŷ Mawr, ei fod yn nodedig am ei ofal am bethau allanol yr Achos, sef yr adeiladau, amgylchedd y Tŷ Capel, yr elfennau yn yr Ordinhâd a phob trefniadau perthynol i'r eglwys. Ond odid na fuasai wedi ei ddewis yn yr Eglwys Fore fel un o'r seithwyr da eu gair.

Bu farw William Jones, Coed Helen, mab William Jones, Tŷ Mawr, yn 1893, yn flaenor yn Nisgwylfa ers 28 mlynedd. Yr oedd y tad yn argraffedig ar ei nodweddion yntau hefyd. Yr oedd y cynllun wedi dwfn reddfu yn y teulu nes mynnu ymwthio o genhedlaeth i genhedlaeth.

Un o feibion William Jones, Coed Helen oedd y Parchg Ellis James Jones. Ei ddwy eglwys gyntaf oedd Brynrefail a Glasgoed. Dyma a ddywed y Parchg William Hobley:

> Fe ddarfu'r ŵyr fel 'sgrifennydd y Sasiwn roi argraff arbennig o ymdeimlad a phwysigrwydd yr orchwyl o ofalu am drefn a chadw cofnod cywir, a gweled cadw cyfrifon yn ddeheuig a manwl. Yr oedd y swydd wrth fodd ei galon a pharodd yntau i'w mawrhau.

Priododd y Parchg Ellis James Jones â merch y Parchg William Rowlands, Cefnywaen, felly roedd uniad rhwng y ddwy eglwys y pryd hynny fel — yn ôl yr *Eco* sydd i fod eto.

Yr olaf o'r teulu a fu'n aelod ydyw Goronwy James Jones, yn awr o Bwllheli, ac yn fab i Hywel Jones, mab Ellis James Jones, ac y mae wyres iddo hefyd, sef Miss Carys Jones, sydd yn byw yn Aberhonddu.

Sylwaf mai un o deulu Bryn Sinc sydd wedi anfon atgofion o'r blynyddoedd rhwng 19125 a 19139. Clywais lawer am deulu 'Sinc' Tybed a ydyw'r un a ysgrifennodd i'r *Eco*yn un o ddisgynyddion gŵr a wnaeth waith da yn Nisgwylfa, sef John Roberts, Sinc. Yn ôl William Hobley, gŵr amlochrog ei ddawn a fu'n dra amlwg yn Nisgwylfa am gyfnod maith. Yr oedd yn fwy gwybodus na'r cyffredin yn arbennig yn hanes crefydd Cymru. Darllenodd 'Methodistiaeth Cymru' yn fanwl drwyddo. Rhagorai fel darllenwr cyhoeddus a thaflai oleuni newydd ar y bennod wrth ei darllen. Ond yr hyn a ragorai fwyaf arno oedd fel canwr a datganwr. Bu ffyddlondeb a medr John Roberts am oes faith o fawr werth i'r Eglwys. Un o lawer o chwarelwyr diwylliedig ydoedd a dylem ninnau ganu ei glodydd.

Pob bendith ar aelodau Disgwylfa a Cefnywaen.

Mwy o atgofion am ffyddloniaid Capel Disgwylfa gan un o blant yr Eglwys.

Synnwyd fi'n fawr wrth ddarllen hanes am Gapel Disgwylfa gan un o blant Bryn Sinc yn *Eco'r Wyddfa*.

'Roedd llawer o enwau ffyddloniaid wedi eu gadael allan — beth am Thomas a Jane Evans, bu ef yn flaenor yno ac yn weithgar iawn, llawer gwaith fe'i gwelwyd ar ben to'r Capel yn gosod llechi newydd, heblaw am atgyweiriadau eraill i'r adeilad. Un arall oedd yn weithgar iawn gyda phwyllgor y chwiorydd oedd Muriel Evans a'i chwaer Elsie Davies.

Rhai eraill: Robert John Jones, Rhianfa; David a Jemima Williams, Taliesin; Dilys Hughes a fu'n athrawes Ysgol Sul am flynyddoedd; Mrs Roberts (athrawes yr ysgol) a'i mab Robert David Roberts; Jane (Bet Clwt-y-Bont); Jini Williams (Morris gynt) a William Orwig Roberts.

Mae'n debyg bod rhai eraill yn cofio rhagor o enwau.

Mrs Eirlys Harmshaw
Caer

Cofio a chydymdeimlo: Dydd Iau, 7 Mawrth, yng Nghapel Methodist Hamilton Street, Caer, bu gwasanaeth angladd Mrs Eirlys Harmshaw (Eirlys Morris gynt o Glwt y Bont, Deiniolen). 'Roedd y Capel yn orlawn a hawdd oedd clywed fod nifer fawr o Gymry yno yn canu yr emynau o'i dewis hi. Gair da oedd gan bawb i Eirlys ac, fel y dywedodd y Parchg Gareth West, y gweinidog, gair da oedd gan Eirlys i bawb hefyd.

'Roedd Eirlys yn wraig ddeallus, yn siarad yn goeth yn y ddwy iaith a rhyw annwyldeb arbennig yn perthyn iddi. 'Roedd yn barod bob amser i roi cynorthwy drwy air a gweithred i unrhyw un a ddigwyddai gyfarfod â hi. Nid oedd yn hoff o wthio ei hun i'r amlwg er fod ganddi'r gallu a'r bersonoliaeth pe dymunai.

'Roedd y teulu yn y gwasanaeth yn gryno iawn o bell ac agos, a chyfeillion o ddyddiau ysgol ac o ardal mebyd Eirlys. Tystiai pawb a'i hadnabu fod ganddi rhyw ddawn gyfrin i wneud ffrindiau ac i'w cadw.

Dymuna'r teulu ddiolch i bawb o fro *Eco'r Wyddfa* am ddod i'r angladd ac am bob gair o gysur. Addewais, fel un o'r fro, anfon hyn atoch.

John Emrys Jones, Caer.

Mrs Rita Wood a Mrs Margaret Jones, aelodau o Bwyllgor Adloniant Dinorwig yng nghwmni rhai o ddisgyblion Ysgol Gwaun Gynfi, Deiniolen. Cyfrannodd y Pwyllgor gyfraniad ariannol tuag at brynu set o lyfrau darllen ar gyfer yr ysgol.

Bobby Grindley

Marw: Ar 1 Mawrth bu farw un o gymeriadau hoffus y pentref a'r ardal, sef Bobby Grindley. Yr oedd Bobby yn hoff iawn o unrhyw chwaraeon yn enwedig Snwcer. Yr oedd yn chwaraewr penigamp yn ei ddyddiau cynnar ac yn perthyn i dîm lleol y llyfrgell am flynyddoedd; ond oherwydd ei iechyd bu'n rhaid rhoi'r gorau i'r ciw snwcer.

Bu'r angladd ar 6 Mawrth gyda'r gwasanaeth yng Nghefnywaen. Claddwyd ei weddillion ym mynwent Llanbeblig, Caernarfon. Gwasanaethwyd gan y Gweinidog, y Parchg John Pritchard. Cydymdeimlwn yn fawr â'r teulu yn eu profedigaeth.

Cofio Robert Richard Grindley: Ganwyd Bobbi 68 o flynyddoedd yn ôl, o fewn muriau hen dref Caernarfon, felly gyda balchder cyfrifai ei hun yn un o'r 'cofis'.

Symudodd y teulu yn fuan wedi ei eni i Gallt y Foel, Deiniolen, lle y treuliodd ei blentyndod yn ddisgybl hoffus yn Ysgol Gwaun Gynfi. Er ei fod yn lwmp bach tew byddai yn cymryd diddordeb yn y chwaraeon ar iard yr ysgol yn ystod yr awr ginio. Arferai sefyll rhwng dwy gôt ar y llawr fel gôlgeidwad, pwy a ŵyr petae cae chwarae yn Neiniolen yr adeg honno efallai y buasem wedi gweld Neville Southall arall!

Roedd Capel Cefn-y-Waen yn agos i'w galon a chofiai aml i ddywediad a glywsai yno yn nyddiau ei lecyndod, pryd yr arferai ddilyn yn gyson yn ei swydd yn pwmpio aer i'r offeryn.

Cyn gadael hanes ei blentyndod, teg ydyw sôn am ei allu fel cricedwr. Llawer tro y clywais o'n dweud wrth ei gyd-ddisgyblion, fel y cymerodd ei wiced gan hawlio mai ef oedd 'Deiniolen No. 1 Bowler'.

Gadawodd yr ysgol yn ifanc, oherwydd bod ei fam yn weddw a brawd iau yn dal yn yr ysgol, gan ddechrau ei yrfa yn chwarel Dinorwig fel y mwyafrif o fechgyn y fro yn y cyfnod hwnnw.

Cerddai tua milltir o'r bws i Bonc Isaf Braich, a hyn ar bob tywydd hyd nes cau y chwarel yn 1969.

Bu'n aelod ffyddlon o Glwb Snwcer Deiniolen, a gwiw dweud gair gwael am y Clwb os byddai Bobbie o gwmpas. Yr unig amser y gwelech o yn ddig fyddai pan yn amddiffyn record y Clwb, a chymaint o fantais oedd y Clwb i ieuenctid yr ardal.

Ar ôl cau y chwarel ni fu Bobbie allan o waith yn hir, roedd ei wên a'i gymeriad hoffus yn gwneud ffrindiau iddo ple bynnag y byddai. Gwnaeth lawer ffrind yn ffatri Peblig, Caernarfon, lle bu yn gweithio am ddeg mlynedd ar ôl cau y chwarel. Daeth ei yrfa gweithio i ben, fel llawer i hen chwarelwr, ac yntau'n dioddef o'r afiechyd llwch ar yr ysgyfaint. Roedd ar y pryd yn mwynhau ei waith gyda Chyngor Dinas Bangor yn gwneud gwaith holl-bwysig yn glanhau y Stryd Fawr. Daeth pobl o bob rhan o Wynedd i'w adnabod efo'i ysgub a'i ferfa, gyda'i chwerthiniad iach a'i gymeriad hawddgar.

Wrth ei hebrwng yn ôl i'w dref hoffus mae'r gynulleidfa oedd yno yn dystion i boblogrwydd y brawd Bobbie, na wnaeth ddrwg bwriadol i undyn yn unman. Parch i'w lwch, oddi wrth un o'r llu ffrindiau.

Cofion dwys tuag at ei unig frawd James, a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

GARTH MAELOG

PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dwr oer
Offer pysgota

Molchi, cribo a chlipio
cwn a chathod
o bob math
gan arbenigwr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: 872407

Rhai o aelodau Adran Bentref yr Urdd ym Mhenisarwaun yn arddanogs y darian a enillwyd am y marciau uchaf yn Eisteddfod Cylch Arfon dan 15 oed.

Urdd Bentref. Llongyfarchiadau i'r aelodau fu'n llwyddiannus yn Eisteddfodau'r Urdd yn ddiweddar. Mae Sioned a Nia Lewis yn mynd ymlaen i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Taf Elai. Pob lwc i'r ddwy.

Cafodd y bechgyn fwynhad mawr yn chwarae gêm bêl-droed yn erbyn Adran Waunfawr ar gae Ysgol Brynrefail. Diolchir i Mr R. Parry am ddyfarnu mor ddi-duedd.

Wedi'r Pasg, gobeithir cynnal Noson o Fabolgampau er mwyn dewis aelodau i fynd i gynrychioli'r Adran yng nghystadlaethau'r Cylch.

Gorffennir gweithgareddau'r flwyddyn gyda thrip i Ganolfan Hamdden Dwyfor, ym Mhwllheli, Mercher, 20 Mawrth.

Ysgol Feithrin. Ydy, mae'r gwanwyn wrth y drws, ac mae'n amlwg fod y plant bychain yn yr Ysgol Feithrin yn ymwybodol iawn o'i ddyfodiad. Deniadol iawn y'wr ffreutur yn Ysgol Tan-y-Coed gyda lliwiau amryliw o'r gwanwyn gyda'i enfys, brogaod a physgod a blodau tlws. Bu'r plant am dro i'r 'Winllan', cartref Mrs Judith Harding, yr athrawes, i weld grifft yn yr afon, ŵyn bach yn prancio a'r holl anifeiliaid anwes sydd gan Erin, Cenin ac Anest. Gobeithio y cawn wanwyn braf yntê.

Clwb Ieuenctid. Bydd aelodau o'r Clwb yn mynd i Alton Towers, 28 Ebrill, gyda'r arweinydd David Phillips. Y mae seddau gwag ar ôl, ac os dymuna unrhyw un fynd ar y trip hwn cysylltwch yn ddiymdroi â 870909. Bydd y bws yn cychwyn o 'King' am 7.30 a.m. ac yn dychwelyd o gwmpas 9.00-9.30p.m. Pris y bws a'r mynediad yw £11.

Adferiad Iechyd. Anfonwn ein cofion cynhesaf at bawb sy'n sâl yn y pentref. Gobeithio fod y ffrindiau hyn yn gwella ar ôl eu triniaeth yn yr ysbyty: Mrs Parrot, Huw Thomas, Hughie Williams; a Mrs Percy Williams, Mrs E. Evans a Mrs E. Roberts wedi'u arhosiad yn y Foelas, Llanrug. Deallwn fod Mr Sam Maddox a Mr Neville Abbot hefyd yn derbyn triniaeth. Brysiwch wella.

Dymuniadau Da. Pob dymuniad da i Amanda Orrock ar achlysur ei phenblwydd yn 18 oed.

Dydd Sadwrn, 16 Mawrth, yn Eglwys Santes Helen, unwyd Delyth Roberts a Martin Gayther, y ddau o'r pentref hwn. Dymunir pob bendith i chwi ar eich priodas a balch ydym eich bod yn ymgartrefu yn y Waen.

Cydymdeimlo. Cydymdeimlir yn ddwys iawn â Iola a Douglas Jones, Tai Arthur, Waun, ar golli mam annwyl Iola. Ein cydymdeimlad dwysaf ag Iris Williams a'r teulu, Bryn Rhydd, o golli'i thad, Mr John Richard Jones o Gaernarfon.

Ysgol Sul Bosra. Mae mis prysur o'u blaenau i aelodau'r Ysgol Sul gyda dwy Gymanfa: y Wesleiaid yn Seiloh, Tregarth a Chymanfa'r Annibynwyr ym Mosra. Anfonwn ein cofion at Mrs Bronwen Jones sy'n dioddef o anhwylder i'w chefn. Trefnir gêm bêl-droed a phêl-rwyd i'r plant yn ystod mis Ebrill.

Ymddeoliad. Pob dymuniad da ac ymddeoliad hapus i chwi, Mr Evan Jones, Bryntirion, wedi gwasanaeth hir i'r Cyngor Sir. Digon o amser rŵan i grwydro ac ymddiddori y eich diddordeb o fyd natur.

Pwyllgor Neuadd. Cynhelir Noson Gymdeithasol i dynnu Raffl Wanwyn, yn Neuadd yr Eglwys, nos Wener, 26 Ebrill, am 6.30 p.m. Ceir eitemau amrywiol gan aelodau'r Urdd a phaned a bisgedi ar y diwedd. Mynediad 50c. Croeso cynnes i bawb. Nos Fawrth, 19 Mawrth tynnwyd Clwb Cant mis Mawrth a'r enillwyr oedd: Emyr Williams, Glyn Euron; Leslie Jones, Meillionydd a Mrs Nellie Roberts, 12 Llys y Gwynt.

Gwyliwch am y Jac-Codi-Baw — mae'r ysgol newydd ar fin cael dechrau ei chodi.

Clwb yr Heulwen. Bydd y Clwb yn ail ddechrau bnawn Mawrth am 1.30 p.m. yn Neuadd yr Eglwys. Croeso cynnes i aelodau newydd.

Dydd Gweddi Byd Eang y Chwiorydd. Cynhaliwyd gwasanaeth arbennig yng Nghapel Bosra ar nos Wener, 1 Mawrth. Mrs Nant Roberts roddodd yr anerchiad a Mrs Nansi Jones, meillionydd oedd y llywydd am y noson. Mrs Ann Ifans oedd yn cyfeilio a bu i lawer o chwiorydd y pentref gymryd rhan yn y gwasanaeth. Yn eu plith Mrs Eirlys Jones, Miss Elinor Jones, Mrs Eluned Jones, Mrs Elizabeth Jones, Mrs Betty Hughes, Mrs Nan Evans, Mrs Bessie Williams, Mrs Delyth Williams, Miss Mair Ffoulkes, Mrs Mary Davies, Mrs Elinor Jones a Mrs Pat Larsen. Diolchir i bawb am eu cymorth parod bob blwyddyn.

Eglwys Santes Helen:

Gwasanaethau'r Pasg. Dyma fanylion am wasanaethau'r Pasg eleni:

Dydd Gwener y Groglith 2-3 p.m. Awr Dawel.

Sul y Pasg 10.30 a.m. Cymun Bendigaid.

Gwasanaethau'r Grawys. Cafwyd gwasaneth o'r Cymun Bendigaid drwy'r Grawys. Dymuna'r Parch Tegid Roberts ddiolch i'r ffyddloniaid am eu cefnogaeth i'r cyfarfodydd hyn. Taer erfynnir i flychau cenhadol y Grawys gael eu dychwelyd i'r trysorydd, Mrs Mary Davies, cyn Sul y Pasg.

Cynhelir y **Festri Flynyddol** yn Neuadd yr Eglwys am 7 o'r gloch, nos Lun, 8 Ebrill, dan gadairyddiaeth y Deon Gwlad.

Diolch: Dymuna Mrs Maggie Rees Thomas a Mr a Mrs Ron Hughes ddiolch i bawb am y cardiau a'r rhoddion tuag at Glinic Waunfawr wedi marwolaeth sydyn Mr Dafydd Morris Hughes. Derbyniwyd y swm sylweddol o £107 er budd y clinic.

Ysgol Tan-y-Coed:

Yn gyntaf y mis yma, gair o ymddiheuriad i Nia Porter am gael ei henw yn anghywir yn y rhifyn diwethaf wrth adrodd ei bod wedi cyflwyno tanc pysgod i'r ysgol. Bellach mae pedwar pysgodyn digon o ryfeddod yn trigo yn y tanc, ac fe bleidleisiodd holl blant yr ysgol i ddewis enwau o restr a luniwyd gan blant dosbarth Mrs Thomas.

Nia a'r pysgod aur — Wali, Talbot, Sionyn a Smot.

Trefnwyd diwrnod agored yn yr ysgol yn ddiweddar, ac fe gafwyd ymateb ardderchog trwy bresenoldeb y rhieni. Gyda dyfodiad Dydd Gŵyl Dewi, cynhaliwyd gwasanaeth yn yr ysgol gyda phawb yn cymryd rhan naill ai yn unigol neu fel aelod o barti. Ymunodd Anti Janice ac Anti Mary â ni, ynghyd â Anti Gwenda ac Anti Beryl.

Bur Cyfeillion yn brysur iawn unwaith eto yn trefnu i godi arian i gronfa'r ysgol. Y tro yma, penderfynwyd noddi'r plant i ddysgu hwiangerddi, dywediadau neu eu tablau fel y gweithgaredd codi arian. Mae'r Babanod am ddysgu hwiangerddi, ac enwau'r planedau fel rhan o'u cywaith ar y Sêr a'r Gofod. Penderfynodd dosbarth 1 a 2 ddysgu dywediadau ac idiomau am y synhwyrau fel rhan o'u cywaith hwythau. Nid oedd testun dosbarth 3 a 4 mor boblogaidd, ond mae'n rhaid nodi fod dysgu tablau, a'u cadw ar gof, yr un mor bwysig a chael arian i'r gronfa. Os ydych eisoes wedi noddi un neu fwy o'r plantos, yna diolch yn fawr. Os nad ydych, ceisiwch roi rhyw geiniog neu ddwy tuag at yr achos. Mae'n dyled i chwi sy'n ein cefnogi yn fawr iawn.

Cafodd y plant hynaf gyfle yn ddiweddar i ymweld ag Ysgol Brynrefail i'w paratoi ar gyfer trosglwyddo i'r Uwchradd ym mis Medi. Er fod nifer yn pryderu cyn mynd, bu'r ymweliad o fudd mawr ac yn gyfle i leihau pryderon.

Ychydig cyn gwyliau'r Pasg bu prysurdeb mawr yn nosbarthiadau 1 a 2. Daeth arbenigwyr mathemateg, gwyddoniaeth ac CDT i gynnal gweithdai gyda'r plant, ac fe gafodd pawb fudd mawr o'r sesiynau.

Yn awr gair o ddiolch i Yncl Michael a Siôn, Perthi, am adeiladu a chyflwyno clamp o gwt cwningen braf. Y bwriad yw prynu cwningen fechan fel anifail anwes i'r holl blant ddysgu edrych ar ei hôl. Os ydych yn gallu bod o gymorth i ddod o hyd i gwningen i ni, neu pe baech yn dymuno cyflwyno cwningen fechan i'r ysgol, cysylltwch â ni. Fe fydd yn siwr o gael cartref da yma.

I gloi, pleser yw adrodd am syniad a gafodd rhai o'r plant hynaf yn ddiweddar. I godi arian ar gyfer diwrnod trwynau coch *Comic Relief* gwerthodd Llŷr ac Ynyr fathodynau coch yr oedd y ddau wedi eu gwneud eu hunain. Wel, mynd o ddrwg i waeth wnaeth pethau. Addawodd Mrs Thomas £1 i'r achos pe bai'r prifathro yn canu unawd ar ddiwedd y gwasanaeth. Talu a fu'n rhaid, er nad oedd y perfformiad yn un da! Addawodd y prifathro arian am i Mrs Thomas a Mrs Roberts ganu i gyfeiliant y gitâr. Cafwyd ymateb ardderchog, ac yn wir, y gamp oedd i gael yr athrawon i ddod i ben â'u perfformiad. Yna daeth Anti Meri i ganu unawd, ac Anti Janice i ganu gyda Siôn. Ar ddiwedd y dydd roedd yr hogiau wedi casglu £12.66 tuag at *Comic Relief*, a phawb wedi mwynhau eu hunain yr un pryd.

Pwyllgor Carnifal/Pwyllgor Neuadd Penisarwaun

Cynhelir

CYFARFOD CYHOEDDUS

i drafod
CARNIFAL 1991
ac i ddewis Swyddogion
yn YSGOL TAN-Y-COED
Nos Lun, 29 Ebrill
am 6.30 p.m.
CROESO CYNNES I BAWB

Diolch i bobl Penisarwaun am blygu'r Eco y mis yma.

MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD

BANGOR
354646

WELDIO OFFER FFERM A PHEIRIANNAU DIWYDIANNOL
GWNEUD GIATIAU, FFENSYS AC ATI AR GYFER Y CARTREF
ATGYWEIRIO TAI GWAIR
E. PUGH
WELDING & FABRICATING
32 GLANFFYNNON
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 5394

NEWYDDION O YSGOL BRYNREFAIL

CYNGHERDDAU

Ar y 7fed o'r mis fe gynhaliwyd noson yng nghwmni'r disgyblion i ddathlu Gŵyl Ddewi. Fe'i trefnwyd ar y cyd rhwng Mrs Megan Roberts â phwyllgor Cymdeithas Cyfeillion yr ysgol. Bu'n noson hynod o lwyddiannus gyda'r gynulleidfa'n manteisio ar y cyfle i sgwrsio â'u gilydd dros baned ar ôl y cyngerdd. Gwnaed £140 o elw tuag at goffrau'r gymdeithas.

Ar y 13eg bu Cerddorfa a Band Rhanbarth Arfon yn cynnal cyngerdd yn yr ysgol, gyda nifer helaeth o blant yr ardal yn cymryd rhan — noson lwyddiannus eto ac fe ddymuna Mrs Roberts ddiolch i'r rhieni a gyfranodd.

EISTEDDFODAU

Yn yr Eisteddfod Rhanbarth dan 15eg oed, a gynhaliwyd yn Ysgol John Bright, Llandudno, ar y 16ain bu'r canlynol yn llwyddiannus — **Unawd prês:** Euros Williams; **Deuawd piano:** Nicola Gibbins a Rhian Green; **Dawns unigol:** Nia Lewis.

Bu Eilir Williams yn fuddugol yn Eisteddfod Rhanbarth (hŷn) a gynhaliwyd yn Ysgol Dyffryn Nantlle a Siôn Wyn yn ail agos iddo.

Daeth Menna Dauncey yn drydydd yn yr adroddiad unigol blwyddyn 4, 5, 6. 'Roedd Mennaj hefyd yn aelod o barti adrodd buddugol o'r ysgol.

Yn y cystadleuthau dansio daeth Sioned a Nia Lewis yn gyntaf yn y gystadleuaeth dawnsio i ddau neu ddwy, ac roedd Sioned hefyd yn fuddugol yn y gystadleuaeth dawnsio unigol.

Llongyfarchiadau i bawb a fentrodd ar y cystadlu yn Eisteddfodau'r Urdd a phob lwc i'r rhai a fydd yn cystadlu'n awr yn Nhâf Elai ym mis Mai.

YR URDD

Dydd Iau, Mawrth 14eg, daeth yr heddwas D. Peacock i roi arddangosfa o waith cŵn yr heddlu i adran yr Urdd Ysgol Brynrefail.

Rhoddodd Mr Peacock sgwrs i ni yn gyntaf am ei waith. Dywedodd ei fod yn un o dri plismon sydd yn gweithio hefo cŵn yng Ngwynedd ac yna dywedodd sut roedd yn dysgu'r cŵn. Mae'n cymryd tri mis i'r ci ddysgu sut i gael hyd i gyffuriau. Cawsom lawer o storïau difyr ganddo.

Daeth â dau gi gydag ef — Alsatian o'r enw Cip a Springer Spaniel o'r enw Spiney. Gwaith y Spaniel ydy dod o hyd i gyffuriau a gwaith yr Alsatian ydy dilyn pobl a'u dal.

Cuddiodd Mr Peacock becyn o'r cyffur Cannabis ym mag Mrs Carys Jones a'i roi yng nghefn y neuadd. Hefyd rhoddodd beth mewn tun y tu ôl i'r rhifiadur. Ymhen dau funud roedd y ci wedi dod o hyd i'r ddau.

Cafodd Ben Edge, o'n dosbarth ni, wisgo helmed a siaced-wrth-fwled i ddangos beth mae plismyn yn ei wisgo mewn terfysg.

Roedd pawb wedi mwynhau eu hunain yn fawr iawn a neb eisiau mynd adref!

Charlotte Hastings, William Lewis, Rhys Owain, a Dosbarth 1E.

Ddiwedd mis Chwefror, ar yr 28ain, daeth y prifardd Ieuan Wyn atom i'n difyru yn ein cyfarfod Gŵyl Ddewi. Bu pawb yn 'gwledda' ar greision ac oren tra'n mwynhau'r cwis hynod o ddiddorol ac addysgiadol a baratowyd ar ein cyfer. Mae'r holl aelodau'n ddiolchgar iawn iddo.

DYDD Y TRWYNAU COCH

Ar ddydd Gwener y pymthegfed o Fawrth cawsom hwyl fawr yma yn Ysgol Brynrefail ar ddydd y trwynau coch.

Yn ystod y dydd roedd llawer o weithgareddau amrywiol yn cymryd lle.

Daeth pawb o'r disgyblion i'r ysgol yn eu dillad eu hunain gan ofalu gwisgo rhyw ddilledyn coch a thalu 30c am wneud hynny.

Aeth llawer o'r chweched dosbarth, oedd wedi gwisgo mewn dillad gwirion, o amgylch pentrefi yr ardal yn casglu arian at lawer o achosion da.

'Roedd yna lawer o bethau ar werth o amgylch yr ysgol, sef bathodynau TAGA, taflen jôcs blwyddyn un, candi fflos a diodydd.

Yn y prynhawn cynhaliwyd disgo i'r holl ysgol. Heblaw am y disgo 'roedd grwpiau yn chwarae ar y llwyfan hefyd, sef y Rogz?????

Yn y gampfa 'roedd cwrs antur i'w gwblhau oedd yn costio deg ceiniog y tro. Bu llawer o athrawon yn codi arian trwy ddawnsio dawns y stonc yn y neuadd ac 'roedd yn ddoniol iawn.

Ar ddiwedd y prynhawn 'roedd dros bedwar cant o bunnau wedi ei gasglu i achosion da ac i helpu plant a phobl digartref, pobl anabl, yr henoed, Rwmania, y newyn yn Affrica a nifer o achosion eraill.

Mwynhaodd pawb o blant yr ysgol y diwrnod hwn. Fy hoff beth oedd y disgo a gweld yr athrawon yn gwneud y stonc. 'Roedd yn ddiwrnod llawn hwyl a daeth a llawer o bleser i bawb.

Luned Jones, Blwyddyn 7

YMWELIAD YSGOLION CYNRADD YR ARDAL Â'R YSGOL

Un o ddigwyddiadau pwysicaf y mis hwn yn Ysgol Brynrefail oedd ymweliad dosbarthiadau hynaf yr ysgolion cynradd yn yr ardal â'r ysgol. Bu Mrs Catherine Owen yn brysur yn trefnu'r ymweliadau hyn. Yn eu tro treuliodd plant ysgolion Bethel, Cwm y Glo, Tan y Fron, Gwaun Gynfi, Dolbadarn a Llanrug ddiwrnod cyfan yma. Cafodd y plant gyfle i flasu peth o fywyd ysgol uwchradd a dilyn gwersi amrywiol yn ystod y dydd. 'Roedd rhai gwersi yn hollol newydd i'r plant ac roeddynt wedi mwynhau'r cyfle i weld yr ysgol cyn dod yma ym mis Medi. Edrychwn ymlaen at eu gweld i gyd eto yr adeg hynny ar ddechrau blwyddyn ysgol newydd.

Sian Elen Thomas

DWY FERCH CWRS TAGA YN CADW NOSON

Yn ystod y mis bu dwy ferch sy'n dilyn Cwrs TAGA yn y chweched dosbarth yn cynnal noson arbennig yn y Neuadd Goffa ym Methel. Y ddwy oedd Annette Sellers a Corrie Thomas a fu'n dangos fideo Parti Nadolig Pendalar, a drefnwyd gan ddisgyblion y chweched ar ddiwedd y tymor diwethaf. Yr oedd aelodau Clwb Henoed wedi mwynhau'r noson ddiddorol hon yn arw.

SÊR YR YSGOL

Un bore Llun gwyntog ar ddiwedd tymor y Nadolig, roedd yr ystafell Gymraeg yn ferw o gynnwrf.

Pam? clywaf chwi'n gofyn. Y rheswm oedd fod criw ffilmio HTV yn dod i wneud rhaglen ac 'roedd ugain o ddisgyblion y drydedd flwyddyn yn cymryd rhan.

Newidiwyd yr ystafell o fod yn ddosbarth i fod yn stiwdio deledu, gyda goleuadau llachar, camerâu a sgriniau teledu yn llenwi'r ystafell.

Erbyn hanner awr wedi naw, yr oedd pawb yn yr ystafell yn ymarfer gyda'u partneriaid — rhag ofn y byddent hwy yn cael eu dewis i berfformio o flaen y camera.

Fe aeth y bore yn araf iawn, gydag un grŵp yn unig yn cael ei ffilmio cyn unarddeg o'r gloch. Ond, aeth pethau rhagddynt yn gyflymach wedyn a chafodd y rhan fwyaf ohonom ein ffilmio.

Beth, meddech chi, oeddem i gyd yn ei wneud o flaen y camera?

Ein tasg gyntaf oedd ffonio i drefnu gwahanol weithgareddau. Yna, yr oeddem i ddychmygu fod rhywbeth wedi mynd o'i le yn ystod y gweithgareddau a bod yr helynt wedi dod i glustiau'r cyfryngau. Arweiniodd hyn at dair sgets.

'Roedd y gyntaf yn sôn am Seindorf Llanrug neu Deiniolen yn cael trafferth gyda rheolwr gwesty ble'r oeddynt yn aros tra'n cystadlu yn Neuadd Dewi Sant, Caerdydd.

Yn yr ail, 'roedd trefnydd parti Clwb Ieuenctid yn ffraeo gyda gofalwr neuadd; ac roedd y trydydd yn sôn am helynt a gafodd mam a'i merch mewn bwyty yn ystod parti pen-blwydd y ferch.

I ddweud y gwir, cafodd y disgyblion i gyd ddigon o hwyl.

Erbyn hyn, mae'r ffilm yn cael ei defnyddio ar gyrsiau hyfforddi athrawon ac mae sêr y drydedd flwyddyn yn adnabyddus i athrawon Cymraeg trwy Gymru benbaladr! 'Rydym ninnau wedi gweld y ffilm ac wedi mwynhau'r gwylio cymaint â'r perfformio.

Dylan Lloyd Jones, 3E

SÊR ETO!

Yr wythnos ddiwethaf, cyfwelwyd pedwar o ddisgyblion hŷn yr ysgol ar gyfer y rhaglen 'Penawde'. Y pedwar oedd: Trystan Thomas, Rhodri ap Llwyd, Bryn Jones a Lowri Angharad. Mawr obeithiwn y byddant yn ymddangos ar y sgrîn.

CWIS LLYFRAU CYMRAEG

Ddiwedd mis Chwefror bu pump o enethod y bedwaredd flwyddyn yn cystadlu yn Rownd Sirol y Cwis Llyfrau a gynhaliwyd yn y Coleg Normal, Bangor. Dewisodd Catrin Thomas, Llinos Wyn Jones, Nia Gruffydd, Sara Wood a Menna Dauncey Williams gyflwyno'r nofel 'Pwy Sy'n Euog?', cyfieithiad gan Joan Lingard. Daethant yn ail i Ysgol Bodedern, Ynys Môn, mewn cystadleuaeth o safon uchel iawn ym marn y beirniad, Morien Phillips.

Menna Dauncey Williams

Annwyl Olygydd,

Yn yr ysgol wnes i wneud barddoniaeth ac byswn i yn hoffi dangos o yn 'Eco'r Wyddfa' ac dyma fo:

Y Gwanwyn

Pan ddaeth y gwanwyn prydferth,
A'i harddwch yn ei law,
Y cae yn llawn o wenith,
I dyfu yn y glaw.

Mae'r oen 'di cael ei eni,
Mae'n prancio dros y bryn,
Mor brydferth mae'n edrych,
Hefo'i gôt o wlân gwyn.

Mor drist fydd gadael y gwanwyn,
A'i harddwch hefo fo,
Mi welaf o'r flwyddyn nesaf,
Bob blwyddyn yn ei dro.

David A. Wager, 1i

(Diolch i ti David. 'Rydym yn falch o gyhoeddi y math yma o waith. Dal ati — Gol.)

YMWELYDD

Ar 5 Mawrth fe ymwelodd Cefin Burgess ag Adran Tecstiliau yr ysgol. Fe roddodd arddangosiad o'i waith i'r chweched dosbarth ac hefyd i fyfyrwyr y pedwerydd a'r pumed. Fe brofodd yr ymweliad yn un addysgol iawn, ac fe siaradodd Cefin am y gwahanol wledydd y mae wedi bod ynddynt, ac fe roddodd bortread lliwgar am y byd dylunio, a'r gwahanol swyddi sydd ar gael.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

Beth am ddysgu dreifio gydag
YSGOL YRRU
BETHEL

TACSI CARIAN
* Pell ac agos
* Stesion, Maes Awyr, Porthladd
* 24 awr y dydd

Cysylltwch â Dic ac Eirlys
42 Bro Rhos, Bethel
PORTDINORWIG 671009

ECO'R IFANC

1, coch; 2, glas golau; 3, oren; 4, brown; 5, gwyrdd tywyll; 6, pinc; 7 gwyrdd golau; 8, melyn; 9, glas tywyll.





Cornel Jôcs

Ond mam . . . dwi ddim ishio mynd i Sir Fôn!
—Cau dy geg a dechreua nofio!!

Pam nes ti guddio llygoden yn ngwely dy chwaer?
—Ond mam . . . fethes i â ffendio llyffant!

Ond mam . . . dwi ddim yn hoffi caws â thyllau ynddo fo.
—Wel, bwyta'r caws a gâd y tyllau ar ochr dy blât!!

Dei: Ma' mwji i yn dodwy wyau sgwâr.
Siôn: Well! Well! Ydy o'n siarad?
Dei: Ydy siŵr!
Siôn: Be' ma' o'n ddeud?
Dei: Dim ond un gair.
Siôn: Beth ydy hwnnw?
Dei: OWTSH!!!

Pam wyt ti'n hoffi bod yn blismon?
—Achos yn y swydd yma, dyw'r cwsmer byth yn iawn!

Dyn yn teithio ar gyflymdra o 150 milltir yr awr ar hyd yr M4. Mae'r heddlu yn ei stopio.
Dyn: O, sori, sarj — ô'n i'n gyrru'n rhy gyflym?
Sarj: Ddim o gwbl, syr — hedfan yn rhy isel, ddwedwn i!!

Ha ha! Ha ha!

Os mai 'f' yw fforte, beth yw 'ff'?
Eiti!!

Mam: Hei, sut aeth yr arholiad heddiw?
Wil: Wel . . . ges i ddeg yn gywir...
Mam: Da iawn ti.
Wil: . . . allan o gant!!

Dic: Mam, ydy pob stori dda yn dechrau efo 'Un tro . . .'?
Mam: Nacydy, siŵr. Mae storïau da dy dad pob tro yn dechrau hefo, 'Sori 'mod i'n hwyr, ond...'!

Beth sy'n oer ac sy'n gwisgo sgarff tartan?
-Ffrij Albanaidd!

Athro: Rhowch ''â'i'' mewn brawddeg i mi, Sam.
Sam: Rydw i'n byw ym Mangor-ai!!

Pa fath o dywydd sydd yn Sealand Newydd?
Tywydd oer, syr.
Anghywir, Dewi.
Ond, syr, mae'u cig nhw wastad 'di rhewi!!

Beth yw mwy nag un car?
Ceir.
Da iawn. Beth yw mwy nag un babi?
Efeilliaid!!!

Athro: Ydy'r canlynol yn gywir? 'Mae fi wedi mynd!'
Albert: Nac ydy, syr.
Athro: Da iawn, Albert. Rŵan dwedwch pam.
Albert: Achos mae chi dal yma!!

Enillydd cystadleuaeth mis Mawrth yw
CLAIRE LLOYD WILLIAMS
9 Rhes Victoria, Deiniolen (5½ oed) — Da iawn ti Claire!
Cawsom lu o luniau arbennig o dda hefyd gan y canlynol: **Keith Williams,** Bryn, Cwm-y-Glo (6 oed); **Dafydd Harri Morris,** Tŷ Capel M.C., Dinorwig (7 oed); **Elfed Morgan Morris,** Llechwedd, Deiniolen (8 oed); **Awen Haf Humphreys,** 17 Stad Minffordd, Llanrug (8 oed); **Sarah Lynne Jones,** Y Fricsan, Cwm-y-Glo (8 oed); **Anna Marie Kelley,** Flat 9, Lôn y Glydir, Bangor (9 oed); **Lois Angharad Druce,** 9 Tan y Cae, Bethel (10 oed).

Llongyarchiadau i chi gyd am ymdrechion mor dda. Efallai mai chi fydd yn fuddugol ym mis Ebrill, felly daliwch ati, ac anfonwch eich lluniau i'r 'Gornel' erbyn Ebril 16 fan bella'. HWYL AR LIWIO!!

CYSTADLEUAETH MIS EBRILL

Enw.....

Cyfeiriad .....

.....

.....

Oed.....

LLIWIWCH Y LLUN GAN DDEFNYDDIO'R LLIWIAU PRIODOL



1.—BROWN 2.—OREN 3.—GWYRDD 4.—GLAS 5.—MELYN

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

Clwb Cant Ysgol Dolbadarn, enillwyr mis Mawrth:
1, £25: Mr I. L. Williams, Tan y Bonc, 12 Coed y Glyn, Llanberis (010);
2, £15: Mrs Eiddwen Tomos, 9 Stryd y Ffynnon, Llanberis (148);
3, £10: Mrs Non W. Evans, Cynlas, Stryd Fawr, Llanberis (121).

Apêl Rwmania: Cynhaliwyd Diwrnod Agored yn Llys Eryri, Llanberis, cartref Mrs Myfanwy Jones, ddydd Gwener, 15 Mawrth. Gwnaethpwyd hyn i gasglu nwyddau a chodi arian at Apêl Rwmania. Derbyniwyd llawer o nwyddau, cymaint yn wir nes bod y lori a fydd yn cludo'r nwyddau i Rwmania yn llawn a chasglwyd £170. Bydd y lori yn mynd ar 27 Mawrth gyda dwy nyrs o Ysbyty Gwynedd. Mae'r apêl yn cefnogi gwaith ysbyty a meithrinfa Moinesti lle mae 200 o blant bach a babanod yn byw. Dymuna Mrs Myfanwy Jones ddiolch i bawb a gefnogodd y Diwrnod Arbennig, yn arbennig y rhai fu'n ei helpu i baratoi, sef Mrs Enid Jones, Alwyn ac Iola Owen, Catherine Parry a Mrs Jane Jones.

Ysgol Feithrin: Cynhaliwyd Diwrnod Coffi yn Angorfa, Llanberis, ddydd Mercher, 13 Mawrth, i godi arian at yr Ysgol Feithrin. Casglwyd swm da o arian a diolch i bawb a ddaeth i gefnogi'r diwrnod. Diolch yn arbennig i'r rhai a drefnodd y gweithgaredd yma. Mae'r Ysgol Feithrin yn cael ei chynnal bob dydd heblaw dydd Gwener yn Ysgol Dolbadarn ac mae'r plant wrth eu bodd yng nghwmni Anti Catherine ac Anti Jan.

Diolch: Dymuna Doreen a Les ddiolch i'w holl ffrindiau yn Llanberis, yn arbennig eu ffrindiau yn y Clwb y Lleng Brydeinig am eu geiriau caredig o gydymdeimlad a chardiau a dderbyniwyd yn eu profedigaeth ddiweddar ar ôl colli ei ŵyr.

Dechrau Canu, Dechrau Canmol: Bydd teledu BBC Cymru yn ffilmio a recordio'r rhaglen yn y Capel Coch, Llanberis, nos Fercher, 10 Ebrill am 7 o'r gloch. Arweinydd y gân fydd Mr Arwel Jones (Hogia'r Wyddfa). Bydd dau barti lleol yn cymeryd rhan, sef Pari Lliwedd, dan arweiniad Mrs Mattie Hughes, a Parti Meibion Dyffryn Peris, dan arweiniad Mr Brian Williams. Bydd croeso cynnes i bawb o gapeli ac eglwysi bro'r *Eco* i'r darllediad, ac hefyd i gorau a phartion y fro. Taer erfynir am gefnogaeth gref i'r darllediad. Bydd maes parcio ar gael yn iard Ysgol Dolbadarn. Ceir y taflenni canu wrth y drws ar noson y recordio. Os am ychwaneg o fanylion cysyllter â Llanberis 871496.

Plas Pengwaith: Hoffwn ddiolch i drigolion Llanberis am y croeso cynnes estynwyd i mi ar ddechrau fy ngyrfa newydd, sef Rheolwr mewn Gofal Cartref Plas Pengwaith.

Cafodd y trigolion a minnau wâdd gan Glwb yr Henoed, Llanberis, i'w cinio Gŵyl Ddewi yng Ngwesty'r Victoria. Rwy'n sicr ein bod i gyd wedi cael pnawn da a mwynhau ein hunain yn fawr iawn.

Dydd Gwener, 22 Chwefror, cafwyd prynhawn difyr gyda Miss Sophie Parry-Jones, Pontllyfni, yn dangos dillad y ganrif ddiwethaf a dechrau'r ganrif hon. Roedd gweld pais wlanen, gŵn nos a dillad morwynion yn codi hiraeth, atgofion melys a chaled o'r amser hynny — a phawb wedi mwynhau eu hunain yn fawr iawn.

Bu farw dwy o'n trigolion o'r ardal yma yn ystod y ddau fis diwethaf, sef Mrs J. A. Closs Parry, gynt o Fachwen; a Mrs Jennie Jones, 73 Maes Padarn. Teimlwyd colled fawr gan bawb ym Mhlas Pengwaith.

Cynhelir Noson Caws a Gwin ar 28 Mawrth a chawn ein diddanu gan 'Raymond y Post' mewn noson o gân. Carem estyn ein diolchiadau am offer ac arian a roddwyd i'r Cartref gan Mr Norman Closs Parry, Raymond Jones, Miss Jones, W.R.V.S., cynrychiolydd Gyrfa Chwist Cwm-y-Glo a Mrs Reece.

M. W. Thomas.

Cydymdeimlo: Ar ôl gwaeledd byr bu farw Mrs Jennie Jones ym Mhlas Pengwaith ar 13 Chwefror, yn 87 mlwydd oed. Fe'i ganed ac fe'i magwyd yn Llanberis, ond treuliodd y rhan helaeth o'i hoes gyda'i diweddar ŵr, Henry Thomas, a'i diweddar fab, John Henry, yn Tŷ Uchaf, Ceunant. Er iddi symud yn niwedydd ei hoes i Maes Padarn yn y Ceunant yr oedd calon Anti Jennie. Fe'i cofir yn trigo fel brenhines yn yr hen dyddyn bach gwyngalchog ar lethr Cefn Du, yn hapus a bodlon ei byd. Aelwyd gynnes a diddig oedd aelwyd Tŷ Uchaf.

Wynebodd stormydd chwerw iawn yn ystod ei bywyd, ond er hyn i gyd parhaodd yn llon a charedig hyd y diwedd. Mwynhai gwmni ei theulu a'i ffrindiau bob amser.

Draenog o Dramor

Dywedir y gall Mecsico ddysgu gwers i unrhyw wlad ynglŷn â dulliau effeithiol o dwyllo etholiadol. Ond mae'n ymddangos fod Sierra Leone yn dysgu'n gyflym. Mewn adroddiadau diweddar o Freetown, dywedir fod twyll yn rhemp yno gogyfer â'r etholiad sydd i'w gynnal cyn diwedd y flwyddyn. Yn ôl rhai sibrydion, mae ffatrioedd yn cael eu cofrestru fel tai, adeiladau ar hanner eu codi yn cael eu cyfrif fel fflatiau, a biniau sbwriel yn cael eu cofrestru fel tai ar rent. Yn yr ardaloedd gwledig, mae rhai pentrefi cyfan wedi eu gadael allan o'r gofrestr, a phentrefi dychmygol wedi eu cynnwys. Mewn un dref wledig darganfuwyd fod 62 o etholwyr wedi eu cofrestru ar gyfer un tŷ, a 300 wedi eu cofrestru ar gyfer blwch ffonio!

Gyda etholiadau'r cynghorau dosbarth i'w cynnal fis Mai eleni, gallwch fod yn ddigon tawel eich meddwl ynglŷn â'r sefyllfa ym Mhrydain. Fyddai'r llywodraeth bresennol fyth bythoedd yn cydnabod y trigolion hynny sy'n byw mewn bocsus cardbord, heb sôn am eu cofrestru.

CAEATHRO

Mrs Beryl Roberts, Gerallt, Erw Wen. Ffôn: C'fon. 3536

Hospis yn y Cartref: Cynhaliwyd noson goffi llwyddiannus iawn yn y Festri. Enillwyr y raffl glas oedd Nansi Tremallt, Elma Williams a Rhianon Roberts, gyda Sarah Hughes, Williams y Wern a Nia Jones yn llwyddiannus gyda'r tocynnau coch. Roedd Catrin Evison, Cae Hopcyn yn hollol gywir wrth benderfynnu lleoliad y trysor ym Metws Garmon. Enillydd y pêl-droed oedd Eilian Hughes, Tyddyn Cae, a roedd Bethan Iwan, Carrog, yn sicr o'i chyfrif ynglŷn â'r pys mewn potel. Jason Hughes oedd meistr canhwyllau Glyndŵr, a'i frawd Simon yn gyfartal gyda Clife James ar y bwrdd ceilys. Mae'r pwyllgor yn dra diolchgar i'r pentrefwyr a'u cyfeillion am godi £201.50 tuag at darged y pentref.

Gwasanaethau'r Capel: Disgwylir pregethau gan y canlynol yn ystod mis Ebrill, am 2 y prynhawn. 7: Mr Glyn Owen; 14: Parchg Eric Jones; 21: Parchg Harold P. Jones; 28: Parchg Ronald Williams. Croeso i bawb, hen ac ifanc.

Cyngor Cymuned: Ar 20 Mwrth cynhaliwyd cyfarfod yn y Ganolfan, Waunfawr. Wrth ymateb i lythyrau'r Cyngor, nid oedd cais cynllunio wedi ei gyflwyno ar gyfer y cytiau moch ar lôn Waunfawr. Mae Syrfewr y Sir wedi addo ail godi'r arwydd lôn 'stop' ar y ffordd i Bontrug. Ynglŷn â'r bwlch yn wal Glangwna ochr y cae chwarae, rhoddwyd caniatâd cynllunio dros dro am dri mis yn unig yn 1989 ac mae Glangwna wedi cyflwyno cais newydd. Hefyd mae Glangwna wedi addo llenwi'r tyllau mawr wrth ochr y llwybr cyhoeddus rhwng y cae chwarae a'r lôn newydd ar ôl i'r tir sychu. Nid oedd gwrthwynebiad i gais cynllunio ymestyn tŷ Glandwr yn amodol i do llechi naturiol Cymreig a chodi waliau cerrig. Penderfynwyd bydd RHAld i bob cais ariannol i'r Cyngor o hyn ymlaen gynnwys mantolen cyfredol a manylion y tâl aelodaeth blynyddol er mwyn sicrhau fod yr ymgeisydd yn rhedeg eu materion mewn ffordd briodol a cheisio codi arian mewn ffyrdd eraill. Gan fod nifer wedi gwrthwynebu cais y Cyngor Sir i osod llinellau melyn dwbl yn y pentref y mae'r Cyngor Sir yn ail-ystyried y cais. Mae'r Heddlu yn annog pentrefi fel Caeathro i sefydlu Gwarchodaeth Cymdogol (*Neighbourhood Watch*), yn arbennig gan fod nifer o droseddau wedi digwydd yn y pentref yn ddiweddar.

Antur Padarn: Diolch i bawb (un tŷ mewn tri yn unig—sori) am lenwi a dychwelyd holiaduron Antur Padarn.

Plant Mewn Angen: Diolch i blant y pentref am gasglu £5.17 at yr achos da. Da iawn nhw.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Raymond a Wenna yn eu profedigaeth o golli nain annwyl a chariadus, ac â Fflur a Siôn o golli hen nain.

CARTREF HENOED
Y Foelas
Caernarfon
(0286) 4652

ROYAL VICTORIA HOTEL
LLANBERIS 870149
★ Bwyd da ★ Cwrw da
★ Cwmni da

Aled Jones
Peiriannydd
Gwres Canolog
a Plymio
4 Bryn Eglwys
PENISARWAUN
Ffôn Llanberis
871047

GWILYM H. WILLIAMS
BRYN DAIRY
2 BRYN HYFRYD
BETHEL
Ffôn: Port Dinorwig
670786

Llefrith
Llaeth Porfa
Llaeth heb Hufen
Wyau, Tatws
Diodydd
Ffrwythau

DINORWIG

Mr D. J. Thomas, 8 Maes Eilian

Ar ddydd Gwener, 1 Mawrth, fe gynhaliwyd Cyfarfod Gweddi dan nawdd mudiad Byd Eang y Chwiorydd. Llywyddwyd y cyfarfod gan Mrs Megan P. Morris, ac fe gymerwyd rhan mewn gweddïau a ledio emynau gan Miss Margaret Jane Jones, Mrs Alice Myfanwy Griffith, Miss Nellie Wyn Jones, Mrs Elizabeth Jones, Mrs Katie Lloyd Hughes, Mrs Dilys Williams, Mrs Betty Lloyd Roberts, Mrs Rene Morris, Mrs Bet Roberts a Mrs Pleming, gyda Mrs Jennie Williams yn cyfeilio.

Rhaid mentro i bellafoedd byd unwaith yn rhagor tra'n cyflwyno'r nodiadau presennol. Croesewir yn bur gyffredinol y newyddion mwy calonogol a ddaw bellach o'r Gwlff, er bod cryn amheuaeth a geir perffaith heddwch eto yn y rhandir terfysglyd hwn. Mae y Kiwatis, yr Israeliaid a'r Arabiaid yn parhau i feithrin a choleddu amheuon yn eu calonnau; ac nid oes sicrwydd na cheir ystad o ryfel yn y mannau hyn unwaith yn rhagor gyda chanlyniadau gwaedlyd a cholli bywydau. Gweddïwn bod y gwledydd yn ymwrthod â ffordd rhyfel gyda defnyddiau ac offerynau dinistriol yr ugeinfed ganrif. Ni chollwyd llawer o fywydau yn yr ymgiprys am oruchafiaeth, ac fe hyderwn y bydd arweinwyr y gwledydd yn cadw i lawr eu hymdrech i feddiannu'r olew a'r elfennau sy'n gyrru'r byd modern yn ei flaen a'r diffyg parch i hawliau elfennol y bobloedd. Rhodder atalfa ar y rhai sy'n ceisio blaenoriaeth ar eu cydoeswyr er bod yn feddiannol o allu yn apelio'n gryf iawn at rai er i hynny olygu cadw eraill mewn caethiwed a thrybini.

Mewn rhifyn blaenorol o'r *Eco* 'roedd Mrs Betty Peris Roberts yn diolch i'w chymdogion a'i ffrindiau am y caredigrwydd a ddangoswyd tuag ati, ac mae hi wedi bod unwaith yn rhagor yn Ysbyty Gwynedd am driniaeth a gofal gan y meddygon a'r gweinyddesau. Gobeithiwn bod y cyfan yn gwarantu ei bod ar y ffordd i wella'n foddhaol, a hithau mor ffyddlon i'w chapel ac yn bur gymeradwy gan bawb sy'n ei hadnabod. Mae ei chymdogion ym Maes Eilian yn gobeithio'r gorau ar ei rhan.

Fe gefais yr hanes am lwyddiant Rhodri Thomas, Trefor, ym myd y banidau prês o ddwy ffynhonnell ac fe geisiaf innau gyfuno'r ddau adroddiad. Fe ddaeth llwyddiant i wyrion Mrs Alice Thomas a'r diweddar Hugh Thomas, 1 Bro Elidir ym mhencampwriaeth Bandiau Prês Gogledd Cymru ym Mangor yn ddiweddar. Mab yw Rhodri i'r Parchg a Mrs Idris Thomas, y Rheithordy, Trefor. Fe ddaeth Meilir Thomas, ei frawd, yn fuddugol dan 10 oed, ac ennill tlws Ned Needham ar yr unawd trombôn. Mae cyfres o lwyddiannau yn gysylltiedig âg enw Rhodri, sef yr air Varie dan 14 oed yn adran y 'slow melody'. Gyda Carwyn ei ffrind o Drefor enillasant ar y ddeuawd dan 14 oed. Deallwn bod yr ieuengaf o'r brodyr, sef Osian ac yntau ond 7 oed yn dangos diddordeb mewn offeryn chwyth. Sŵn offerynnau prês sydd i'w clywed yn Rheithordy Trefor mae'n amlwg.

Yr adeg hon o'r flwyddyn mae'r tywydd a phopeth arall yn canfod gwendidau'r natur ddynol. Mae'r cyfansoddiad ar ei fan gwannaf i wrthsefyll ymosodiadau gelynion iechyd corfforol. Fe welwyd cludo nifer o'n cyd-fforddolion i ysbytai lle ceir gofal gweinyddesau a meddygon profiadol. Gorchwyl beryglus yw dechrau enwi'r rhai y daeth anhwylderau i'w rhan, gan bod eraill na chawsom unrhyw wybodaeth amdanynt, ac felly, nid o fwriad yr anwybyddir hwy. Mae'r mwyafrif o'r rhai a fu mewn ysbyty adre' yn ôl bellach — rhai fel Mrs Medwen Griffith, Mrs Betty Peris Roberts ac Andrew Griffith. 'Rwy'n sicr y caniateir i mi gyfeirio at Mr Owen Richard Williams ar sail ei gysylltiad blaenorol a'r *Eco* gan mai ef oedd yn gyfrifol am newyddion Dinorwig cyn symud ohonno i Dai Rhydfadog, Deiniolen. Fe erys rhai oedrannus yn eu cartrefi eu hunain tra ceir eraill mewn cartrefi nyrsio a sefydliadau i hen bobl. Fe werthfawrogir cyfraniad cyfoethog y rhai sy'n treulio eu hamser i weini mor dyner a charedig y rhai a ymddiriedwyd i'w gofal. Nid bob amser y cânt y clod sydd ddyledus iddynt am eu hamynedd a'u hymgysegriad. Digon hawdd yw edliw eu bod yn cael cyflog am eu gwaith, ond hwy er hynny sy'n cerdded yr 'ail filltir' pan mae eraill o bosibl yn methu a cherdded y 'filltir gyntaf'.

Wedi i mi gael cyfres o aeafau cymharol dyner fe ddaeth newid eleni, ac nid ar rannau ucha'r mynyddoedd yn unig y gwelwyd lliw yr eira. Fe gyrhaeddodd hwnnw hyd at iseldiroedd Ynys Môn, ac fe'n gorfodwyd ninnau i glosio'n nes at y tân gan fod myned allan yn orchwyl trafferthus.

Ar y gorwel pell dyma Iraq o dan Saddam Hussein yn taflu cymylau tywyll ar ein ffurfafen. Mae'n syn fel mae cymeriad fel hyn yn perthyn i bob cenhedlaeth, ac yn peri pryderon cas i'r gwledydd oll. Ni ŵyr neb i sicrwydd pryd y tynnir hwy i mewn i gyflafan echrydus a thrist.

Ffaith sy'n peri blinder yw crwydriadau defaid yn yr ardal yn arbennig pan maent yn torri drwodd i erddi'r ardal. Myn y rhai sy'n cadw defaid mai cyfrifoldeb y garddwyr yw eu cadw o'r gerddi tra myn deiliaid y tai mai'r bugeiliaid a ddyliai eu cadw ar eu tiriogeth eu hunain. Cwestiwn na cheir ateb terfynnol iddo yw hwn. Gresyn serch hynny ei fod yn magu drwg deimlad yn yr ardal.

Hyfryd oedd clywed am lwyddiant Mr John Eirwyn Morris ac yntau'n llunio 'logo' yn Ysgol Brynrefail, Llanrug. Nid yw yntau'n ddieithr i'r maes hwn o weithgarwch, ac mae ei wraig yn dilyn yr un trywydd. Diddorol i rai ohonom yw dilyn hynt y rhai ieuengach, e.e. mae Sara Wood yn ymddiddori yn y feiloin — neu'r ffidil ar lafar gwlad.

Gyda'r Pasg mor gynnar eleni fe hyderwn na fydd damweiniau angeuol ar y mynyddoedd o ganlyniad i ddillad ac esgidiau anaddas.

Dymuna Mrs Betty Jones, Tan-y-Buarth Uchaf, ar ran ei mab Gwilym Irfon, ddiolch o galon i'w theulu a'i ffrindiau am bob galwad ffôn ynghyd â chardiau a rhoddion a dderbyniwyd ar achlysur ei benblwydd yn un ar hugain oed, ac yntau yn y Gwlff.

Fe edrychwn ninnau ymlaen at gael gweld rhyddhau'r hogiau hyn o wasanaeth milwrol yn y dyfodol agos. Ein gobaith yw y bydd y wladwriaeth yn gwneud gwell trefniadau gwaith ar eu cyfer i'w cynorthwyo i dderbyn bendith ac i fod yn fendith i gymdeithas yn gyffredinol. Uned y pleidiau gwleidyddol i gyrraedd at hyn a'i wneud yn ffaith digamsyniol.

Diolch: Dymuna Betty Peris Roberts, 11 Maes Eilian, ddiolch unwaith eto i'w theulu, cymdogion a ffrindiau oll, am y cardiau, blodau a rhoddion ac hefyd y galwadau ffôn, a dderbyniodd tra yn Ysbyty Gwynedd. Mae ei diolch yn arbennig i Ward Ogwen am eu gofal caredig. Diolch yn fawr iawn i bawb unwaith eto.

Apêl Rwmania: Fe hoffai trefnwyr yr apêl ddiolch i bawb a gefnogodd y bore coffi a gynhaliwyd yn ddiweddar yn y Ganolfan tuag at godi arian at yr achos da hwn. Casglwyd cyfanswm o £100 i gyd ac mae'r swm yma eisoes wedi ei anfon ymlaen i'r apêl yn ganolog.

Biniau Ysbwriel: Cafodd y Cynghorydd Jacob Jones gadarnhad trwy lythyr gan Gyngor Dosbarth Arfon ychydig wythnosau yn ôl eu bod am osod biniau ysbwriel mewn safleoedd o gwmpas y pentref pan ddaw stoc newydd ohonynt i law. Y gobaith yw eu gosod wrth ymyl y Ganolfan; o flaen tai cyngor Maes Eilian, ac yn yr Allt Ddu.

Cymorth Cristnogol: Cynhelir Wythnos Cymorth Cristnogol eleni rhwng y 13-18 Mai. Fel ymdrech i geisio trefnu gweithgaredd yn lleol i dynnu sylw'r cyhoedd at yr wythnos gwahoddir pawb sydd a diddordeb i fynychu cyfarfod yn y Ganolfan, nos Lun, 15 Ebrill, am 7. Os am fwy o fanylion cysylltwch â Mr Glyn Tomos.

Arwydd cyflymdra: Unwaith yn rhagor mae y Cynghorydd Glyn Tomos wedi gohebu ag Adran Priffyrdd y Cyngor Sir i geisio eu cael i osod arwydd tri deg milltir yr awr ar y ffordd i mewn i'r pentref. Fel y gŵyr pawb mae Heddlu Gogledd Cymru yn gefnogol i gais o'r fath. Hefyd tynnwyd sylw yr un Adran at yr angen i ail osod yr arwydd ffordd wrth ymyl y Ganolfan sydd wedi ei chwythu i lawr gan y gwynt mawr a gawsom yn ddiweddar.

Cymdeithas Undebol: Gyda tymor y Gymdeithas wedi dod i ben gyda gwledd o Ganu a Chawl bendigedig yn y Ganolfan ar nos lau, 28 Chwefror, i ddathlu Gŵyl Ddewi, mae ein diolch yn fawr i'r swyddogion am drefnu rhaglen mor ddiddorol ac amrywiol yn ystod misoedd y gaeaf. Nid ar chwarae bach y mae trefnu rhaglen o'r fath ac yr ydym fel cefnogwyr y Gymdeithas yn ddyledus iawn iddynt.

Pwyllgor Adloniant Dinorwig: Yn ddiweddar bu dwy aelod o'r pwyllgor, Mrs Rita Wood a Mrs Margaret Jones yn ymweld ag Ysgol Gwaun Gynfi i weld y disgyblion yn mwynhau darllen llyfrau a brynwyd yn dilyn cyfraniad ariannol o £100 gan y pwyllgor. Wrth gwrs gweithgaredd nesaf y pwyllgor fydd trefnu 'Hwyl Haf'. Tydi blwyddyn yn mynd yn fuan deudwch!

Eglwys St. Mair: Fel sydd yn digwydd yn flynyddol bellach bydd gorymdaith gyda'r Groes drwy'r pentref am 2.15 o'r gloch ar

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
MENAI SEWING MACHINE CENTRE
40 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn: (93) 714043
neu
Caernarfon 4520
edau, nodwyddau
ac ati mewn stoc

GWYNETH ROBERTS
84 Stryd Fawr, Llanberis
Ffôn: 870491
PAENT, PAPUR WAL
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION
Bara Ffres
Teisennau
Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati,
Peis, Rholiau Sosej,
Pasteiod, Teisennau Hufen,
Teisennau Plât, Torth Gyrains etc.
BECWS ERYRI
Stryd Fawr, Llanberis 870491

IEUAN WILLIAMS
Glanffrwd
DEINIOLEN
Llanberis 870484
★ Bysiau o 12 i 53 sedd
★ Teithiau Lleol a Thramor
★ Gwaith Contract
★ Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

DINORWIG
(PARHAD)

brynhawn dydd Gwener y Groglith. Yna am 3 cynhelir gwasanaeth syml o flaen yr Eglwys. Fel arfer mae croeso i bawb ymuno yn yr achlysur hwn. Yna ar fore Sul y Pasg am 10 cynhelir gwasanaeth o'r Cymun Bendigaid, a hynny o dan ofal y Parchg Ganon R. Glyndwr Williams. Mae croeso i bawb o bob enwad ymuno yn y gwasanaeth hwn.

Y Llwybr Main: Gan bod y Cyngor Sir wedi gorfod cau y llwybr yma o bryd i'w gilydd, oherwydd symudiad yn waliau'r llwybr sydd yn cynnal y tomenni llechi, a bod rhannau o'r waliau wedi eu symud oddi yno, mae cynlluniau ar droed i ail gyfeirio rhywfaint ar y llwybr presennol. Eisoes mae'r Cyngor wedi ceisio a derbyn barn peiriannwyr ymgynghorol ar y mater a'r casgliad y maent wedi dod iddo yw y byddai adfer y llwybr presennol ar ei hyd i gyflwr diogel nid yn unig y tu hwnt o gostus ond y byddai yn golygu symud rhannau helaeth o'r tomenni yn ogystal. Byddai'r cam olaf ynddo'i hun yn newid y tirlun fel ag y mae ar hyn o bryd yn gyfangwbl ac yn dinistrio cymeriad cynhenid y fro. Yn wyneb hyn mae'r Cyngor Sir wedi chwilio am ateb rhesymol arall a fyddai'n cadw cymaint a phosibl o'r llwybr presennol, a lle bydd angen gwyro oddi ar y llwybr fel ag y mae, i greu llinell newydd, gwneud hynny yn y fath fodd ag a fyddai'n caniatau gwerthfawrogi cymeriad a hanes y fro. Fel canlyniad, bwriad y Cyngor yw gwyro y llwybr wrth y bont haearn ac ar hyd ochr yr inclen i Gilfach Ddu. Mae Swyddog Cynllunio'r Sir a Syrfewr y Sir yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd yr hawl tramwyo hwn a'r teimlad yw y byddai'r ail gyfeirio yma yn ffordd sensitif a chost effeithiol o adfer y ddolen gyswllt. Os am wybodaeth pellach neu os ydych angen mynegi barn ar y bwriad i ail gyfeirio y llwybr yna mae croeso i chwi gysylltu â'r Cynghorydd Glyn Tomos.

Pwyllgor y Ganolfan: Cyfarfu y pwyllgor ar nos Fawrth, 19 Mawrth, ac fel arfer trafodwyd nifer o faterion yn ymwneud â'r Ganolfan a'r ardal yn gyffredinol. Adroddwyd bod y Cyngor Sir yn gobeithio gwneud gwaith atgyweirio ar yr adeilad yn fuan ym mis Ebrill. O ddeall hyn penderfynwyd gohirio unrhyw fwriad i baentio tu mewn i'r Ganolfan. Deallwyd bod Mr Rennell Williams wedi gwneud mân welliannau hwnt ac acw yn y Ganolfan a diolchwyd iddo am ei barodrwydd i wneud y tasgau hyn a hynny yn gwbl wirfoddol. Er bod aelodau Clwb Gwerin y Coed yn awyddus i weld y cae chwarae yn cael ei lefelu a gosod mwy o ddefnyddiau ar gyfer y plant cytunwyd mai buddiol fyddai iddynt wneud rhestr o'r hyn y dymunent ei weld yno a cheisio eu prisio. Yna fe all y pwyllgor wedyn ystyried eu hargymhellion. Hefyd cytunwyd i ofyn i Gyngor Arfon os oes modd gosod ffens uchel y tu ôl i un o'r gôls sydd wrth ochr yr afon fel ag i rhwystro pêl rhag mynd i'r caeau eraill. Mynegwyd dymuniad i weld sedd arall yn cael ei gosod mewn man hwylus yn y pentref a chytunwyd mai y lle gorau fyddai ei gosod wrth ochr y wal ym Maen Gwyn. Yn olaf cytunwyd i gynnal y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth, 7 Mai am 7. Hwn fydd y Cyfarfod Blynyddol pryd y bydd swyddogion newydd yn cael eu hethol ar y pwyllgor.

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: Felinheli 670726

YR URDD — LLWYDDIANT YR ADRAN

Bellach mae tymor y gweithgareddau wedi gorffen am flwyddyn arall. Cafwyd Noson Goffi llwyddiannus iawn eto ddechrau'r mis. Cafodd pawb oedd yn cystadlu yn yr Eisteddfod Gylch gyfle i berfformio o flaen cynulleidfa. Llwyddodd Bethan Fôn Jones i gael ail yn ei chanu a canu'r piano, ac ail oedd hanes y Côr ac un parti canu hefyd. 'Roedd y gangen leol yn ail i Adran Tref y Gelli am darian yr Adrannau Pentref yn holl weithgareddau'r Eisteddfod dan 12 oed.

Erbyn hyn mae'r dawnswyr disgo ar y brig. Llongyfarchiadau i'r Grŵp Dawnsio Disgo o dan 12 oed a enillodd y wobr gyntaf yn y Sir yn ddiweddar, ac i'r Grŵp dan 15 a ddaeth yn ail. Llwyddodd Lowri Williams i ddod yn gyntaf mewn dawns unigol, a Caryl Owen yn ail. Fe fydd Lowri a'r Grŵp o dan 12 yn cynrychioli Eryri yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhonyrefail ym mis Mai.

Mewn arddangosfa o'r cynnyrch Celf a Chrefft daeth Delyth Morris yn drydydd am fodel 3D o Archfarchnad.

Roedd Owain Siôn Williams yn cynrychioli'r gangen mewn Noson Gymnasteg yn ddiweddar a daeth Owain yn bedwerydd yn y gystadleuaeth i rai dan 12 oed. Llongyfarchiadau mawr iddo. Llongyfarchiadau hefyd i Menna D. Williams am ddod yn drydydd yn yr adrodd o 15-19 oed.

Y Gymdeithas Lenyddol: Daeth tymor y Gymdeithas i ben gyda Cinio Gŵyl Ddewi yng Nhegin y Marcwis, Llanfairpwll, nos Fawrth, 5 Mawrth. Daeth criw da ynghyd a chafwyd noson ddifyr iawn yng nghwmni y wraig wadd Ann Hopcyn. Cafwyd sgwrs ddifyr yn mynd a ni am dro drwy Gwm Rhymni, cartref Ann.

Merched y Wawr: Yng Nghegin y Marcwis y bu Merched y Wawr yn dathlu Gŵyl Ddewi hefyd. Cafwyd noson ddifyr iawn yng nghwmni y Prifardd Selwyn Griffith a Mrs Griffith.

Diolch: Dymuna Mr a Mrs Christensen, Tŷ Capel y Cysegr, ddiolch o galon i berthnasau, cymdogion a chyfeillion am y cardiau, blodau, anrhegion a dymuniadau da a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur dathlu eu Priodas Aur.

Llongyfarchiadau i Carol ac Emyr, Penmaen, Saron, ar enedigaeth mab, Iwan Rhys, ar 12 Chwefror.

Diolch: Dymuna Carol ac Emyr, Penmaen, ddiolch o galon i bawb am bob caredigrwydd a ddangoswyd iddynt ar enedigaeth Iwan Rhys.

Enillwyr Clwb 200 Neuadd Goffa Bethel, mis Chwefror: 1, £20: Miss Catrin Evans, Swyn Eryri, Bethel (63); 2, £10: Mr J. R. Foulkes, 6 Tan y Cae, Bethel (28); 3, £5: Mr Michael Ellis, 9 Stad Eryri, Bethel (178); 4, £5: Mrs Freda Jones, 3 Rhoslan, Bethel (151); 5, £5: Mr Emrys Read, Cefn Cynrig, Bethel (89); 6, £5: Mr Huw R. Davies, Ponciau, Ffordd Cildwrn, Llangefni (123); 7, £5: Mrs Glenys Griffiths, Llwyn Eithin, Bethel (142); 8, £5: Mrs Eileen Griffiths, Ivy Cottage, Bethel (190); 9, £5: Mrs Gwyneth Price, Llys y Gwynt, Seion, Llanddeiniolen (94).

AR WERTH
CYFRIFIADUR BBC MASTER
disg yrrwr, monitor, argraffydd a llawer o feddalwedd — £450.
Ffôn: Caernarfon 77263

Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277

Am groeso cartrefol Cymreig bob amser
Aneuryn a Jeanette Jones a'r staff

Am waith
PEINTIO, ADDURNO
a mân atgyweirio oddi mewn neu tu allan am bris rhesymol
cysylltir ag
ERIC JONES
17 BRYN TIRION
PENISARWAUN
Ffôn: LLANBERIS 872421

CWM-Y-GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: 872275

Llongyfarchiadau i Caren, Glanbogelyn ar gyrraedd ei phenblwydd yn 18 oed.

Hefyd â Mrs E. Evans, Gwylfa, ar achlysur ei phenblwydd yn 90 oed.

Gwellhad buan: Dymunwn wellhad llwyr a buan i Mr Evan Owen (Talgwynedd gynt) ar ôl derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

Marwolaeth: Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd, ddydd Gwener, 15 Mawrth, yn 79 oed, bu farw Mrs Catherine Williams, 5 Dôl Afon. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'r plant, Sidney, Gwilym a Hefin a'r teulu yn eu profedigaeth a'u hiraeth.

Diolch: Dymuna Sidney, Gwilym, Hefin, Margaret, Gwerddwyn, Derfel ac Ifor ddiolch o galon i'w ffrindiau a'u cymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd yn eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl, diolch yn arbennig i Mrs Megan Jones, Mrs Bessie Pritchard a Mrs Elizabeth Hughes, hefyd i staff a meddygon Ward Hebog, Ysbyty Gwynedd ac i'r meddygon teulu.

Llongyfarchiadau i Michael Roberts, 18 Dôl Afon, ar ei ddyweddiad â Nesta Griffiths, Eirianallt, Waunfawr. Ymddiheurwn am y camgymeriad yn y rhifyn diwethaf o'r *Eco* ynglŷn ag enw Nesta, ac am unrhyw bryder a achoswyd oherwydd hyn.

Undeb y Mamau: Gweinyddwyd y Cymun Bendigaid yn Eglwys Sant Mihangel, Llanrug, gan y Parch Peter Pritchard, nos Iau, 7 Mawrth. Ar ôl y gwasanaeth trafodwyd rhai materion yn Hafan Elan. Cafwyd adroddiad gan Mrs Enid Taylor am y pwyllgor a gynhaliwyd ym Mangor ar 4 Mawrth. Cafwyd adroddiad gan y trysorydd, Mrs G. Roberts, nad oedd trefn presennol o drin arian y gangen yn foddhaol, a phasiwyd i droi yn ôl i'r hen drefn. Cafwyd rhoddion ariannol at gronfa'r faner newydd gan Mrs Edwards, Mrs Pierce a Mrs Jones, Lyndale. Yn gofalu am y baned yr oedd Mrs J. Williams, Mrs C. Jones a Mrs. Jones, Lyndale, a diolchwyd iddynt gan Mrs G. Roberts. Terfynwyd y cyfarfod trwy weddi gan y Rheithor. Bydd y cyfarfod nesaf yn yr Ysgol Gymuned, nos Fawrth, 9 Ebrill.

Clwb Pobl y Cwm: Ar 21 Chwefror estynodd Mr Ll. Hughes, y llywydd, groeso cynnes i'n gwraig wadd, Mrs Mary Vaughan Jones, Waunfawr, sydd bob amser mor barod i roi o'i hamser i ddod atom. Gan amlaf mynd ar grwydr y byddwn yng nghwmni Mrs Jones ac i Dde'r Affrig y bu'r daith y tro hwn. Bu hi ar wyliau yno yn ystod yr haf, gan dreulio peth amser yn Lesotho a chael yno gwmni y ferch ieuanc, Miss Nan Wyn o'r Waunfawr, buom ninnau yn eu dilyn o le i le, cyfle i weld y wlad a chwrdd â rhai o'r brodorion. Bu Mrs Jones yn 'Pilgrim's Rest', gan obeithio cael cwrdd â Mr Michael Owen, gynt o Lwyncoed, Cwm y Glo, ond yn anffodus nid oedd ef gartref ar y pryd.

Fel bob amser cawsom egwyl hyfryd yng nghwmni Mrs Jones, roedd yn werth gweld y darluniau a dysgu llawer o ddilyn ei thaith. Diolchodd Mr R. H. Parry iddi am bnawn difyr iawn. Rhoddwyd y baned a'r raffl gan Mrs K. Watkins a Mrs G. Chick. Enillwyd y raffl gan Miss Elizabeth Hughes.

Oherwydd gwaeledd methodd ein llywydd, Mr Llew Hughes, a bod yn bresennol, ac mae amryw eraill yn cwyno yn ogystal. Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau i bawb ohonynt, a brysiwch yn ôl i'r Clwb.

Daeth un o drigolion prysuraf y fro i'r Clwb ar 7 Mawrth, sef y Parch Gwynfor Williams, Llanberis, ac am daith hyfryd a gwahanol yr aeth yntau a ni. Trwy gymorth darluniau, cawsom gychwyn gyda'r cwmni bach o Lanberis i'w llety yn Oberammergau, ac yno y buom yn dilyn y Pasiant ar ei hyd.

Trwy ddisgrifiadau byw Mr Williams, a'r darluniau godidog, cawsom ymuno yng ngwir ysbryd a naws y Ddrama Fawr, a chael y profiad inni fod yn wir gyfranogion. Bu yn brofiad dwys yn wir, a ninnau'n cyfaddef y gallasem yn hawdd wylo wrth droed y Groes, fel y gwragedd gynt.

Diolchodd Mrs G. Chick i Mr Williams am brofiad hyfryd, ac am roi o'i amser prin i'r Clwb. Y westwraig a rhoddwr y raffl oedd Mrs Mair Parry, a Mrs E. M. Jones a enillodd y raffl.

Cyfarchion o Ysgol Cwm-y-Glo

Mis diwethaf y plant oedd yn sâl. Tro Mrs Williams fuodd hi'r mis yma. Erbyn hyn, diolch i'r drefn, mae'r antibaiotics wedi gweithio a Mrs Williams eto'n holliach.

Mae Nia Hughes, sy'n galw yma bob dydd Mercher, wedi mynd i Ffrainc am fis. Braf 'te. Pan ddaw yn ôl cawn yr hanes i gyd.

Bu plant dosbarth 3 a 4 yn llwyddiannus yn eu prawf Medrusrwydd Beiciau. Da iawn bob un ohonoch a diolch i Mr Dafydd Edwards am ei amynedd a'i hyfforddiant.

Plant dosbarth 3 a 4 hefyd oedd yn gyfrifol am y Gwasanaeth Dydd Gŵyl Dewi. Cafwyd gwasanaeth hyfryd a hwnnw o naws arbennig iawn. Diolch iddynt am eu cyfraniad.

Diolch hefyd i Glwb y Graig am eu haelioni a'u rhodd. Mae'n braf gwybod fod gennym gystal ffrindiau.

Cafodd plant dosbarth 4 gyfle i ymweld â Ysgol Brynrefail yn ystod y mis. Pawb wedi mwynhau eu hunain — a neb wedi mynd ar goll!! Maent i gyd yn edrych ymlaen at fis Medi er mwyn cael mynd yno bob dydd.

Ar 13 Mawrth daeth mrs Ibbott o Fangor at ddosbarth 1 a 2 i egluro a dangos y grefft o wehyddu. Treuliwyd bore difyr yn ei chwmni a diolch i Mrs Jones am drefnu.

Rŵan, a wythnos olaf y tymor yn prysur fynd i lawr allt, rhaid eich gadael. Mwynhewch y gwyliau — a dim gormod o wyau Pasg. Cadwch un i mi, plîs.

O.N.—Cofiwch fod gan Alwyn Pleming (ex. Ysgol Brynrefail) ddrama yn Theatr Fach, Llangefni, yn dechrau ar 8 Ebrill. Mae'n werth ei gweld — mae 'iwyrs trwli' ymysg y cast!

BRYNREFAIL

Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

Hospis yn y Cartref: Fel mae'n wybyddus i nifer ohonom, sefydlwyd Cymdeithas yng Ngwynedd yn ddiweddar i gynorthwyo'r cleifion hynny sy'n dioddef o afiechydon cronig drwy estyn cysur a chymorth parhaol iddynt yn eu cartrefi. Daeth cais trwy law un o'r trefnyddion i ni fel pentrefwyr wneud ein rhan i helpu'r achos teilwng hwn. Bydd cyfarfod i'r pwrpas yn y Festri, nos Lun, 8 Ebrill am 6.30 o'r gloch. Taer erfynnir am gefnogaeth os gwelwch yn dda.

Antur Padarn: Yn ystod y dyddiau hyn bydd nifer o gartrefi yn y pentref yn derbyn Holiadur a ddosberthir dan nawdd y Gymdeithas uchod. Mae hyn yn rhan o drefniant a wneir mewn pymtheg o bentrefi'r fro. Bydd yr Holiadur yn cyrraedd traean o gartrefi'r pentref, sef 39 o dai, a ddewiswyd drwy system gyfrifiadurol. Bydd canlyniad yr archwiliad yn adlewyrchu anghenion cymdeithas sy'n newid o fewn ein bro, ac o fudd yn ogystal i bob pentref yn unigol i gynllunio ar gyfer y dyfodol.

Gwelliannau: Yn ystod y mis gweithredwyd rhan o gynllun a noddir gan yr WDA i wella golwg y pentref. Cafodd ffyrdd Bryn Parc, Rhes Orwig a'r Felin eu hail-wynebu a thwtio'r safle ger Pont Caledffrwd. Fel rhan o'r cynllun hefyd fe blennir coed gyda'r ffordd osgoi, ar safle'r Cae Chwarae ac yng nghyffiniau Pont yr Injan ynghyd â gosod seddau mewn mannau delfrydol.

Sefydliad y Merched: Yn ystod yr wythnosau diwethaf bu nifer o weithgareddau gerbron yr aelodau. Cafwyd ymweliad ag Oriel Eryri ar 18 Chwefror i Arddangosfa Dathlu 75 mlynedd Sefydliad y Merched ac ar 1 Mawrth dathlwyd Gŵyl Ddewi â chinio yng Ngwesty Padarn Lake yng nghwmni Mr Arwel Jones, Penisarwaun, pryd y cafwyd sgwrs ddiddorol ganddo am gefndir rhai o ganeuon 'Hogia'r Wyddfa'. Ar hyn o bryd mae'r aelodau'n brysur yn paratoi ar gyfer tri achlysur arall, sef cystadlaethau 'Cwpan Rhosynnau' ar y thema 'Celtica', cacen yn arddangos crefft siwgwr, cynllunio cerdyn cyfarch a gosodiad blodau ar thema nofel a gynhelir yn Neuadd Groeslon ar 20 Mai. Eisteddfod Grŵp Gwyrfai pryd y bydd nifer o'r aelodau yn cystadlu nos Wener, 12 Ebrill ac yn arbennig ddathlu hanner can mlwyddiant Sefydliad y Merched Brynrefail ar 27 Mai, pryd y gwahoddir Swyddogion Sirol y Sefydliad ynghyd â chyn-aelodau. Cynhaliwyd cyfarfod mis Mawrth o'r gangen nos Lun y 18fed. Croesawyd Mr Glyn Tomos, Dinorwig, i'r cyfarfod i roi amlinelliad o amcanion Antur Padarn. Diolchwyd iddo gan y llywydd Mrs Pat Jones. Anfonwyd cofion at Mrs Mair Jones na fu'n dda ei hiechyd yn ddiweddar a chydymdeimlwyd â dwy o'r aelodau a fu mewn profedigaeth yn ddiweddar, sef Mrs Mai Parry a Mrs Jennie Hughes. Paratowyd y lluniaeth gan Mrs Jennie Roberts a Mrs Jennie Hughes. Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun, 15 Ebrill.

TAN Y COED

Bethan Parry, Ael y Bryn. Ffôn: 872276

I'r ysbyty: Aethpwyd a Miss Megan Humphreys, gohebydd cyntaf yr *Eco* yn ardal Tanycoed, i'r ysbyty ar 14 Mawrth. Da deall ei bod yn gwella. Dymunwn adferiad buan iddi ac i Mrs Jennie Hughes, Oerddwr, ar ôl triniaeth yn Ysbyty Gobowen.

Llongyfarchiadau: Anfonwn ein llongyfarchiadau i Mrs Janice Limerick, Ty'n Llwyn ar ei dewis yn fyfyrwraig y flwyddyn yng Ngholeg Llandrillo.

Diolch: Dymuna Bethan a Dylan ddiolch am yr anrhegion, arian a chardiau a gawsant ar achlysur eu priodas y mis diwethaf.

FEDRWCH CHI GYNNIG LLETY

Mae'r Coleg wrthi'n paratoi rhestr o dai, fflatiau ac ystafelloedd i fyfyrwyr erbyn Medi 1991.

Os oes gennych chi rywle i'w gynnig cysylltwch ar unwaith â Gladys Humphreys ar Bangor 370171.

- Jig i Atgyweirio Cyrff
- Tiwnio Crypton
- MOT
- Ail-Sbreo
- Tracio
- Balansio Olwynion
- Gwasanaethu
- Cymysgu Paent
- Gwerthu Ceir Newydd ac Ail-law
- Partiau Renault
- Petrol ESSO a DERV
- Sigarennau a Melysion
- Calor Gas

PRIF GYNRYCHIOLWYR SEAT YNG NGWYNEDD

Perchennog: E.P. Hughes

MODURDY DOLYDD

GROESLON Ffôn: Llanwnda 830562

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr

Cronfa Canolfan Waunfawr: Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Chwefror — 1, £40: Mrs Nan Roberts, Pant Afon; 2, £25: Mr F. Buckley, 4 Croes-y-waun; 3, £10: Mr E. Pierce, Bryngwyn.

Merched y Wawr: Bu'r aelodau yn dathlu Gŵyl Ddewi ar nos lau, 28 Chwefror. Paratowyd y bwyd blasus gan Beryl Jones, Alma Jones a Glenys Williams. Mwynhaodd pawb y cyfle i ymlacio a chael sgwrs. Diolchodd y llywydd i bawb a fu'n gyfrifol am yr holl baratoi. Rhoddwyd y raffl gan Llinos Cadwaladr a'r enillydd oedd Gill Brown. Cyhelir y cyfarfod nesaf ar nos lau, 28 Mawrth, yng nghwmni Mrs Mary Vaughan Jones gyda'i sleidiau o Dde Affrica.

Y Gymdeithas Lenyddol: Daeth tymor llwyddiannus y Gymdeithas i ben nos Lun, 4 Mawrth, pan y cafwyd sgwrs gan Mr Guto Roberts, Capel Uchaf, ar fywyd a llenyddiaeth Syr T. H. Parry-Williams. Llywyddwyd gan Mr Alun Williams, Bro Waun, a chyfeiliwyd i ganu Emyn Dewi Sant gan Mrs Catherine A. Jones. Talwyd y diolchiadau gan Mr J. Ifor Hughes, Caeathro a Mr R. Gwynn Davies. Bydd y trip gyda'r nos yn ystod mis Mehefin a chyhoeddir y manylion yn yr *Eco* gyda hyn. Y tymor hwn eto 'roedd dros 80 wedi ymuno â'r Gymdeithas, ffith sydd wedi ysgogi'r trefnyddion i gario 'mlaen gan fod sibrydion eu bod am roi gorau i'r gwaith.

Yr Urdd: Llongyfarchiadau i'r canlynol a fu'n llwyddiannus yn yr eistddfodau bro a rhanbarth yn ddiweddar — **Rhanbarth 15-19 oed:** Elin Gwilym, Llidiart Wen, cyntaf am adrodd a siarad cyhoeddus. **Rhanbarth 12-15 oed:** Ensemble (Elain, Ffion, Llio, Kristy a Bethan), cyntaf, o dan hyfforddiant Mrs Maceanruig. Unawd chwythbrennau: Kailey Jones, Cynefin, trydydd; **Eisteddfod Bro dan 12:** Cafwyd y wobr gyntaf gan y Parti Recorders (Mannon, Gareth, Ian, Heledd, Siân ac Emma) o dan hyfforddiant Mrs Ann Marston. Yn anffodus, oherwydd amgylchiadau arbennig ni fydd hi'n bosibl i'r parti fynd ymlaen i Eisteddfod y Sir. Unawd chwythbrennau: 1, Ian; 2, Heledd; 3, Mannon. Parti Canu: 3, gyda Gina Keller yn hyfforddi a Catrin yn cyfeilio. Cyd-adrodd: 3, o dan hyfforddiant Alma Jones. Dawnsio Gwerin: 3, o dan hyfforddiant Sioned Glyn, gyda Gina yn cyfeilio. Hwyl fawr i Elin a chriw'r ensemble pan fyddant yn cystadlu yn y Genedlaethol draw yn Nhaf Elai ym mis Mai.

Elin Gwilym gyda'i thystysgrifau.
(Tynnwyd nifer o luniau eraill ond yn anffodus nid oedd yn bosib eu hatgynhyrchu — Gol.)

Llongyfarchiadau hefyd i dîm pêl-droed yr Urdd a fu'n llwyddiannus yn eu gêm ddiweddar yn erbyn Penisarwaun, gan guro 5-0.

Dymunwn yn dda i'r plant o'r pentref fydd yn ymweld â Gwersyll Glanllyn yn ystod mis Ebrill. Diolch hefyd i Gwennan a Nia Llwyd am fynd yno i helpu i gadw trefn arnynt!

Fe gynhelir Mabolgampau'r Cylch dan 12 oed nos Lun, 13 Mai ar gaeau Ysgol Syr Hugh Owen. Os bydd y tywydd yn anffafriol, fe'i cynhelir ar y noson ganlynol. Trefnir noson i ddewis cynrychiolwyr o'r pentref yn y cystadlaethau — cewch ragor o fanylion am hyn yn yr ysgol.

Roedd yr aelodau angen llawer o egni yn y tri cyfarfod olaf i chwarae rownderi gyda Anti Carys ac Anti Christine; i symud yn y chwaraeon yng nghwmni un o weithwyr yr Urdd ac yn y disgo swnllyd yng nghwmni'r grwp 'Dychymyg'. Ar ddiwedd y tymor dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb a fu'n ymweld â'r adran yn ystod y tymor. Bydd cyfarfodydd yr Urdd yn ail gychwyn ym mis Medi.

Croeso adref: Braf iawn yw gweld Gwyn Thomas, Treforfan, yn ôl yn ein mysg yn ddiogel ar ôl iddo orfod treulio dau fis yn y Gwlff — croeso adref iti Gwyn.

Dymuna Gwyn ddiolch i'w deulu, cymdogion a ffrindiau am y llythyrau a'r parseli a dderbyniodd tra yn y Gwlff ac hefyd am yr holl gardiau a charedigrwydd a gafodd ar ôl dod adref.

Diolch: Dymuna Marian W. Jones, Foel, Dôl Erddi, ddiolch o galon i'w theulu a'i chyfeillion am eu caredigrwydd tra bu yn Ysbyty Gwynedd. Diolch i Mr D. Griffith a Miss K. Roberts, Tref Eilian am eu gofal o'r tŷ a'r cathod.

Diolch: Dymuna John Elwyn Roberts, Glaslyn, Bro Waun, ddiolch i'w ffrindiau a chyfeillion am yr anrhegion a'r cardiau a dderbyniodd tra bu yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref. Diolch yn fawr iawn.

Llongyfarchiadau:

— i Gordon a Mona Roscoe, Tŷ Ni, ar ddod yn daid a nain. Ganwyd mab bach, Danny Wyn i'w mherch Sandra a'i gŵr Nigel, ac i Mrs J. Roberts, 2 Dôl Erddi ar fod yn hen nain i'r bychan.

— i Denise a Terrance, 9 Dôl Erddi ar enedigaeth merch fach, Tamsin, chwaer fach i Lesley ac wyres fach i Angela a Gwilym Parry, Bryn Golau.

— i Elwyn ac Eirian, 2 Ael-y-Bryn ar enedigaeth merch fach, Caryl, chwaer fach i Dilwyn, Diane ac Elen, ac wyres fach i Mrs Helen Jones, Dôl Erddi. Daeth Mrs Helen Jones yn nain am yr ail waith yn ystod y mis pan anwyd merch fach Annest Gwynedd i'w mab Llifon a'i wraig Delyth, chwaer fach i Eilian Gwynedd.

Yn yr ysbyty: Anfonwn ein cofion at Mrs Annie Williams, Drws-y-Nant, Dôl Erddi sydd yn Ysbyty Eryri.

Adref o'r ysbyty: Croesawn Mrs Morris Lewis, Tŷ Newydd, Mrs Sulwen Lewis, Bryn Golau a Marc Greasley, Stad Tŷ Hen, adref o'r ysbyty, gobeithio eich bod yn dal i wella.

Cydymdeimlo:

Anfonwn ein cydymdeimlad dwys at Nerys, Iola ac Eilian, Bron Eifion, yn eu profedigaeth o golli eu mam, ac â Robert Hefin Jones, Glyn Afon, a Mr John Jones, Hafod y Rhug yn eu profedigaeth o golli eu chwaer.

— Cydymdeimlwn â Mrs M. Jones, Pant Cae Haidd yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer, Miss Roberts, Glan Aber.

— â Mrs Anne Marston, Blaen y Nant yn ei phrofedigaeth o golli ei mam.

— â Mr Harry Griffith, Llys Helen, yntau hefyd wedi colli ei fam.

YR AWR DDRUD

(Yn hanes un dreifar lori MANWEB o Lanberis)

Os ewch ddydd Llun i 'Stiniog
Cewch ddiwrnod digon ffein,
Y merched wrthi'n brysur
'N rhoi dillad ar y lein,
A'r gweddill wrthi'n dawel
Yn gweithio heb ddim ffŷs
Yn siopwrs a mecanics,
Athrawon, dreifars bws.

I'r Blaena' y daeth lori—
Un MANWEB-fawr a phlaen,
Bu'n galw yn siop y cwmni
Do, lawer tro o'r blaen;
Ac Oliver y dreifar
A wagiodd gynnwys hon—
Yn stôfs, a frij a thostars
—Pob un yn newydd sbon.

Fe barciodd 'n ôl ei arfer,
Gan anwybyddu'r *sign*
A ddwedai'n glir fod yno
Y *double yellow line*;
Ac wedi gwagio'r lori
Yn bwyllog a sidêt,
Am banad i ryw giaffi
Aeth Oliver a'i fêt.

A'r ddau o hogia MANWEB
O'r ciaffi ddaethant toc,
Ond! hogia bach, 'r wy'n deall
Fe gawsant ddiawl o sioc.
'Roedd nodyn ar y *windscreen*
Yn gwadd 'r hen Oli'n gloi
I alw 'n y *Police Station*
Y Blaena' heb ymdroi.

Ac yno fe'i cyhuddwyd
I'w lori fod am awr
Yn anwybyddu cyfraith
Di-ysgog Prydain Fawr!
A'r ffein am barcio'r lori
Ar ddiarwybod hynt
A gafodd yr hen Oli —
Oedd un-ar-bymtheg punt.

Gyfeillion, cydymdeimlwn
Ac Oliver, wrth gwrs —
Yn dlotach o gryn dipyn
Yn awr mae o a'i bwrs.
Os eto'r aiff i 'Stiniog
Boed wynt neu law neu ffein,
Gobeithio y bydd o'n parchu
Y *double yellow line.*

UN O'R 'VIC'

RHODDION

£10: Ralph a Laura Lewis, Deiniolen, er cof am Geraint.

£5: Marian Wyn Jones, Y Foel, Dôl Erddi, Waunfawr; Mr a Mrs John Elwyn Roberts, Glaslyn, Bro Waun, Waunfawr; Teulu Treforfan, Waunfawr; Mrs G. M. Jones, Dalar Deg, Llanrug; Alun Roberts, 13 Maes Gwylfa, Deiniolen.

£3: Mr a Mrs R. Jones, 8 Rhos Rug, Llanrug; Mr J. Grindley, 12 Pentre Helen, Deiniolen.

£2: Mrs Betty Jones, Tan y Buarth Uchaf, Dinorwig; Ian Wyn Parry, Gwynant, Llanrug; Alun Wyn Evans, Deiniolen.

£1: Mrs Betty Peris Roberts, 11 Maes Eilian, Dinorwig.

Emyr Jones
PLYMAR A PHEIRIANNYDD GWRESOGI
Cynnal Boileri nwy, olew, tanwydd solat a thredio peipiau
44 Glanffynnon
LLANRUG
Caernarfon 3513

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR
AR AGOR 9-7pm
9-5pm Sadwrn
AR GAU SUL, MERCHER.

DEWIS EANG O WELYAU SENGL A DWBL
DEWIS EANG O '3 PEICE SUITES'
LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'
GWAITH CONTRACT
5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI MEWN STOC – ALLWCH CHI FFORDDIO PRYNU O BATRYMAU?
Rhif Ffôn y Siop yn ystod oriau agor:
WAUNFAWR 291

BRYN
(B & K Williams)
Hen Ysgol Glanmoelyn
LLANRUG
Ffôn 77482 (dydd)
870793 (nos)
Gwneuthurwyr Ffenestri, Drysau, Grisiau neu unrhyw fath o gynnyrch coed. Y coed meddal wedi derbyn triniaeth arbennig i wneud iddynt bara.

Pob Twll a Chongl

Y Gwalch

Darllenais unwaith mai'r brentisiaeth orau i efrydydd seicoleg yw treulio dwy flynedd yn gweithio mewn swyddfa arwerthwr, ac yn ôl fy nghof am y cyfnod a dreuliais yn y swydd honno, dydy'r honiad ddim ymhell o'i le.

Roedd rhywun yn cyfarfod â phobl o bob dosbarth a chyflwr — mewn llwyddiant, colled, siom, llawenydd a phrofedigaeth — a thrachwant. Ac yr oedd rhywun ar ei waethaf yn cael ei dynnu i mewn i fod yn gynghorwr a thad gyffeswr i unigolion hollol ddieithr.

Roedd hi hefyd yn angenrheidiol cydweithio â chriw arall ar wahân; gwasanaeth pa rai oedd yn hanfodol i lwyddiant y busnes yn gyffredinol; y cludwyr dodrefn a gwartheg, a'r gyrrwyr anifeiliaid. Rhain oedd fy ffefrynnau. Roeddent i gyd serch eu hamrywiaeth liwgar, eto yn nodweddiadol o'u hardaloedd eu hunain.

Roedd yna ddrofars penodedig ar gyfer pob canolfan werthu; Sam Mellteyrn, Bryncir a Chaernarfon, ond y rhai mwya hwyliog a mentrus oedd hogiau Llangefni a Llanerchymedd: Sioni, William Morus, Jac Llangefni a Dic Moelfra. Heblaw bod yn gefn mewn argyfwng, roedden nhw hefyd yn gynghorwyr, yn arbenigwyr ar faterion caru ac eiddo coll, ac yn bobl yr oedd dyn ar adegau yn rhoi ei fywyd yn eu dwylo yn llythrenol.

Heblaw gyrru gwartheg i mewn ac allan o'r cylch gwerthu, roeddent hefyd yn gyfrifol am eu hebrwng i'r orsaf agosaf i'w trycio ar y trên ar gyfer eu cludo i laddai yn Lloegr. Yn y gaeaf pan fyddai'r gwaith yn ymestyn i'r oriau tywyll, byddai'n rhaid iddynt wrth lanteri i weld eu llwybr, ac uchel fyddai'r gweiddi a'r bygythiadau. Roedd ganddynt wn a phastynnau, ond er hynny a'r holl redeg, byddai rhai anifeiliaid yn mynu mynd yn groes i'r conglau mwya anhebygol yn eu gwylltineb, ac hyd yn oed i mewn i dai y rhai oedd wedi bod mor anoeth â gadael eu drysau yn agored ar ddyfodiad yr yrfa. Aeth bustach unwaith yn sownd mewn mynedfa rhwng y gegin a'r drws mewn tŷ ym Mhen 'Rallt, Caernarfon. Ac yn y dref honno y gwelais i'r syrcas fwyaf cofiadwy wrth yrru anifeiliaid, a hynny hefo defaid.

Roedd Dic Moelfra am ryw reswm, wedi ei alw ar y tir mawr i Gaernarfon hefo'i gi Toss i yrru gyrr o ŵyn tewion o'r mart ar ffordd Pwllheli, ar draws y Maes i'r lladd-dy ar lan y Fenai. Roedd hi'n arferiad i'r clerc gerdded i lawr hefo'r yrfa, a'r diwrnod hwnnw roeddwn i'n mynd ar y blaen fel pibydd Hamelin ar hyd y ffordd gefn, ac yr oedd popeth yn mynd yn rhwydd nes i ni gyrraedd y Post Mawr a'r hen Jays, y siop ddodrefn.

Tagodd y ddiadell yn y fan honno o glawdd i glawdd, y tu ôl i rhyw fan fawr a oedd yn dadlwytho. Roedd y ci yn chwanog i bob ystryw, hyd yn oed rhedeg ar hyd eu cefnau, ond nid oedd perswadio arnynt. Yn y diwedd, rhuthrodd rhai o'r ŵyn i mewn i Jays, a neidiodd un ar ben bwrdd a wynebai tua chan troedfedd sgwâr o wydr ffenest. Aeth y ci i mewn ar ei ôl. Neidiodd yr oen yn gam gan lanio ar setî, a chwalodd y gweddill o'i gymdeithion allan i'r stryd yn eu holau.

Yna dechreuodd yr helfa. Yr oedd yr oen yn prancio i fyny ac i lawr cadeiriau esmwyth a chypyrddau. Ceisiodd Dic, a oedd erbyn hyn yn y siop, gael gafael ynddo fel taclwr rygbi, ond camamserodd ei ymosodiad, a glaniodd wrth draed un o ferched y siop. Pan gododd, roedd wedi rhwygo penglin ei drowsus. Ond tynnodd yr oen ei Nemesis arno ef ei hun. Neidiodd mewn afiaeth i ganol llenni trymion, a syrthiodd rheiny ar ei gefn a'i rwydo, fel ymladdwr mewn cemaes Rhufeinig.

Roedd un ferch ifanc erbyn hyn yn chwerthin mewn sterics, a'r rheolwr yn mwmial paderau i'w ddyrnau. Ond buan y trôdd ei ollyngdod yn gynddaredd. Tywalltodd gynnwys ei holl iau ar Dic a'r ci a'r cwmni arwerthu. Yna daeth i'r drws i ddechrau arnaf i. Dymunai i mi ddweud wrth fy nghyflogwr y golygai lafur ac arian i gymhenu'r lle a gwneud iddo edrych yn fuddiol i dderbyn cwsmeriaid. Golygai ail osod y llenni, talu i arbenigwr, ac aeth ymlaen i fytheirio nes tynnu Dic i'r ddadl, a dywedodd hwnnw wrtho na fuasai holl gynnwys y lle yn costio llawer. Awgrymodd wrth y dorf a oedd erbyn hynny wedi ymgasglu y tu allan, mai pethau wedi eu gwneud allan o hen flychau orenjis oedd y rhan fwyaf o'r dodrefn — doj i dwyllo cyplau ifanc oedd yn dechrau byw. A pheth arall; ddylai dyn felly ddim bod yn rheolwr siop os nad oedd ganddo'r synnwyr i gadw'r blydi drws yng nghau. A sôn am lenni wedi rhwygo — ble roedd y rheolwr yn feddwl y cai o drowsus? Ar goedan 'fala ma'n siŵr, ac un peth a'r llall . . .

Ond roedd yr ŵyn yn gallach; doeddan nhw ddim am aros i wrando ar y ddadl. Pan y darfu i ni ail gofio amdanynt, dyna lle'r oeddan nhw yn mynd yn rhes am y castall ac i lawr am yr Abar.

Cofio — a diolch

Wn i ddim os ydi o'n beth arferol i rywun roi gair o goffhâd am berthynas, ond wir, allaf i ddim peidio a gofyn am gornel fach o'r *Eco* (a anfonodd i mi mor gyson), i roi teyrnged fechan i 'William', W. A. Jones o'r Dalar Deg, Llanrug, a fu'n gymaint o gefn i mi ers dros ugain mlynedd bellach.

'Doeddwn i ddim yn gwybod dim amdano'n flaenorol. Ond wedi gweld rhaglen deledu gan Alun Williams ar ôl iddo fod yma efo'r chwaraewyr rygbi yn 1968, mi sgwennodd lythyr ata fi yn cyflwyno ei hun i mi ac yn rhoi gwahoddiad cynnes i mi i'w gartre os byth yr awn i Gymru.

A phan ddaeth y cyfle hwnnw, ato fo yr anfonais innau i gael cyfarwyddyd beth i'w wneud a sut i gyrraedd yno.

Wedi glanio yn y maes awyr yn Llundain a chael cyrraedd i ganol y ddinas, cymryd tacsi i Euston a thrên o'r fan honno i Fangor. Ffonio wedyn, a chlywed Gwladys yn galw, 'Mae hi wedi dod, William'. Fonta'n dod wedyn a dweud y byddent yn stesion Bangor cyn pen hanner awr.

Felly y bu hi. A dyna ddechrau'r cyfeillgarwch dwfn rhyngom ein tri. Mi gefais gartre oddi cartre yno, a chrwydro Cymru, adnabod lleoedd a phobol oeddwn i wedi ddymuno weld. Mynd i'r de hefyd, i Gaerdydd ac i Abertawe. Bu fel agor drws ac yn agoriad llygaid i mi.

Ac wedyn, trwy'r blynyddoedd, ei gynghorion doeth a'i arweiniad sicr bob amser wrth law.

Cefnder i fy nhad oedd o mewn gwirionedd. Fy nhad yn fab i'r hynnaf o feibion Tŷ Mawr, Clwt y Bont, a William yn fab i'r ieuengaf, 'Uncl Gits'. A gyda llaw, 'Uncle Gits' a wnaeth fy nhad yn Gymro, drwy anfon y rhifyn cyntaf o 'Gymru'r Plant' iddo. Cyn hynny dim ond Saesneg a ddarllenai, er ei fod yn siarad Cymraeg yn rhugl. Oes felly oedd hi.

Gweithred fach efallai, ond onibai am hyn, prin y byddwn innau erioed wedi 'sgwennu Cymraeg 'chwaith.

Oes, mae hiraeth arnaf am 'William'. Fydd Cymru ddim 'run fath i mi rywsut hebddo fo.

Diolch fod yr atgof amdano yn para a'i gariad dwfn at Gymru yn ein hysbrydoli o hyd i hyrwyddo yr hyn oedd mor agos at ei galon.

Ei gyfneither o Batagonia,
IRMA

Anfonwyd y cofiant a'r deyrnged hon i'r *Eco* yr holl ffordd o Batagonia. Yr awdures yw Irma Hughes de Jones. Hi yw golygydd papur bro'r Wladfa — 'Y Drafod', ac y mae wedi ennill niferoedd o weithiau yn eisteddfodau'r Wladfa ac yn ein Heisteddfod Genedlaethol. Y llynedd cyhoeddwyd 'Edau Gyfrodedd' casgliad o'i gwaith wedi eu golygu gan Cathrin Williams o'r Coleg Normal, Bangor (sydd ar hyn o bryd yn treulio blwyddyn ym Mhatagonia).

Ei nain o ochr ei thad oedd Gwyneth Vaughan yr awdures, a'i thad, Arthur Hughes yn ŵr galluog hefyd, ac yn gyfrifol am gyhoeddi 'Cywyddau Cymru'.

Gwaith Teipio?
Angen Ysgrifenyddes i deipio sgriptiau, llythyrau, eich cofiant hyd yn oed!?
Ffoniwch ar fyrder
Caernarfon 4339

CHIROPODIST
Gwasanaeth yn eich Cartref
E. Ll. Parry
M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.
57 Glanffynnon
LLANRUG
Ffôn:
Caernarfon
5754

SIOP
Nwyddau Gardd
Cynnyrch Cartref
Crefftwaith

CANOLFAN GARDDIO
Blodau, Grug
Alpau, Perthi

ANTUR WAUNFAWR
Ffôn:Waunfawr 721

Cynnal a Chadw Gerddi
Cynnal a Chadw
Plannu Coed

Meinciau Concrid a Phren
Planters Concrid a Phren
Corachod

Cofio Mary Lloyd Williams
(Mari Lewis)

Yr un fyddai'r drefn bob mis. Amlen lwyd gyda'r geiriau, 'Golygydd Erthyglau Eco'r Wyddfa', gydag enw a chyfeiriad llawn yn dilyn. Fyddai yna byth stamp arno — doedd hi ond yn byw ddau ddrws tŷ a chapel i ffwrdd; hanner canllath ar y mwyaf, ac fe gerddai i'n tŷ ni i drosglwyddo'i cholofn fisol 'Agor Ffiniau'r Gorffennol'. Anaml y byddai'n rhaid iddi guro'r drws; byddai rhywun o'r teulu yn siwr o'i gweld yn chwifio'i llaw yn y ffenestr ffrynt — a galw ar dad — oherwydd gwyddai pawb bellach fod rhyw batrwm ynglŷn â throsglwyddo'r golofn i'r golygydd. Bron nad aeth yn seremoni. Cyflwyno'r amlen, a chyn i mi gael diolch — ei hawlio'n ôl a'i hagor, a thrafod y cynnwys am y mis arbennig hwnnw. A sgwrs stepan drws fyddai bob tro, yn canmol y rhifyn diwethaf ac yn holi ynglŷn â'r ymateb i'w gynnwys. Bu ei cholofn yn rhedeg yn ddi-dor o Dachwedd 1976 hyd Fawrth eleni — 158 o gyfraniadau. Dyna record go dda i unrhyw bapur bro, ond un sy'n ymddangos yn fychan iawn o'i chymharu â'r toreth o gynnyrch a anfonodd i ddalennau'r *Herald* — hynny'n wythnosol am 61 o flynyddoedd. Cymwynas i genedlaethau o ddarllenwyr Cymraeg.

Ac ar bnawn Mawrth gwyntog a ias o oerni yn yr aer y llanwyd capel bychan Pontrhythallt i dalu'r gymwynas olaf iddi hithau. Bu'r capel yn agos iawn i'w chalon, a bu'n aelod gyda'r achos ym Mhontrhythallt o'i gychwyniad. Arferai adrodd fod ganddi gof plentyn o'r gweithwyr yn adeiladu'r capel — a hynny ar libart ei chartref bron. Yma y cafodd ei bedyddio — ddwywaith! — a'r eildro yn yr afon fach a lifai wrth dalcen y capel; ac mor hoff oedd hi o adrodd hanes yr ail fedydd.

Roedd ganddi ddawn i ddweud stori, a hynny'n aml gyda rhyw hiwmor cynnil. Meddai gof arbennig o dda, a gallai adrodd penillion, emynau ac englynion di-ri, yn enwedig englynion ei thad, Glan Rhyddallt, a fu hefyd yn golofnydd cyson i'r *Herald*. Hannai un gangen o'r teulu o ardal y Clegir, y tir creigiog llwm ar lethrau'r Cefn Du, rhwng Llanrug a Llanberis. Un o'r hanesion a roi bleser iddi oedd stori'r cyfarfod gweddi arbennig a gynhaliwyd yng nghapel y Clegir yn ystod haf eithriadol o sych. Penderfynwyd cael cwrdd i weddio am law, ac yn ôl Mari Lewis, cymaint oedd ffydd yr aelodau mewn gweddi nes iddynt fynd ag ambarel gyda hwy i'r capel!

Yn ferch ifanc, roedd a'i bryd ar fod yn genhades, ond yn dilyn ei phriodas â John Williams, gôf Llandwrog, ymrôdd i genhadu yn ei gwlad ei hun, gan bregethu'n rheolaidd gyda phob enwad — a hawlio'r pulpud ambell dro hefyd, fel yr hanes hwnnw amdani hi a phregethwr arall yn cyrraedd i'r un capel ar yr un amser, a'r ddau ohonynt yn eistedd yn y pulpud. Ond Mary Lloyd Williams oedd biau'r cyhoeddiad, ac fe'i cadwodd. Byddai'n dibynnu ar garedigrwydd selogion yr Achos yn y gwahanol bentrefi i'w chyrchu i'w chyhoeddiad ac i'w danfon adref. Cyfeiriodd y Parch Harri Parri, Caernarfon, yn ei deyrnged iddi yn y gwasanaeth angladdol, mai hi oedd ffawd-heglwr cyntaf Cymru. Ond byw mewn gobaith o gael ei godi a'i gario mae pob ffawd-heglwr: roedd Mari Lewis yn hawlio hynny. A pha ffawd-heglwr a feiddiai stopio bws? Gan fod man aros o'r tu allan i'w thŷ ym Mhontrythallt, nid anarferol fyddai gweld Mrs Williams yn sefyll yno i ddisgwyl bws. Wedi i'r bws aros, camai i mewn ac annerch y teithwyr: 'Oes 'ma rhywun yn mynd i Gaernarfon?' Ac wedi cael ateb cadarnhaol — 'Wel ewch a hwn i'r *Herald*, os gwelwch yn dda.' Ac felly y byddai colofn 'Y Tŷ a'r Teulu' yn cyrraedd pen ei daith.

Fe'i anrhydeddwyd â'r B.E.M. oherwydd ei gwaith di-flino gyda mudiad y Cynilion Cenedlaethol tra'n cadw Swyddfa Bost, ac yn rhan o'r ymgyrch honno roedd saga ryfeddol y trempyn a alwai'n flynyddol yn ei chartref i gyfrannu i'r cynllun. Helpu'r trempyn i'w helpu ei hun oedd ei bwriad. A'r un bwriad oedd ganddi pan ymwelodd â lleidr yng ngharchar — yr union leidr a dorrodd i mewn i Swyddfa Bost yn Nhregarth pan oedd hi'n gofalu amdani. Bu'n ffrind i'r trueiniaid a'r anffodusion gydol ei hoes — yn ymweld yn gyson â chartrefi, ysbytai, canolfannau gofal a chanolfannau dydd. Ac ar y mynnych deithiau hyn y câi ei deunydd ar gyfer ei cholofn: risêt torth frith gan hon-a-hon, cyngor ar sut i wneud eli at y peth-a'r-peth. A dyna ei chymwynas fawr: cofnodi y pethau cyffredin a wnai bywyd yn anghyffredin. Cofnodi a throsglwyddo, casglu a rhannu; a'r cyfan mewn Cymraeg cywir a graenus. Hynny a enillodd iddi anrhydedd y Wisg Wen gan Orsedd yr Eisteddfod Genedlaethol.

Byd papur a phensil oedd ei byd hi. Doedd dim gormod o drimings ar aelwyd Llys Awen. Byddai'r bwrdd bach crwn ar lawr y gegin gyda thebotiad o de a chwpan, ac yna'r papurach: papur ar weddill y bwrdd, papur ar y gadair freichiau, ac ar lawr hyd yn oed; a'r cyfan ar gyfer ei cholofnau rheolaidd neu rhyw erthygl achlysurol i wahanol gylchgronau. Roedd yn selog i'r *Goleuad* ac i'r *Gwyliedydd*, ac yn annog — yn wrjo — *Y Casglwr* ar wahanol bobl. Cenhadu eto, ond yr achos yn wahanol.

Collodd Pontrhythallt a Llanrug a Chymru dalp o gymeriad, cymeriad y bydd i bawb a gyfarfu â hi eu hatgofion eu hunain ohoni. Colled wahanol yw'r golled i'r teulu: colli mam a nain a hen nain. Colli câr.

Fydd y drefn byth yr un fath eto.

Dymunwn fel golygyddion a swyddogion yr *Eco* gyfleu ein cydymdeimlad dwysaf â theulu y ddiweddar Mrs Mary Lloyd Williams yn eu profedigaeth. Rydym yn sicr hefyd ein bod yn cydymdeimlo ar ran holl ddarllenwyr a chefnogwyr yr *Eco* a gafodd gymaint pleser yn dilyn ei cholofn dros y pymtheng mlynedd diwethaf.

Dymuniad y teulu oedd cael cyhoeddi ei herthygl olaf yn yr 'Eco'.

Agor Ffiniau'r Gorffennol

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

Llythyr o Awstralia (1957)

Daeth y llythyr canlynol oddi wrth Mrs J. M. Williams, The Lodge, Marne Street, Port Kemble, New South Wales, Awstralia, oddeutu'r flwyddyn 1957. Mae'n siwr fod rhai ohonoch yn ddigon hen fel finnau i gofio 'Myfanwy o'r Bryn' fel y galwem hi — cantores wych oedd hi — a'i phriod.

Ymfudodd i Awstralia gyda'i gŵr ym mis Chwefror 1954 ac anfonodd lythyr i'r *Herald Gymraeg* a gofynodd a fuasai rhai o ddarllenwyr *Yr Herald* yn anfon llythyrau iddi hithau a derbyniodd amryw atebion.

Fel hyn yr oedd ei llythyr yn darllen:

'Dyma ni newydd orffen darllen eich ysgrif yn *Yr Herald Cymraeg* ac wrth gwrs y peth cyntaf wnaethom oedd estyn papur a phensal i sgrifennu llythyr yn ôl. Yr oeddych yn gofyn beth tybed oedd yn mynd trwy feddwl Myfanwy o'r Bryn ar Ŵyl Ddewi yn Awstralia.

'Wel, coeliwch fi y mae'r hiraeth am hen gyfeillion y bûm yn canu gyda nhw ar ŵyl Ddewi am dros ddeng mlynedd ar hugain yn annodd ei ddisgrifio na'i ddychmygu. Y dydd Gŵyl Dewi cyntaf ar ôl i ni lanio yma yr oeddwn yn canu ar y radio gyda dwy ferch arall. Yr oeddym yn ein gwisgoedd Cymreig ac yn tynnu sylw ofnadwy.

'Canu "Cartref" yr oeddwn i, a'r hyn oedd yn fy mhoeni fwyaf oedd y ffaith nad oedd neb yn fy nghlywed yng Nghymru.

'Yn Geelong y buom yn treulio'r Nadolig diwethaf ac yn ymdrochi yn y môr a'r haul yn boeth iawn. Mae John Evans, brawd Mr Evans, Baker Rhostryfan, yn byw yma ac yr ydym ninnau wrthi yn adeiladu tŷ bychan yno. Mae yno fachgen ifanc o Gaernarfon yn aros yno yn awr a'i enw ydyw William Wilkinson, perthynas i Mr Hope, fydd yn pregethu yr Efengyl. Y mae Jenny Arfon, chwaer fy ngŵr, yn byw yn ein hymyl yma ac hefyd Tommy Owen a'r teulu.

'Bydd dieithriaid o bob cwr o'r byd yn dwad yma i aros gyda ni yn ystod y flwyddyn. Da gennyf ddweud wrthych fy mod wedi cael cynghorion gwerthfawr ar wneud bwydydd gennych chwi yn eich colofn yn *Yr Herald*. Y mae heddiw dair blynedd ers pan adawsom gartref yng Nghymru. Mae ein hiechyd yn well o lawer yn y wlad yma ond ni allwn byth anghofio'r wlad a'n magodd. Prysured y dydd pan gawn ddwad adref yn ôl i'ch gweld. 'Cofion at bawb yna ac at ein cyfeillion a'u teuluoedd — Cymru am byth!

Yr Eiddoch,
Myfanwy o'r Bryn a'r gŵr.'

* * * *

A glywsoch chwi'r englynion yma o'r blaen?

Er Cof

Gwên siriol oedd ei golud—a gweini'n
Ddi-gwyn oedd ei gwynfyd.
Bu fyw'n dda, bu fyw'n ddiwyd
A lle bu hon mae gwell byd.

W. Rhys Nicholas

Y Nyrs

Ar awr anodd mae'n noddi—y truan
Trwy nos ei drueni:
A gwên y daw a gweini;
Nid cyflog a'i hannog hi.

R. J. H. Griffith (Caergybi)

CYFIEITHWYR

Hoffai'r coleg lunio rhestr o bobl i ymgymryd a gwaith cyfieithu yn achlysurol arheolaidd. Os oes gennych ddiddordeb anfonwch fanylion profiad, cymwyster a thelerau at y prif Swyddog Gweinyddol, Y Coleg Normal, Bangor. LL57 2PX.

CHWILOTA PIGION O'R PAPURAU

Ar Awst y seithfed 1874 cafwyd gwybodaeth am 'Y Peth Newydd ar Ochr yr Wyddfa,' yn yr *Herald Cymraeg*. Mae'n ymddangos fod peiriant lladd gwair yn cael ei arddangos ar fferm Mr Ellis Griffith, Bron y Fedw, Nant y Bettws. 'Yr oedd yn beth dieithr i drigolion y rhan yma o'r byd gan mor selog yr ymgasglent i'w weled yn gweithio; ac yn wir, roedd yn gweithio yn rhagorol o dan ofal ei feddianydd, Robert Parry, Glanrafon Bach, yr hwn sydd newydd ddychwelyd o'r America, wedi bod yn dilyn yr un alwedigaeth yno.'

Ym mis Hydref yr un flwyddyn, cawn hanes am dafarn Pentir yn cael hawl i werthu diodydd meddwol allan yng nghaeau Ty'n Llwyn ar ddau ddiwrnod yng nghanol yr wythnos oherwydd fod ymrysonfa milgwn yn cael ei chynnal yno. 'Arddangoswyd y diddordeb mwyaf yn y gweithrediadau gan brif helwyr y deyrnas, a daeth tyrfaoedd lluosog ynghyd.'

Yn yr un mis, roedd pentrefwyr Caeathro yn cynnal gŵyl ddiolchgarwch am y cynhaeaf. Cyfansoddwyd anthem bwrpasol i'r achlysur gan William Owen, Prysgol. 'Gresyn na byddai iddo gyhoeddi rhai o'i donau a'i anthemau. Dylent gael cylch ehangach na chynulleidfa Caeathro.'

Eto ym mis Hydref roedd Mrs Duff, Glan y Bala, yn cael ei chladdu yn eglwys Nant Peris. Er ei bod wedi troi at Babyddiaeth, cafodd ei chladdu yn ôl defodau Eglwys Loegr, 'Dywedir y bydd ei gweddillion yn cael eu cludo i fedd tan-ddaearol arbennig yn y Faenol'.

Erbyn diwedd y mis, roedd trigolion Llanrug a Phontrug yn dioddef o lifogydd yn afon Seiont, a drylliwyd pont y rheilffordd ger Llwyn y Brain.

Ac erbyn mis Rhagfyr, cawn glecs Draenogaidd o ardal Llanberis: cwyn fod tyddynwyr yr ardal yn gwerthu llefrith ar y Sul! 'Nid ydym yn gwybod prun ai y gwŷr a'i ynteu y gwragedd sydd ar fai. Oni ddiwygiant, bydd raid i mi hysbysu eu henwau i'r brawd doniol hwnnw sydd a'i drigfan ar ben y "lidir".'

* * * *

Gyda diolch hefyd am yr atgofion ychwanegol hyn am Rwth Jones gan Mrs M. G. Williams o Fethel:

Annwyl Olygydd,

Ni wn a fydd yr ychydig nodiadau hyn o unrhyw ddiddordeb i chwi ynglŷn â'r testun 'Chwilota' yn Eco'r Wyddfa *am Chwefror a Mawrth. Cymeraf yn ganiataol mai yr un John Morris yw, ond yn ystod y blynyddoedd wedi symud i fyw yn 1904, daw eu henwau o dan Fron Hywel, ond Pen-y-Pass Stores!*

Cofiaf fy rhieni yn sôn am John a Willie Fron Hywel — am beth ni wn, ond cofiaf Cledwyn yn iawn. Bu yno yn byw am gyfnod gyda'i daid a'i nain. Ni wn a yw yn dal yn fyw, gan iddo fynd i Loegr. Ni wn a wyf yn gywir ond credaf fod a wnelo John a mwnfeydd, ag iddo fynd i'r Amerig.

Pan yn blant, hen ddyn câs iawn oedd William Williams. Roedd llwybr cyhoeddus yn rhedeg o ymyl Siop Anti Riwth heibio Fron Hywel ac allan yn y ffordd a arweiniai i Benisarwaun. Os gwelai William Williams ni yn chwarae, neu ddefnyddio'r llwybr, byddai ar ein holau gan addaw y ffon oedd yn ei law.

Nid oedd yn fodlon iawn i ni pan yn hŷn i ddefnyddio'r llwybr i gario dŵr o'r ffynnon oedd mewn cae gerllaw, ond, troi yn glust fyddar a wnaem i hynny.

Ynglŷn â Riwth Jones, neu Anti Riwth, cofiaf hi yn cadw'r siop, ychydig yn is na'm cartref, ac felly mae'n siwr (er na chofiaf) mai dyma un o'r teithiau cyntaf i mi yn llaw fy mam.

Fel y dywed John Ellis, mai mewn ystafell o'i thŷ y cadwai y siop, ffenestr pur fawr a drws yn wynebu'r ffordd, gyda bariau o haearn o flaen y ffenestr. Ni chofiaf fawr am gynnwys y siop, ar wahân i'r cownter, y ffenestr, a'r paraffin (oil- lamp) mewn cornel bur dywyll o'r ystafell. Yn wir ni wn sut y byddai yn gweld i fesur yr oil-lamp.

Deuai Twm Penog ar ei dro, a chyn ychydig amser byddai desgil bridd fawr yn y ffenestr yn llawn o benog picl. Bu mam a minnau yn gwneud penog picl yn ein tro, ond, rywsut nid oeddynt yr un blas a rhai Anti Riwth. Tybed a oedd ganddi hi gyfrinach?

Tra yn gwerthu, arferai Twm anfon ei ddau gi, 'Penog' a 'Ffres' (!) i hela, ond pan welai Twm blismon yn cerdded yn araf yn y pellter galwai, mewn tôn arbennig, ar y ddau gi — weithiau'n lwcus, dro arall dim helfa.

Arferwn ar dro fynd ar neges i Anti Riwth a chael 'da-da' am wneud — gwobr dda. Un dydd wedi bod ar neges, cyrraedd yn ôl, a'r geiriau a glywais: 'Mae'n ddrwg gen i, sgin i ddim un da-da i ti heddiw, dim ond y botel "Ginger Beer" sydd yn y ffenast' (un a togo yn ei gwddw) ac meddwn innau yn dipyn o lances, 'Mi wnaiff honna y tro yn iawn'.

Y cwestiwn cyntaf ar ôl cyrraedd adref fyddai, 'Ple buost ti, a lle cêst ti honna?' Ceisiais egluro fy ngorau, ond bu raid mynd a'r botel yn ôl, rhy ddrud i'w rhoi (costiai 1½d.)

Pan yn blant arferem chwarae tŷ bach ac yr oedd yn rhaid cael math o siop hefyd — yr un fath ag un Anti Riwth. Ceisio casglu tuniau, tegins, gwahanol ddail, ac ati, a cheisio gwneud clorian gyda charreg pur fawr a llechen i siglo i bwyso.

Adeg fy mhlentyndod arferai'r siop fod yn boblogaidd iawn. Credaf hefyd, yn y cyfnod hwnnw, fod mwy o gymdeithas i'w chael — pawb a gofal a phryder am ei gilydd.

TAFLENNI CYFRIFON EGLWYS Y GLASGOED

1891: Enwir William a Mary Williams; John Morris Williams a Willie H. Williams, Fron Hywel.
1901, 1902, 1903: yr un fath.
1904: ar wahân i'r rhieni, enwir Willie yn unig.
1904: John Morris a Kate Williams, Pen-y-Pass Stores.
1906: William Williams a Mary Williams; W. H. Williams (gynt).
1908, 1911: y rhieni.
1906 a 1907: John Morris a Kate Williams, Gwenallt, Llanrug.
1908: John Morris a Kate Williams, Gwyddfor.
1909: Mawr 21ain Bedyddio Cledwyn (mab).
1910 a 1911: y tri enw.
1912: Tachwedd 14eg Bu farw Kate Williams.
1913: John Morris a Cledwyn yn ôl yn Fron Hywel.
1926: Ebrill 3ydd. Marw William Williams.
1927: Gorffennaf 27ain. Marw Mary Williams.

Cefnogwch ein Hysbysebwyr

Atolwg! Golwg Newydd a chais am help

Mae'n siwr y bydd gan ddarllenwyr *Eco'r Wyddfa* ddiddordeb mawr i wybod bod yna ddatblygiad newydd, lliwgar yn y byd Cymraeg o fis Ebrill ymlaen.

Am y tro cynta' erioed, fe fydd gan gylchgrawn Cymraeg ei atodiad lliw ei hun, yn ymddangos yn gyson bob mis. Ar ben hynny, fe fydd y cylchgrawn ei hun ar newydd wedd.

Mae hyn i gyd yn digwydd o fewn cloriau *Golwg*, y cylchgrawn Cymraeg sy'n ymddangos bob dydd Iau ac yn cyrraedd cynulleidfa newydd, fodern.

Bwriad yr atodiad lliw — *Atolwg!* — yw cyrraedd cynulleidfa newydd eto, gyda sylw i bob math o bynciau sy'n rhan o ffordd o fyw Cymry'r 90au. Fe fydd tudalennau lliw bob mis yn rhoi sylw i bynciau o ffashiwn, i gwcio, o chwaraeon i'r gadgets diweddara'.

Ar yr un pryd, mae *Golwg* o dipyn i beth wedi bod yn gwerthu mwy a mwy bob wythnos. Yn awr, fe fydd y cylchgrawn ei hun yn gwella eto ac ymddangos ar newydd wedd, gyda chlawr newydd, colofnau newydd a 'golwg' newydd i'w dudalennau.

Mae un newid pwysig yn y tudalennau teledu a radio. Gan fod *Sbec* erbyn hyn yn rhan o bapur arall, mae *Golwg* am roi pigion o'r holl raglenni teledu a radio Cymraeg. Nid rhestr foel ond gwybodaeth am y rhaglenni gorau i'w gwylio, gyda straeon am y sêr hefyd.

Wrth wneud hyn i gyd, mae *Golwg* angen help darllenwyr *Eco'r Wyddfa*. Y golygydd, Dylan Iorwerth, sy'n esbonio: 'Ryden ni angen help gyda dau beth,' meddai.

'Yn gynta', er ein bod ni'n gwneud *Golwg* yn well byth gyda'r ail-wampio a'r atodiad, ryden ni eisio'i wella eto. Felly, mi fydden ni'n falch iawn petai darllenwyr yn gadael i ni wybod beth fydden nhw'n licio'i weld yn y cylchgrawn. Does dim rhaid ichi fod yn darllen *Golwg* ar hyn o bryd — gadewch inni wybod be' fyddai'n gwneud i chi ei ddarllen.

'Yn ail, mae rhai pobol yn dweud wrthon ni eu bod nhw'n methu â chael gafael yn *Golwg*. Y gwir ydi fod unrhyw siop bapur newydd yn gallu ordro *Golwg* os bydd rhywun yn gofyn amdano. Mi fydden ni'n ddiolchgar iawn petai pobol yn gadael inni wybod am unrhyw broblemau.'

Gallwch anfon eich syniadau at *Golwg* yn rhad ac am ddim trwy sgrifennu nodyn i'r cyfeiriad yma: **Golwg, Rhadbost, Blwch Post 4, Llanbedr Pont Steffan, Dyfed SA48 7ZZ.** Does dim angen rhoi stamp ar yr amlen.

Y Bistro
43-45
Stryd Fawr
LLANBERIS
Ffôn 871278
CURIAD CALON CYMRU
CURIAD CALON CYMRU

DAN FLEW EIN LLYGAID

hefo'r LLYGAD FACH GRAFF

Edmygu a Gwarchod

Edmygwn a gwarchodwn hwynt. Cydnabyddwn mai coed yw'r pethau hynaf sy'n tyfu ar ein tamaid daear ni ac yn ôl pob sôn a siarad y maent yn medru siarad â bodau dynol! Dyna gred Joseph Bharat Cornell, naturiaethwr o Galiffornia, sy'n argyhoeddedig i goeden un noson dorri gair ag ef ac yntau yn yr anialwch, a'i achub rhag disgyn dros glogwyn serth. A dyna chwi yn dechrau chwerthin a chyhuddo'r colofnydd o falu awyr yn dalpiau mân-mân. Ond wir i chwi, mae tystiolaeth bod coed yn creu synau, a'u bod o bryd i'w gilydd yn ochneidio a llefain, yn enwedig pan fo pwysau'r gwynt ar ei rhisgl. Mae'n debyg i goed wylo'n hidil drwy'r canrifoedd o weld pa mor hunanol a phen-wan yw plant dynion pan fo'n fater o gyd-fyw â'i gilydd ar libart o dir.

'Wyddoch chwi fod coed wedi bod yn rhan anhepgorol o fyd llên gwerin a mytholeg ers dyddiau cynnar dyn. Ceir chwedl yn yr Iwerddon am ffermwr un Gaeaf gerwin yn penderfynu torri brigau gwernen ger ffynnon sanctaidd, a thra wrth y gwaith bu iddi fwrw'i lygad dros ysgwydd, a chanfod fod ei dyddyn yn wenfflam. Prysurodd adref, a chanfod nad oedd tân. Ail-ddychwelodd at y gwaith o dorri brigau'r wernen, ond rhuthrodd tuag adref o ganfod fflamau yn lleibio'r awyr uwchben ei dyddyn. Ond y tro hwn eto 'doedd yno dân. Dychwelodd yntau at ei waith ac wedi casglu digon o danwydd cerddodd yn araf tua'i dyddyn ac er mawr ddychryn iddo, gwelodd fod ei gartref wedi llosgi'n ulw.



Gwyddom ninnau am nodweddion gwerthfawr y wernen a dyf mewn tir gwlyb. Gwreiddiau'r goeden hon sy'n ei galluogi i dynnu nitrogen o'r awyr, a ffurfio bacteria sy'n gyfrwng i'w chynnal ynghanol yr holl wlybaniaeth. Pren yn siarad? Bid â fo am hynny. Digon yw dweud fod rhinwedd yn perthyn i goed. Canfu'r botanegydd o'r India, sef Jagardis Bise, fod curiad calon coeden i'w chanfod yn y rhan ohoni a elwir yn 'cambium'.

Rhyfedd meddwl inni greu moelni o'n byd. Ble bu coed, mae diffeithwch. Ble bo dyn, mae trachwant. Ble bu cariad, mae hunanoldeb yn rhemp. O swyddfa i ysgol, mae clwyf yr ugeinfed ganrif yn teyrnasu. Mae'n bryd i bawb a phopeth ddwad at eu coed a sylweddoli mai'r gair dinistriol sy'n magu trannoeth sy'n anialwch rhonc. Gwae ni yr ymfalchwyr, y pwysigion, yr hollalluog wŷr sy'n mynnu cribino popeth. Edmygu coed? Eu gwarchod? Na, nyni'r cyfalafwyr; nyni sy'n mynnu mwy o gyfoeth ar draul pawb a phopeth. Nyni sy'n sefyll ar ddibyn; nyni sy'n rhoi'r byd ar dân.

I Wlad y 'Geordies'

'I ble 'da chi am hel eich traed nesa'?' dyna gwestiwn cymydog i mi y dydd o'r blaen. Cafodd dipyn o syndod pan atebais, 'I Newcastle'. 'Newcastle? Newcastle? be goblyn sy'n denu un i fan'no?' Cwestiwn eitha' teg o bosib. A'r ateb? Wel, un rheswm i mi hel fy nhraed i'r rhan ogledd-ddwyreiniol hon o Loegr oedd na fum i 'rioed yno o'r blaen. Rheswm arall? Dyma ardal, medda nhw, sy' a mwy o ffanatics pêl-droed yn byw ynddi na hyd yn oed Glannau Mersi. A fedra i ddim meddwl am yr un ardal a fu'n fagwrfa i gymaint o sêr y byd pêl-droed. Mae dilynwyr y gêm heddiw yn gwbwl gyfarwydd â'r enwau Beardsley, Waddle a Gascoigne, neu Gazza. Mae rhai ohonom yn cofio Jackie Milburn, efallai yr enwocaf, ond yn sicr y ffyddlonaf o'r Geordies a wisgodd y crys streips du a gwyn.

Mae'r eisteddle newydd enfawr ym Mharc St. James's yn gofeb haeddiannol i Jackie Milburn, ac yno ar brynhawn heulog o Fawrth yr eisteddais mewn sedd, a gostiodd wyth bunt i mi, i wylio un o'r gemau pêl-droed mwyaf diflas a welais erioed. Oedd, mi 'roedd Gazza yno hefyd, er mai dim ond y diwrnod cynt y daeth allan o'r ysbyty. Yn sicr doedd y gêm ddi-sgôr rhwng Dinas Bryste a'i hen dîm ddim yn achlysur i'w helpu i gael adferiad buan.

O ydyn, mae'r Geordies yn feirniaid onest a deallus o'r gêm, ac ymhell cyn y chwiban ola' 'roeddan nhw yn siantio'n fygythiol ac yn awgrymu y dylai Jim Smith, y rheolwr, ymddiswyddo. Yn wir, yr unig fonllef o lawenydd a glywid ym Mharc St. James's oedd ar hanner amser, pan welid ar y bwrdd sgorio electronig fod Sunderland yn dal eu tir ac yn gyfartal â Lerpwl yn Anfield.

Ia, Sunderland. Yno i Roker Park y byddwn i wedi mynd petae Sunderland yn chwarae gartre. Pam? Wel, Sunderland oedd y tîm i mi am gyfnod pan oeddwn i'n grwtyn ym Methel ers talwm. Y rheswm am hyn oedd mai nhw ydw i'n gofio'n ennill Cwpan Lloegr gynta' 'rioed, yng nghanol y tridegau, pan drechon nhw Preston North End yn Wembley. Dwi'n dal i gofio rhai o'r arwyr — Mapson, y gôlgeidwad; German, Hall, Gurney, Hastings, Johnston, a'r seren ddisgeliria ohonynt i gyd o bosib — Raich Carter. Ydw, rydw i'n mynd yn hen, ond mae'r atgofion yn dal yn felys.

Un Cymro, hyd y gwn i, oedd ar faes St. James's yn y gêm rhwng Dinas Bryste a Newcastle, sef Mark Aizlewood. Ond fedrwn i ddim peidio a chofio am Gymro arall a fu'n arwr yma tua ugain mlynedd yn ôl bellach. Ia, y cawr pengoch hwnnw 'a gafodd 'i gardia gan Llanbêr' — mab enwoca'r 'Sgubor Goch — Wyn Davies. Yn rhaglen swyddogol y gêm roedd yna gofnod o'r gemau a chwaraeodd Newcastle bum, deg ac ugain mlynedd yn ôl i'r diwrnod. Ugain mlynedd yn ôl i'r diwrnod roedd Newcastle yn herio Everton ar Barc St. James's ac roedd dwy fil ar hugain yn eu gwylio. Blaenwr Newcastle y diwrnod hwnnw oedd Wyn Davies.

Mae 'na enwogion eraill a wnaeth eu marc wrth gicio'r bêl gron yn gysylltiedig a'r maes pêl-droed hwn. Un o ardal Newcastle ydi Bryan Robson, a oedd yn gefnogwr fyddlon, a Wyn Davies yn un o'i arwyr. Nepell oddi yma y ganed y brodyr Charlton, a bu Jack yn reolwr ar y 'Magpies' am gyfnod.

13,562 oedd yno yn gwylio'r gêm yn erbyn Dinas Bryste — tri yn fwy nag oedd yno yn gwylio Caerlŷr bythefnos ynghynt. Tri yn fwy yn y dorf — Gazza a finna — pwy oedd y trydydd ys gwn i?

SELWYN GRIFFITH

CYMRU A'R BYD
Apêl am Wybodaeth

Annwyl Olygydd,

Mae Ysgrifennydd Mygedol Mudiad 'Cymru a'r Byd' ('Undeb y Cymry ar Wasgar' gynt) wedi lansio apêl genedlaethol a rhyngwladol am enwau a chyfeiriadau Cymry (Cymraeg a/neu di-Gymraeg) sy'n byw tu hwnt i Glawdd Offa a/neu mewn gwledydd tramor.

Yn ogystal a llunio 'Cyfarwydd-iadur Rhyngwladol o Sefydliadau Cymreig y Byd' mae'r Mudiad hefyd yn creu cronfa ddata am Gymry sy'n byw yng ngwledydd eraill y byd. (Bydd y gronfa ddata yn cydymffurfio yn gyfangwbwl a'r anghenion statudol mewn perthynas a chadw gwybodaeth ar ffeil ddisg cyfrifiadur.)

Mae 'Cymru a'r Byd' yn derbyn nifer sylweddol o ymholiadau bob blwyddyn am gysylltiadau Cymreig mewn gwledydd ac ardaloedd amrywiol y byd. Daw llawer o'r ymholiadau hyn oddi wrth deuluoedd, grwpiau ac unigolion sydd wedi trefnu i deithio dramor. Bydd y cyfryngau hefyd yn cysylltu a 'Chymru a'r Byd' am gysylltiadau Cymraeg a Chymreig trwy'r byd.

Hoffai Osian Wyn Jones glywed oddi wrth bawb yng Nghymru sydd a pherthnasau neu ffrindiau mewn unrhyw un o wledydd y byd, fel y gellir cynnwys y wybodaeth yn y gronfa ddata. Yr hyn sydd ei angen yn fras yw enw'r person, cyfeiriad llawn, rhif(au) ffôn, galwedigaeth, man genedigol a gwybodaeth gyffredinol iawn am oedran a'r gallu i siarad yr iaith Gymraeg.

Mae'r dasg yn un enfawr yn ôl unrhyw safon ond credir fod gwir angen am y wybodaeth. Dylid anfon manylion yn uniongyrchol at ***Osian Wyn Jones, Hiraethog, Llannor, Pwllheli, Gwynedd LL53 5UR.***

HEADWAY GWYNEDD

CYNGERDD MAWREDDOG

Neuadd Pritchard-Jones
Coleg y Brifysgol, Bangor

Nos Wener, 19 Ebrill, 1991

ARTISTIAID:
ELINOR BENNETT
DAFYDD IWAN
CÔR Y TRAETH
PARTI LLEU
TRIAWD Y COLEG
a MAIMIE NOEL JONES

ARWEINYDD:
HYWEL GWYNFRYN

Dechreuir am 7.30 p.m.
Drysau yn agor am 7 p.m.

Pris: £4 Pensiynwyr/Plant £3
Tocynnau ar gael gan Yvonne ar Caernarfon 76542 neu wrth y drws

Dyddiadur y Mis

EBRILL 1991

2. Mawrth. Deiniolen: Undeb y Mamau, 7.

3. Mercher. Yr Ardal: Antur Padarn, Angorfa, Llanberis am 7.30

4. Iau. Llanberis: Eisteddfod Plwyf Llanberis.

5. Gwener. Bethel: Plaid Cymru. Dafydd Iwan a'r Band, yng Nghlwb Criced Llandegai, 8 o'r gloch ymlaen. Tocynnau £3 o Siop y Pentan, Caernarfon. **Deiniolen:** Bingo yn Ystafell y Band, 8. **Llanberis:** Eisteddfod Plwyf Llanberis. **Yr Ardal:** Etholiadau Dosbarth a Chymuned. Dyddiad olaf derbyn papurau enwebu.

8. Llun. Brynrefail: Hospis yn y Cartref, Festri'r Capel am 6.30.

9. Mawrth. Llanrug: Merched y Wawr. Arddangosfa o waith llaw.

10. Mercher. Yr Ardal: Recordio 'Dechrau Canu, Dechrau Canmol', yn y Capel Coch, Llanberis am 7.

11. Iau. Llanrug: Cyfarfod Blynyddol y Band, 7.00.

12. Gwener. Deiniolen: Bingo yn Ystafell y Band, 8.00

15. Llun. Brynrefail: Sefydliad y Merched. **Deiniolen:** Ffair lechyd Ysgol Gwaun Gynfi, 3.30-6.30. Dosbarth Aerobics Ysgol Gwaun Gynfi, 7.00

16. Mawrth. Deiniolen: Ffair lechyd Ysgol Gwaun Gynfi, 3.30-6.30. Arddangosfa Achub Bywyd, Ysgol Gwaun Gynfi, 7.00.

17. Mercher. Llanrug: Plaid Cymru. Cwis gyda changhennau Waunfawr a Bethel, yn y Sefydliad Coffa, 7.30. **Deiniolen:** Ffair lechyd Ysgol Gwaun Gynfi, 3.30-6.30. Dosbarth Aerobics Ysgol Gwaun Gynfi, 7.00.

19. Gwener. Deiniolen: Bingo yn Ystafell y Band, 8.00.

20. Sadwrn. Llanllyfni: Eisteddfod Gadeiriol. Ysgrifenyddes: Mrs L. Griffiths, ffôn: 880291.

22. Llun. Llanrug: Cyfarfod Blynyddol y Sefydliad Coffa am 7.15.

26. Gwener. Deiniolen: Bingo yn Ystafell y Band, 8.00. **Penisarwaun:** Noson Gymdeithasol yn Neuadd yr Eglwys, 6.30.

28. Sul. Penisarwaun: Clwb Ieuenctid yn ymweld ag Alton Towers.

29. Llun. Llanrug: Tombola yn Ystafell y Band. **Penisarwaun:** Cyfarfod Cyhoeddus – Carnifal 1991, yn Ysgol Tan y Coed am 6.30.

MAI

2. Iau. Diwrnod Etholiad Cynghorau Dosbarth a Chymuned.

ENILLWYR MAWRTH

Daeth 14 o groeseiriau cywir i law y mis hwn. Y gorau eto! Y cyntaf cywir allan o'r het oedd **L. Huws, Tan y Graig, Cwm-y-Glo.** Mae gwobr o £5 ar ei ffordd i chi.

Atebion y mis hwn i law erbyn **Ebrill 23ain.**

CROESAIR EBRILL



AR DRAWS

1. Darparu gwledd (8)
4. Cul a thenau (4)
8. Uchelgais pob Tori (3)
9. 'Does dim __ __ hon (3,2)
10. Teitl (3)
11. Y Felinheli Seisnig heb y 'grwpi' (7)
12. Treulir 11 mlynedd, o leiaf yma (5)
13. Nid bach, ond y diwethaf o'r teulu (3,4,1,3)
17. Blodyn y cofio (1,4)
18. Cyfieithiad llythrennol o un gwaed yn Saesneg (5,2)
20. Mae e 'ma heb yr 'n' (3)
21. __ __ y rhoddwn frenhiniaeth yr awyr (1,4)
22. Cyfnod cyntaf yr wythnos (3)
23. Mae hi o'r Hendra'n adroddwraig (4)
24. Amser geni a magu (8)

I LAWR

1. Gwyntoedd ysgafn (6)
2. Cartref y Cennin Pedr (5)
3. Tasg nad oes raid i bob dyn ei chyflawni'n ddyddiol (5)
5. __ __'r croesair hwn, fe haedda'r wobr (1,6)
6. __ __ gysgod mewn tywyllwch (2,4)
7. __ __ y datblyga newyn (4,6)
9. Ceir nifer ohonynt yn y Culfor (10)
14. Mynd i ffwrdd hwyrach (7)
15. Hogiau hen! (6)
16. Erfyn i Rofi neu Robat Jôs, hwyrach (6)
18. Ffurf ddiwygiedig o 'Anrhydedda' (5)
19. Cyfarchion gyda'r hwyr (3,2)

CROESAIR MAWRTH

Cefnogwch ein Hysbysebwyr

Wavell Roberts
CIGYDD
LONDON HOUSE
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 3574
PEN CIGYDD Y FRO
Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

W.J. GRIFFITH
PLYMAR A GOSODWR
GWRES CANOLOG
PANT TIRION, LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 673248
Gosodwyr Nwy Cofrestedig Corgi
CORGI GAS IN SAFE HANDS
Aelod o'r Association of Plumbing and Mechanical Services Contractors
Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr

Castell Cidwm
Dewch i gael bwyd ym **Mwyty'r Pysgotwyr, GWESTY CASTELL CIDWM** ar lan Llyn Cwellyn. **Coginio Prydeinig,** yn gynnil o wahanol. **Gwinnoedd diddorol. Tân Coed. Clustogau Cyfforddus. Golygfeydd Hardd.** Lle rhagorol i ymlacio.
Betws Garmon, Ffôn: Waunfawr 243

I DDYSGU DREIFIO EFO
STAN
(Ysgol Yrru Rhiwen)
Ffoniwch
Bangor
364143

Y STORFA
LLANRUG
(Richard a Meirwen Williams)
Ffôn: Caernarfon 2790
Ar agor bob dydd o'r wythnos at eich gwasanaeth
Nid oes unrhyw dâl am ddanfon ordor i'ch cartref yn ardal Llanrug.

Am bob math o **WYDR** wedi'i **DORRI, DDANFON NEU EI OSOD.**
cysylltwch â
Barrys GLASS
Camelot,
PENISARWAUN
Ffôn: Llanberis 871144

FIDEO
FIDEO
FIDEO
Gwasanaeth Fideo Proffesiynol
JOHN BLIGHT
LLANBERIS
872209
Priodasau a phob achlysur arbennig arall
Hefyd Ffilmiau Hyfforddi a Gwasanaeth newid CINE I FIDEO

CHWARAEON

Cyfnod Prysur i Marc

- Bu'r flwyddyn newydd yn un hynod o brysur hyd yma i **Marc Lloyd Williams** o Lanberis, a dydi hi'n mynd i ysgafnhau dim yn y misoedd sydd i ddod. Nid fod Marc yn cwyno, cofiwch, gan mai prysurdeb ar y maes pêl-droed sydd dan sylw, a chicio pêl sy'n mynd â holl fryd y myfyriwr Coleg Technegol ar hyn o bryd.
- Mae wedi arwyddo i glybiau pêl-droed **Llanberis** a **Phorthmadog.**
- Mae'n chwarase i **dîm dan 18 oed Ysgolion Cymru** am yr ail flwyddyn yn olynol, ac yn eu tair gêm hyd yma, maent wedi **colli oddi cartref yn Iwerddon, dod yn gyfartal â'r Saeson yn Gloucester a cholli yn erbyn y Swisdir** ar yr Ofal yng Nghaernarfon ar Fawrth 21ain.
- Mae'n chwarae i **dîm dan 19 oed Colegau Technegol Cymru,** ac yn dilyn gêm gyda'r tîm hwnnw yn erbyn Lloegr . . .
- Mae wedi ei ddewis i gynrychioli **Colegau Technegol Prydain** yn erbyn timau'r Fyddin a'r Llynges ym mis Ebrill.
- Bydd yn chwarae i **dîm dan 18 oed Cynghreiriau Gogledd Cymru** yn erbyn tîm cynghreiriau Arfordir yr Alban yn y Rhyl y mis nesaf.
- Mae clwb pêl-droed **Wrecsam** wedi ei alw'n ôl am ragor o dreialon yn ystod wythnos gyntaf gwyliau'r Pasg.
- Ac mae'n mynd am dreial i **Oldham** yn yr ail wythnos.
- Mae **Chelsea** hefyd wedi ei wahodd am gyfnod o dreialon rhywbryd yn ystod mis Ebrill.
- Mae **Prifysgol Wake Forrest, North Carolina, U.D.A.** wedi cynnig ysgoloriaeth pêl-droed iddo — fe gai chwarae pêl-droed tra'n gwneud gradd pedair blynedd mewn chwaraeon.
- Mae Prifysgol arall yn **Florida** wedi gwneud cynnig tebyg.

'Dwn i ddim pryd mae o am gael amser i chwarae dros Lanberis na Phort. Waw!!



Cwis Mis Ebrill

Gan y bydd hi'n tynnu at ddydd ffŵl Ebrill pan ddaw'r rhifyn hwn o'r wasg, fe'ch rhybuddiaf mai tipyn o dynnu coes yw un o'r cwestiynau â ddilyn — ond pa 'run! Atebion y mis diwethaf yn gyntaf.

Ar **Pinza** yn 1953 yr enillodd Gordon Richards ei unig râs Derby; un o sêr **tenis bwrdd** Lloegr yw Skylet Andrew; tîm **'Speedway' Cradley Heath** sy'n rasio yn Stadiwm Dudley Wood, a bydd merched yn neidio dros **ddeg clwyd** yn eu râs 100m. **William Perry** yw rhewgell pêl-droed Americanaidd — y 'refrigerator' enwog, a'r pedward gôlgeidwad â'u henwyd 'The Football Writers' Footballer of the Year' yw **Bert Trautmann, Gordon Banks, Pat Jennings a Neville Southall.** Y golffiwr a arweiniodd dîm buddugol Prydain yn 1957 oeded y Cymro **Dai Rees** a **Jimmy White** oedd yr ieuengaf i ennill pencampwriaeth amatur snwcer y byd. Mae'r **Swisdir** wedi gwahardd rasio ceir ers 1955 a chapten presennol cricedwyr Lloegr, **Graham Gooch** gafodd ddwy ddycsen yn ei gêm brawf gyntaf.

Rhai anodd? Wel, chlywais i'r un gair gan y cyfaill o Ddeiniolen yn ystod y mis!

A dyma ddeg arall, ond 'does ond naw yn gwestiynau dilys.

1. Pwy yw'r unig bêldroediwr sydd wedi ennill wyth medal pencampwriaeth cynghrair pêl-droed Lloegr?
2. Pa un yw'r unig dwrnament golff sy'n cael ei chwarae dros bum rownd?
3. Ym mha ddinas gynhaliwyd gemau Olympaidd y gaeaf yn 1982?
4. Pa chwaraewr tenis enwog oedd a'i dad yn aelod seneddol?
5. Pwy oedd y gôlgeidwad a dorrodd ei wddf yn ffeinal cwpan pêl-droed Lloegr yn 1956?
6. Pwy yw'r cricedwr a fowliodd 98 pelawd mewn un batiad mewn gêm brawf yn 1957?
7. Pa athletwr enillodd bum medal aur yng ngemau Olympaidd 1924?
8. Pwy oedd yr 'all-rounder' fu'n gapten tîm criced Lloegr, a chwaraeodd bêl-droed drostynt, rygbi dros y Barbariaid ac a ddaeth yn gyfartal â record naid hir y byd yn 1893?
9. Pwy oedd y ferch gyntaf i reidio'n y Grand National yn 1977?
10. Pa athletwr o Awstralia dorrodd ddeg record byd am redeg yn 1965?

PYSGOTA Adroddiad H. P. Hughes

Dechrau go araf fu i'r 'sgota ar yr afonydd, er fod dipyn o hwyl wedi ei gael â'r eogiaid oedd wedi claddu ac yn gwneud eu ffordd yn ôl tua'r môr — ond cymerwch ofal, mae'n drosedd lladd 'run o'r rhain. Efallai ymhen blwyddyn fe ddônt yn ôl wedi cynyddu yn eu pwysau yn sylweddol.

Ar 24 Ebrill fe welir agoriad swyddogol y Ddeorfa yng Nghrawia. Mae gobeithion mawr ynglŷn â'r fenter yma, byddwn yn rhoi hwb fach i natur, gan obeithio felly, ymhen rhyw ychydig flynyddoedd gweld cynnydd sylweddol yn y nifer o eogiaid a sewin a ddaw yn ôl i'n dyfroedd.

Y tymor yma hefyd fe ddechreuir hysbysu am lyn Dywarchen fel pysgotfa Brithyll yr Enfys o safon uchel. Mae pedwar cwch wedi eu prynu yn barod ac mae galw mawr am gael eu llogi fesul diwrnod. Mae'r fan yma yn lle delfrydol i sgota mewn cwch.

Wrth fodio drwy'r nifer o gylchgronau pysgota sydd ar y farchnad, gwelaf fod pryder yn cael ei fynegi drwy wledydd Iwerthon, yr Alban a Chymru ynglŷn â'r lleihad yn nifer y sewin sydd yn rhedeg yn ôl i'n hafonydd. Mae'n amlwg o'r astudiaethau fod y niwed yn cael ei wneud yn y môr. Beth sydd yn achosi'r niwed? Wel, mae pob math o awgrymiadau yn cael eu gwneud, o bla glan môr yn cael ei achosi drwy ormodedd o ffermydd eogiaid ar arfordir gorllewinol yr Alban a'r Iwerddon i arllwyso cemegau niweidiol i'r môr drwy weithfeydd carthffosaeth aneffeithiol, neu arllwys gwastraff diwydiannol oddi ar longau i Fôr yr Iwerydd. 'Rwy'n credu nad oes neb yn gwybod yn iawn, ond mae un peth yn sicr mae cyrff gyda chlust yr awdurdodau yn cydfynd a'u gilydd fod rhywbeth o'i le yn ein dull o warchod yr amgylchfyd.

Y Darans

Clwb Pêl-droed Llanberis, yn sicr sy'n cael y sylw y mis hwn, a hynny am ddau reswm. Yn y lle cyntaf, fe hoffais yn fawr gyfraniad Jiws (Ieuan Lloyd Williams) i'r gyfres 'dewis timau gorau'r gorffennol' sy'n ymddangos yn rheolaidd yn eu rhaglenni. Fe aeth ef ati i geisio creu 'tîm' o hogia sydd wedi gwisgo'r 'Black and Amber' a hefyd wedi arwyddo i dimau Adran 1, 2, 3 neu 4 o Gynghrair Lloegr, ac fe lwyddodd, ynghyd â thri eilydd!!

Dydi o ddim yn hapus â'r 'balans', ond fel hyn y byddai'n troi allan:

GARY OWEN (Shrewsbury)

MIKE ROBERTS (Oldham) — GLYN GRIFFITHS (Wrexham) — HOWYN P. JONES (Wrexham) — KEITH THOMAS (Crystal Palace)

EMLYN DAVIES (Notts Forrest) — GERAINT WILLIAMS (Coventry)

PERCY ALLEN (Arsenal a Watford)

JOHN RYAN (Luton a Sheffield Wed.) — WYN DAVIES (Wrexham, Bolton, Man. U a Man. City) — MALCOLM ALLEN (Watford, Norwich, Millwall)

Eilyddion:
MORGAN (Northampton)
DERFEL ROBERTS (Wrexham)
GEOFFREY W. COFFIN (Caer)

Diddorol yntê? 'Sgwn i sawl tîm amatur arall all ymffrostio yn y fath gysylltiadau.

Yr ail reswm, ond yn sicr nid yw'n eilradd, yw i mi dderbyn yn fy llaw gan yr awdur, lyfr dathlu canmlwyddiant y Clwb. O bosib, dyma'r unig lyfr o'i fath i gael ei ysgrifennu yn yr iaith Gymraeg, a bu Arwel Jones wrthi ers misoedd lawer yn crynhoi hanes y ganrif gyntaf. Bwriedir lansio'r llyfr ar y 3ydd o Ebrill yng Ngwesty Dolbadarn (gweler y datganiad isod). Fe'ch sicrhaf ei fod yn werth ei brynu, fel cofnod o'r gêm ei hun, ac hefyd fel darlun o'r gymdeithas leol yn ystod y cyfnod. Yda' chi'n gwbod beth ydi cysylltiad Preston North End â Llanberis, pryd, a pham y llosgwyd dillad a physt gôl y Clwb; beth ddigwyddodd i'r fasgiad ddillad ym Mhenmaenmawr i orfodi'r Berries i ddod ar y cae ym Mae Colwyn mewn jumpers fair-isle. Mae'r holl wybodaeth rhwng y cloriau.

Cewch ddarganfod hefyd pryd y sefydlwyd timau yn Llanrug a Deiniolen, a pha beth yw tarddiad yr enw 'Darans' — pwy oedd y Wolves, a phwy oedd y Geoffrey Coffin (sy'n un o'r eilyddion yn nhîm Jiws) â diddordeb arbennig ynddo gan gefnogwyr Llanrug.

Llongyfarchiadau calonog i Arwel ac i'r Clwb, ac fe garent ddiolch i'r 250 o danysgrifwyr a sicrhaodd lwyddiant fasnachol y fenter.

Lansio'r Llyfr

Edrychir ar Llanberis fel un o glybiau mwyaf llwyddiannus arfordir gogledd Cymru, ac eleni 1990-91 mae'r clwb yn dathlu canmlwyddiant ei fodolaeth. Dichon nad oes unrhyw glwb gyda hanes mor ddiddorol a chyffrous! Llanberis, Llanbêr, Y Teigars, Y Berries, Y Snowdonians, Y Locos neu'r Darans, galwch nhw beth bynnag fynnoch chi — eu tymor nhw ydi 1990-91.

Yr awdur yw Arwel Jones, Hogia'r Wyddfa, a dreuliodd ddeuddeng mlynedd yn gwisgo'r crys du ac ambr cyn daeth y dydd yn niwedd y chwedegau iddo orfod dewis rhwng ei draed a'i 'larynx'!

Fel rhan o'r dathlu, bwriedir lansio'r llyfr nos Fercher, Ebrill 3ydd mewn noson o adloniant a bwffe yng Ngwesty Dolbadarn, Llanberis. Cymerir rhan gan Gôr Meibion Dyffryn Peris. Rhoddir blaenoriaeth i chwaraewyr, cyn chwaraewyr, cefnogwyr ac aelodau'r pwyllgor i'r dathlu. Pris y bwffe yw £3 ac fe ellir sicrhau tocynnau gan aelodau'r pwyllgor.

Cyhoeddir y llyfr 248 tudalen gan Glwb Pêl-droed Llanberis ac fe'i argreffir gan Wasg Carreg Gwalch — pris £5.